



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings

Dydd Mawrth, 27 Mawrth 2012
Tuesday, 27 March 2012

**Cynnwys
Contents**

- | | |
|----|---|
| 3 | Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister |
| 30 | Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement |
| 37 | Datganiad: Ymgynghoriad ar Awdurdodaeth Gyfreithiol ar wahân i Gymru
Statement: Consultation on a Separate Legal Jurisdiction for Wales |
| 49 | Datganiad: Strategaeth Pysgodfeydd Cymru
Statement: Welsh Fisheries Strategy |
| 66 | Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwasanaethau Ariannol
Legislative Consent Motion on the Financial Services Bill |
| 67 | Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Trosglwyddo Swyddogaethau,
Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol) 2012
The Welsh Language (Wales) Measure 2011 (Transfer of Functions, Transitional and
Consequential Provisions) Order 2012 |
| 70 | Cynllun Drafft ar Hawliau Plant i'w Gymeradwyo o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl
Ifanc (Cymru) 2011
Draft Children's Rights Scheme for Approval under the Rights of Children and Young
Persons (Wales) Measure 2011 |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

The Presiding Officer: Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.
Y Llywydd: Prynawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Polisi Gwyddoniaeth

1. Julie Morgan: *Beth mae'r Prif Weinidog yn ei wneud i ddatblygu polisi gwyddoniaeth yng Nghymru. OAQ(4)0451(FM)*

The First Minister (Carwyn Jones): The Welsh Government's new 'Science for Wales' agenda sets out a comprehensive programme of action to improve Welsh science.

Julie Morgan: I thank the First Minister for that reply. Will you join me in welcoming one of the announcements made yesterday by the Prime Minister, which was on the very welcome news of the doubling of the money for research into dementia? Considering that one of the world's outstanding research teams, led by Professor Julie Williams in the Cardiff University School of Medicine in my constituency of Cardiff North, is leading the way in the research into, and discovery of the causes of Alzheimer's, will you do what you can to ensure that that team, and other teams throughout Wales, get a fair share of that money?

The First Minister: It appears that the majority of the money will be distributed in England rather than in Wales, but we are trying to establish how much money will be available for research teams in Wales in order for them to bid for funds to carry out this important research.

Nick Ramsay: I also welcome that UK Government announcement yesterday. First Minister, the Welsh Government aims to increase our share of UK research and development funding to 5% on the basis of the Welsh population. Scotland has 8% of the UK population, but already receives nearly 15% of UK research council funding, which

Science Policy

1. Julie Morgan: *What is the First Minister doing to develop science policy in Wales. OAQ(4)0451(FM)*

Y Prif Weinidog (Carwyn Jones): Mae agenda newydd Llywodraeth Cymru 'Gwyddoniaeth i Gymru' yn nodi rhaglen weithredu gynhwysfawr i wella gwyddoniaeth yng Nghymru.

Julie Morgan: Diolch i'r Prif Weinidog am yr ateb hwnnw. A ymunwch â mi i groesawu un o'r cyhoeddiadau a wnaed ddoe gan y Prif Weinidog ar y newyddion da iawn ynghylch dyblu'r arian ar gyfer ymchwil i ddementia? O ystyried bod un o dimau ymchwil pwysig y byd, o dan arweiniad yr Athro Julie Williams yn Ysgol Feddygol Prifysgol Caerdydd yn fy etholaeth, sef Gogledd Caerdydd, yn arwain y ffordd yn y gwaith ymchwil ar glefyd Alzheimer, ac o ran darganfod yr hyn sy'n ei achosi, a wnewch chi bopeth y gallwch ei wneud i sicrhau bod y tîm, a thimau eraill ledled Cymru, yn cael cyfran deg o'r arian hwnnw?

Y Prif Weinidog: Ymddengys y bydd y rhan fwyaf o'r arian yn cael ei ddosbarthu yn Lloegr yn hytrach nag yng Nghymru, ond rydym yn ceisio cadarnhau faint o arian fydd ar gael ar gyfer timau ymchwil yng Nghymru er mwyn iddynt wneud cais am arian i gyflawni'r gwaith ymchwil pwysig hwn.

Nick Ramsay: Rwyf hefyd yn croesawu cyhoeddiad Llywodraeth y DU ddoe. Brif Weinidog, mae Llywodraeth Cymru yn anelu at gynyddu ein cyfran o gyllid ymchwil a datblygu'r DU i 5% ar sail poblogaeth Cymru. Mae gan yr Alban 8% o boblogaeth y DU, ond mae eisoes yn cael bron i 15% o gyllid cynghorau ymchwil y DU, sef tair

is three times your current target. Do you agree that you should be more ambitious for Wales?

The First Minister: No, because the target would mean a substantial increase in the amount of money that would come into Wales—additional funding of just over £24 million to Welsh universities. It is absolutely crucial that Welsh research teams can put forward the strongest possible bids to make sure that we get at least our fair share of research money.

Simon Thomas: Brif Weinidog, croesawaf y ddogfen a gyhoeddwyd gennych yr wythnos diwethaf yn amlinellu'r ffordd y byddwch yn datblygu gwyddoniaeth yng Nghymru. Cyhoeddwyd £100,000 ychwanegol yn y gyllideb ar gyfer gwyddoniaeth a thechnoleg, a buddsoddiad yn y maes. A ydych yn gwybod eto os oes unrhyw ganlyniad Barnett i'r £100,000 ychwanegol? A dilyn cwestiwn Nick Ramsay, pa gamau penodol rydych chi'n eu cymryd yn awr i gynyddu canran arian y cynghorau ymchwil sy'n dod i Gymru?

Y Prif Weinidog: Bydd yr Aelod yn ymwybodol o'r cynllun Sêr Cymru a'r pwyntiau eraill yn y strategaeth ei hun. O safbwynt unrhyw arian ymchwil, fel rheol, nid yw hynny'n golygu ein bod ni'n cael unrhyw fath o arian ychwanegol, gan nad yw arian ymchwil wedi'i ddatganoli, fwy neu lai. Fodd bynnag, yr ydym yn gwybod, o ddatganiad y Canghellor yr wythnos diwethaf, nad oes arian ychwanegol yng nghyswllt cyllidebau refeniw'r Cynulliad a'r Llywodraeth.

Blaenoriaethau ar gyfer y Llywodraeth Leol

2. Paul Davies: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraeth leol yn ystod y chwe mis nesaf. OAQ(4)0448(FM)*

Y Prif Weinidog: Mae ein blaenoriaethau ar gyfer llywodraeth leol wedi'u nodi'n glir yn y rhaglen lywodraethu.

Paul Davies: Un o flaenoriaethau pobl yn fy ardal i yw'r awydd i weld cynghorau tryloyw ac atebol. Rydym ni ar yr ochr yma i'r

gwaith eich targed presennol. A gytunwch y dylech fod yn fwy uchelgeisiol dros Gymru?

Y Prif Weinidog: Na, oherwydd byddai'r targed yn golygu cynnydd sylweddol yn y swm o arian a fyddai'n dod i mewn i Gymru—cyllid ychwanegol o ychydig dros £24 miliwn i brifysgolion Cymru. Mae'n gwbl hanfodol y gall timau ymchwil Cymru gyflwyno'r ceisiadau cryfaf posibl i sicrhau ein bod o leiaf yn cael ein cyfran deg o arian ymchwil.

Simon Thomas: First Minister, I welcome the document that you published last week, outlining how you intend to develop science in Wales. An additional £100,000 was announced in the budget for science and technology, and for investment in these fields. Do you know whether there will be a Barnett consequential to that additional £100,000? Further to Nick Ramsay's question, what specific steps are you now taking to increase the percentage of research council moneys coming to Wales?

The First Minister: The Member will be aware of the Sêr Cymru scheme and the other aspects of the science strategy. As regards research funding, it is not usually the case that we receive any additional money, because research funding has not really been devolved. However, we know, as a result of the Chancellor's statement last week, that there will be no additional money for the revenue budgets of the Assembly and the Government.

Priorities for Local Government

2. Paul Davies: *Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's priorities for local government in the next six months. OAQ(4)0448(FM)*

The First Minister: Our priorities for local government are set out clearly in the programme for government.

Paul Davies: A priority for people in my area is the desire to have transparent and accountable councils. On this side of the

Siambr eisoes wedi tynnu sylw at bwysigrwydd annog cynghorau i gyhoeddi gwariant dros £500, fel mae sir Fynwy, Casnewydd a Bro Morgannwg wedi'i wneud. Mae eich Gweinidog dros lywodraeth leol wedi diystyru hyn drwy ddweud y byddai'n feichus. A ydych chi'n cytuno â hyn, ac os felly, pam rydych chi'n diystyried cefnogi rhywbeth mor synhwyrol?

Y Prif Weinidog: Mae hyn yn rhywbeth i awdurdodau lleol eu hunain, ac nid oes modd gwybod ar hyn o bryd faint fyddai hyn yn costio i awdurdodau lleol. Os ydynt eisiau gwneud hyn, mae'n fater iddyn nhw, gan wybod eu bod yn atebol i etholwyr.

Mick Antoniw: Rhondda Cynon Taf County Borough Council has, this month, put its designated public place order into effect, which makes it an offence to fail to stop drinking alcohol or refuse to surrender alcohol when asked to do so by a police officer or a police community support officer. The order covers every street, park or public place in RCT at all times, and as you know, is intended to stamp out the type of problematic behaviours that cause concern to many, but still allow responsible alcohol use for all reasonable members of the community. Will the First Minister join me in congratulating Rhondda Cynon Taf councillors on their innovative action on this matter?

The First Minister: Yes, I will. It is important to ensure that the drinking of alcohol on the street is dealt with, because it causes anti-social behaviour and certainly puts fear into the hearts of so many people, particularly the elderly.

Rhodri Glyn Thomas: Ym mis Ionawr, cyhoeddodd y Gweinidog â chyfrifoldeb dros drafnidiaeth doriadau o 27% yn y cymhorthdal ar gyfer gwasanaethau trafnidiaeth lleol, a 25% yn y cymhorthdal ar gyfer darparwyr gwasanaethau bws. Mae bellach wedi cyhoeddi ei fod yn gohirio'r toriadau hyn, a oedd i'w cyflwyno ar 1 Ebrill. Heblaw am y ffaith bod etholiadau awdurdodau lleol yn ein hwynebu, a oes rhesymeg bellach i gyfrif am y newid

Chamber, we have already drawn attention to the importance of encouraging councils to publish expenditure of more than £500, as is done in Monmouthshire, Newport and the Vale of Glamorgan. Your Minister for local government has rejected this, saying that it would be onerous. Do you agree with him, and, if so, why are you refusing to support something that is so sensible?

The First Minister: This is a matter for local authorities themselves, and there is no way of knowing at the moment how much it would cost local authorities. If they want to do this, it is a matter for them, in the knowledge that they are accountable to their electorates.

Mick Antoniw: Rhoddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf rym i'w orchymyn manau cyhoeddus dynodedig y mis hwn, sy'n ei gwneud yn drosedd i bobl fethu â rhoi'r gorau i yfed alcohol neu wrthod ildio alcohol pan ofynnir iddynt wneud hynny gan heddwes neu gan swyddog cymorth cymunedol yr heddlu. Mae'r gorchymyn yn cwmpasu pob stryd, parc neu fan cyhoeddus yn Rhondda Cynon Taf drwy'r amser ac, fel y gwyddoch, ei fwriad yw cael gwared ar y math o ymddygiad problemus sy'n peri pryder i lawer, ond gan barhau i ganiatáu i bob aelod rhesymol o'r gymuned yfed alcohol mewn modd cyfrifol. A wnaiff y Prif Weinidog ymuno â mi i longyfarch cynghorwyr Rhondda Cynon Taf am eu camau arloesol ar y mater hwn?

Y Prif Weinidog: Gwnaf. Mae'n bwysig sicrhau yr ymdrinnir ag yfed alcohol ar y stryd, gan ei fod yn achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn sicr yn dychryn nifer o bobl i'r byw, yn enwedig yr henoed.

Rhodri Glyn Thomas: In January, the Minister with responsibility for transport announced cuts of 27% in the subsidy for local transport services, and 25% in the subsidy for bus service providers. He has since announced that he is postponing those cuts, which were due to be introduced on 1 April. Apart from the fact that we are facing local elections, is there any further rationale for this change of mind?

meddwl hwn?

Y Prif Weinidog: Na, dim o gwbl. Mae'n wir dweud bod y gyllideb hon wedi bod yn anodd iawn. Mae'r swm a delir i gwmnïau bysus yng Nghymru fesul litr o danwydd yn fwy na'r hyn a delir yn Lloegr. Fodd bynnag, mae'n bwysig dros ben ein bod yn sicrhau bod y rheini sydd heb lawer o arian yn gallu mynd ar fysus. Felly, rydym yn cadw'r cynlluniau sydd gennym er mwyn sicrhau bod pobl yn cael teithio ar y bysus am ddim os ydynt yn anabl neu dros 60 oed.

Aled Roberts: Mae'r galw am wasanaethau diogelu plant o fewn llywodraeth leol yn dal i gynyddu. Mewn tystiolaeth ddiweddar i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, galwodd Gweithredu dros Blant, a nifer o elusennau eraill, am fwy o wasanaethau ymyrraeth gynnar er mwyn atal achosion o blant yn cael eu hesgeuluso. A yw eich Llywodraeth chi'n bwriadu gwneud rhywbeth ynglŷn â hyn yn ystod y chwe mis nesaf?

Y Prif Weinidog: Bydd cyfle wrth i'r Bil gwasanaethau cymdeithasol fynd rhagddo i ystyried materion fel hyn, a hynny er mwyn gweld a oes ffordd effeithiol o ddelio â hyn yn y ddeddfwriaeth honno.

Mike Hedges: Does the First Minister agree that the most important thing in local government is having effective and efficient services, avoiding duplication, and having local authorities collaborating to get the best value for money for the people they represent?

The First Minister: Yes, absolutely. We have said many times as a Government that there should be effective collaboration across local authorities and between local authorities and other public sector bodies.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies): What does Cardiff have in common with Bicester, Torbay and Hull?

The First Minister: One thing I do know about Cardiff is that it has four Labour

The First Minister: No, not at all. It is true to say that this budget has been very difficult. The sum paid to bus companies in Wales per litre of fuel is higher than the sum paid in England. However, it is vital that we ensure that people who do not have much money can travel by bus. Therefore, we are retaining our schemes in order to ensure that people travel free of charge on buses if they are disabled or aged over 60.

Aled Roberts: The demand for safeguarding children services within local government is still increasing. In recent evidence to the Children and Young People Committee, Action for Children, and a number of other charities, called for more early intervention services in order to prevent cases of child neglect. Does your Government intend to do something about this during the next six months?

The First Minister: There will be an opportunity to look at these issues as the social services Bill is discussed, to see whether that legislation provides an effective way of dealing with those issues.

Mike Hedges: A yw'r Prif Weinidog yn cytuno mai'r peth pwysicaf mewn llywodraeth leol yw cael gwasanaethau effeithiol ac effeithlon, gan osgoi dyblygu, a chael awdurdodau lleol i gydweithio er mwyn cael y gwerth gorau am arian i'r bobl y maent yn eu cynrychioli?

Y Prif Weinidog: Ydw, ar bob cyfrif. Rydym wedi dweud sawl gwaith fel Llywodraeth y dylai fod cydweithio effeithiol ar draws awdurdodau lleol a rhwng awdurdodau lleol a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus.

Questions Without Notice from the Party Leaders

Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies): Beth sydd gan Gaerdydd yn gyffredin â Bicester, Torbay a Hull?

Y Prif Weinidog: Un peth yr wyf yn ei wybod am Gaerdydd yw bod ganddi bedwar

Assembly Members, and that situation will long continue.

Andrew R.T. Davies: There does not seem to be much else about it. Ultimately, Torbay, Bicester and Hull are three other places that were discounted in the first bidding round for the green investment bank. The bid was put together by your Government. There was the potential for the bank to locate here in Cardiff—an organisation that would have £3 billion to spend on green energy projects. Given that Cardiff city centre is an enterprise zone for the financial services sector and that the green energy project is a key foundation stone for your Government in relation to green energy jobs, do you not see this as a critical failure of your Government to get beyond the first stage in the bidding process to attract this major investment?

The First Minister: The reason why we did not get through the first stage is because there is no direct flight to Frankfurt. That was the only reason that was given to us. There is, of course, a need on behalf of the Prime Minister to placate the Scots. I noticed last week that not only did the Welsh Conservatives cancel their conference and held a rally in St Asaph, but the Prime Minister went to Scotland and did not bother with Wales. I therefore ask the leader of the opposition which is right: the Prime Minister holding Wales in low regard or the Prime Minister holding him in low regard?

Andrew R.T. Davies: I find it farcical that the First Minister of Wales can lower the tone to just petty politics—*[Interruption.]*—when his Government had its bid discounted in the first round of bidding, along with such financial colossuses as Hull, Bicester and Torbay. If you look at the bid document that was put together by the Welsh Government—*[Interruption.]*

The Presiding Officer: Order.

Andrew R.T. Davies: If you look at the bid document put together by the Welsh Government, you will see that it had grammatical and spelling mistakes, and its strongest—*[Interruption.]*

Aelod Cynulliad Llafur, a bydd y sefyllfa honno'n parhau am amser hir.

Andrew R.T. Davies: Ymddengys nad oes ganddi lawer arall amdani. Yn y pen draw, Torbay, Bicester a Hull yw'r tri lle arall a gafodd eu diystyru yn y cylch cyntaf o geisiadau ar gyfer y banc buddsoddi gwyrdd. Cafodd y cais ei lunio gan eich Llywodraeth. Roedd yno botensial i'r banc ymsefydlu yma yng Nghaerdydd—sefydliad a fyddai ganddo £3 biliwn i'w wario ar brosiectau ynni gwyrdd. O ystyried bod canol dinas Caerdydd yn ardal fenter ar gyfer y sector gwasanaethau ariannol a bod y prosiect ynni gwyrdd yn garreg sylfaen allweddol ar gyfer eich Llywodraeth mewn perthynas â swyddi ynni gwyrdd, onid ydych yn gweld y ffaith i'ch Llywodraeth fethu â mynd y tu hwnt i gam cyntaf y broses ymgeisio i ddenu'r buddsoddiad mawr hwn yn fethiant allweddol?

Y Prif Weinidog: Y rheswm pam na chawsom fynd heibio'r cam cyntaf yw oherwydd nad oes gennym daith awyr uniongyrchol i Frankfurt. Dyna oedd yr unig reswm a roddwyd i ni. Mae angen i'r Prif Weinidog dawelu'r Albanwyr, wrth gwrs. Sylwais yr wythnos diwethaf i'r Ceidwadwyr Cymreig nid yn unig ohirio eu cynhadledd a chynnal rali yn Llanelwy, ond i'r Prif Weinidog fynd i'r Alban heb drafferthu â Chymru. Gofynnaf felly i arweinydd yr wrthblaid beth yw'r gwirionedd: a oes gan y Prif Weinidog ddiffyg parch at Gymru neu ddiffyg parch ato ef?

Andrew R.T. Davies: Mae'n chwerthinllyd y gall Prif Weinidog Cymru ostwng naws y ddadl i chwarae gemau gwleidyddiaeth pitw—*[Torri ar draws.]*—pan fu i gais ei Lywodraeth gael ei ddiystyru yn y cylch cyntaf o geisiadau, ynghyd â chewri ariannol fel Hull, Bicester a Torbay. Os edrychwch ar y ddogfen gais a luniwyd gan Lywodraeth Cymru—*[Torri ar draws.]*

Y Llywydd: Trefn.

Andrew R.T. Davies: Os edrychwch ar y ddogfen gais a luniwyd gan Lywodraeth Cymru, gwelwch fod ynddi gamgymeriadau gramadegol a sillafu, a'r peth cryfaf—*[Torri ar draws.]*

The Presiding Officer: Order. Will you let the leader of the opposition finish, please?

Andrew R.T. Davies: You may believe that a £3 billion investment is a laughing matter, but the branding of Wales, as your Minister for business identified, is at fault. First Minister, I pointed out to you that not only is the financial services sector supposedly a priority for your Government, as are green jobs, yet you have allowed—

The Presiding Officer: Order. Are we coming to the question?

Andrew R.T. Davies: You have allowed this project to go under the radar. What is your Government doing to improve Wales's offer to secure more inward investment, better opportunities and better quality of jobs so that we can start punching above our weight?

The First Minister: I do not know if Members have seen the Conservative press release this morning, in which he accuses me of playing petty politics after accusing me of being the Nero of Wales, but suddenly he tries to take the moral high ground. I apologise for the grammatical mistakes in the document—the word is 'colossi', by the way, not 'colossuses'. When I listen to the leader of the opposition, it is a bit like listening to General Custer—you see him there, you know he should not be there, you know he is going to lose, but at least with Custer you know that he was not being attacked by his own men. [*Laughter.*] However, let us be serious about this. Where has he been on regional pay? He talks about complete failure, but he has completely failed the people of Wales in his attitude to regional pay. I call on him now—he has all afternoon to do it—to say in public that he does not agree with reductions of 20% in pay in Wales. Let us hear him condemn regional pay, let us hear him stand up for ordinary people, let us hear him stand up to the Prime Minister and let us hear him stand up for Wales.

Y Llywydd: Trefn. A wnewch chi ganiatáu i arweinydd yr wrthblaid orffen, os gwelwch yn dda?

Andrew R.T. Davies: Efallai y credwch fod £3 biliwn o fuddsoddiad yn fater i chwerthin amdano ond, fel y nododd eich Gweinidog busnes, mae brandio Cymru ar fai. Brif Weinidog, tynnais eich sylw at y ffaith bod y sector gwasanaethau ariannol nid yn unig yn flaenoriaeth, yn ôl pob sôn, i'ch Llywodraeth chi, fel y mae swyddi gwyrdd, ond eto rydych wedi caniatáu—

Y Llywydd: Trefn. A ydym yn dod at y cwestiwn?

Andrew R.T. Davies: Rydych wedi caniatáu i'r prosiect hwn ddiflannu o'r golwg. Beth y mae eich Llywodraeth yn ei wneud i wella cynnig Cymru i sicrhau mwy o fewnfuddsoddi, gwell cyfleoedd a swyddi o ansawdd gwell fel y gallwn ddechrau cyflawni'n well na'r disgwyl?

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn gwybod a yw Aelodau wedi gweld y datganiad i'r wasg gan y Ceidwadwyr y bore yma, lle cefais fy nghyhuddo o chwarae gemau gwleidyddol pitw ar ôl i mi gael fy nghyhuddo o fod yn Nero Cymru, ond yn sydyn mae'n ceisio cymryd safbwynt moesol aruchel. Ymddiheuraf am y camgymeriadau gramadegol yn y ddogfen—y gair yw 'colossi', gyda llaw, nid 'colossuses'. Pan fyddaf yn gwrando ar arweinydd yr wrthblaid, mae ychydig yn debyg i wrando ar Gadfridog Custer—rydych yn ei weld yno, rydych yn gwybod na ddylai fod yno, rydych yn gwybod ei fod yn mynd i gollu, ond o leiaf gyda Custer rydych yn gwybod nad oedd ei wŷr ei hun yn mynd i ymosod arno. [*Chwerthin.*] Fodd bynnag, gadewch inni fod o ddifrif ynglŷn â hyn. Ble mae wedi bod ar gyflogau rhanbarthol? Mae'n sôn am fethiant llwyr, ond mae wedi methu pobl Cymru yn llwyr gyda'i agwedd tuag at gyflogau rhanbarthol. Galwaf arno yn awr—mae ganddo'r prynhawn cyfan—i ddweud yn gyhoeddus nad yw'n cytuno â gostyngiadau o 20% mewn cyflogau yng Nghymru. Gadewch inni ei glywed yn condemnio cyflogau rhanbarthol, gadewch inni ei glywed yn sefyll dros bobl gyffredin, gadewch inni ei glywed

yn sefyll i fyny i'r Prif Weinidog a gadewch inni ei glywed yn sefyll dros Gymru.

Andrew R.T. Davies: I am more than happy—

Andrew R.T. Davies: Rwyf yn fwy na bodlon—

The Presiding Officer: Order. I am sorry, but you have already had more than three questions. Can we now give the leader of Plaid Cymru the due attention she deserves?

Y Llywydd: Trefn. Mae'n ddrwg gennyf, ond rydych eisoes wedi cael mwy na thri chwestiwn. A allwn yn awr roi i arweinydd Plaid Cymru y sylw dyledus y mae'n ei haeddu?

The Leader of Plaid Cymru (Leanne Wood): Thank you, Presiding Officer.

Arweinydd Plaid Cymru (Leanne Wood): Diolch, Lywydd.

First Minister, can you outline how your Government will boost renewable energy generation in Wales? Can you also clarify what additional powers you have requested in order to achieve this?

Brif Weinidog, a allwch chi amlinellu sut y bydd eich Llywodraeth yn rhoi hwb i gynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru? A allwch chi hefyd egluro pa bwerau ychwanegol yr ydych wedi gofyn amdanynt er mwyn cyflawni hyn?

The First Minister: So far, I have requested powers for renewable energy consents for projects of up to 100 MW. We will not be bound by the 100 MW figure, as I said last week. We thought that it was a reasonable request, but it has been rejected. We will continue to look to fund projects that promote renewable energy, such as the £6.4 million that we have put into marine energy in St Justinian bay in Pembrokeshire. However, the reality is that we need powers over renewables obligation certificates and powers over planning consents to fully maximise Wales's resources for the benefit of the people of Wales.

Y Prif Weinidog: Hyd yn hyn, rwyf wedi gofyn am bwerau ar gyfer cydsyniadau ynni adnewyddadwy ar gyfer prosiectau o hyd at 100 MW. Ni fyddwn yn cael ein rhwymo gan y ffigur o 100 MW, fel y dywedais yr wythnos diwethaf. Roeddem yn credu ei fod yn gais rhesymol, ond mae wedi'i wrthod. Byddwn yn parhau i edrych i ariannu prosiectau sy'n hyrwyddo ynni adnewyddadwy, fel y £6.4 miliwn rydym wedi'i roi i ynni morol ym Mhorth Stinan yn sir Benfro. Fodd bynnag, y realiti yw bod angen pwerau arnom dros dystysgrifau rhwymedigaeth ynni adnewyddadwy a thros ganiatâd cynllunio i wneud y defnydd gorau posibl o adnoddau Cymru er budd pobl Cymru.

Leanne Wood: Let us put to one side for a moment the toing and froing on the question of 100 MW. The Crown Estate will increasingly benefit financially from renewable energy production schemes on land, but, more importantly, at sea. Plaid Cymru believes that those benefits should go to the people of Wales via the Welsh Government. First Minister, you have been asked in this Chamber on numerous occasions whether you will pursue the devolution of the Crown estates to Wales, yet, to date, we have not received a clear answer. Can you tell us what the Welsh Government's position is on the devolution

Leanne Wood: Gadewch inni roi i un ochr am funud y mynd a dod ar y cwestiwn o 100 MW. Bydd Ystâd y Goron yn cael budd ariannol cynyddol o gynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y tir ond, yn bwysicach, ar y môr. Cred Plaid Cymru y dylai'r manteision hynny fynd i bobl Cymru trwy gyfrwng Llywodraeth Cymru. Brif Weinidog, gofynnwyd i chi ar sawl achlysur yn y Siambr hon a fyddwch yn mynd ar drywydd datganoli ystadau'r Goron i Gymru ond, eto, hyd yn hyn, nid ydym wedi cael ateb clir. A allwch chi ddweud wrthym beth yw safbwynt Llywodraeth Cymru ar ddatganoli ystadau'r Goron?

of the Crown estates?

The First Minister: I believe that this matter should be dealt with by part 2 of the Silk commission. We note what has happened in Scotland. It is important that we come to an arrangement with the Crown Estate that will benefit the people of Wales. We also believe that Wylfa B should go ahead, with the creation of 600 jobs on Anglesey. Will the leader of Plaid Cymru join me in welcoming those jobs?

Leanne Wood: We need jobs in north-west Wales, but I would argue that jobs in the renewable sector are the ones that we should be pursuing. First Minister, can you understand how people from the renewables industry, which is what this question is about, are crying out for more clarity and direction, and, more importantly, will not commit to investing here until they get some clarity? What are you doing about this, First Minister?

The First Minister: I am sorry that the leader of Plaid Cymru cannot join me in welcoming the 600 jobs that Wylfa B would bring to north-west Anglesey. She asks a question about renewable energy, and our position is very clear: the energy statement was published two weeks ago. It is correct to say—I know that this is something that she agrees with and, indeed, all parties here agree with—that we need to see the further devolution of energy consents. We also need to see the devolution of the subsidy regime, which is, after all, what Scotland has; marine energy developers are being attracted to Scotland because of the money that is available, not because of the circumstances that exist in Scotland. We will then be able to offer a fully comprehensive service to potential investors and, of course, we will see maximum benefit in terms of income and jobs for the people of Wales.

1.45 p.m.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): First Minister, this morning, a dentist from Merthyr Tydfil told *Good Morning Wales* that he turns away from his practice between

Y Prif Weinidog: Credaf y dylai rhan 2 comisiwn Silk ymdrin â'r mater hwn. Rydym yn nodi'r hyn sydd wedi digwydd yn yr Alban. Mae'n bwysig ein bod yn dod i drefniant gydag Ystâd y Goron a fydd o fudd i bobl Cymru. Credwn hefyd y dylai Wylfa B fynd yn ei flaen, gan greu 600 o swyddi ar Ynys Môn. A fydd arweinydd Plaid Cymru yn ymuno â mi i groesawu'r swyddi hynny?

Leanne Wood: Mae angen swyddi yng ngogledd-orllewin Cymru, ond byddwn yn dadlau mai swyddi yn y sector adnewyddadwy yw'r rhai y dylem fod yn mynd ar eu trywydd. Brif Weinidog, a allwch chi ddeall pam fod pobl o fewn y diwydiant ynni adnewyddadwy, sef pwnc y cwestiwn hwn, yn crefu am fwy o eglurder a chyfeiriad ac, yn bwysicach, na fyddant yn ymrwmo i fuddsoddi yma hyd nes eu bod yn cael rhywfaint o eglurder? Beth ydych chi'n ei wneud am hyn, Brif Weinidog?

Y Prif Weinidog: Mae'n ddrwg gennyf nad oes modd i arweinydd Plaid Cymru ymuno â mi i groesawu'r 600 o swyddi a ddeuai i ogledd-orllewin Ynys Môn yn sgîl Wylfa B. Mae'n gofyn cwestiwn am ynni adnewyddadwy, ac mae ein safbwynt yn glir iawn: cyhoeddwyd y datganiad ynni bythefnos yn ôl. Mae'n gywir dweud—gwn fod hyn yn rhywbeth y mae'n cytuno ag ef, ac, yn wir, y mae pob plaid yma yn cytuno ag ef—fod angen inni weld rhagor o ddatganoli caniatadau ynni. Mae hefyd angen inni weld datganoli'r gyfundrefn cymhorthdal, sef, wedi'r cyfan, yr hyn sydd gan yr Alban; mae datblygwyr ynni morol yn cael eu denu i'r Alban oherwydd yr arian sydd ar gael, nid oherwydd yr amgylchiadau sy'n bodoli yno. Byddwn wedyn yn gallu cynnig gwasanaeth cynhwysfawr i ddarpar fuddsoddwyr ac, wrth gwrs, byddwn yn gweld y budd mwyaf o ran incwm a swyddi i bobl Cymru.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Brif Weinidog, y bore yma, dywedodd deintydd o Ferthyr Tudful wrth *Good Morning Wales* ei fod yn gwrthod rhwng pump a 30 o bobl sy'n ceisio

five and 30 people seeking NHS treatment every day. He has patients travelling from as far away as Newtown in Powys and Solva in west Wales, which is a four-hour round trip. New figures released by the Liberal Democrats today show that only 37% of dentists are accepting new NHS patients. When Labour introduced the new dental contract in 2006, Rhodri Morgan, the then First Minister, told the Assembly that everyone who needed access to an NHS dentist would get it. Six years on, are you satisfied that so many people cannot access NHS dental services?

The First Minister: I am, because I do not recognise the figures that you have produced. You seem to have sent forms to a self-selecting audience. I know many dentists who, if they saw a form from the Liberal Democrats, would not respond to it. However, the reality of the situation is that, for example, in the Hywel Dda Local Health Board area, more than 40,000 more patients regularly access NHS dentistry than five years ago. There may be some parts of Wales where there are waiting lists—I can see from your figures that most of them are to be listed in terms of months—but the reality is that, in much of Wales, access to NHS dentistry has improved greatly over the past five years.

Kirsty Williams: The First Minister can say what he likes about the survey carried out by the Welsh Liberal Democrats, but I note that the British Dental Association described it this morning as being a very valuable piece of work. I am very glad to hear, first hand, from dentists working in the community. Perhaps the First Minister should get out more himself. The truth is that many people struggle to find an NHS dentist. Even in the dental practices that still accept NHS patients, 65% of waiting lists are longer than two months and, in some cases, waiting lists to get on a list exceeded one year. The First Minister seems to think that that is good enough, but I do not.

triniaeth GIG yn ei ddeintyddfa bob dydd. Mae ganddo gleifion sy'n teithio o gyn belled i ffwrdd â'r Drenewydd ym Mhowys a Solfach yn y gorllewin, sef taith gron o bedair awr. Dengys ffigurau newydd a gyhoeddwyd heddiw gan y Democratiaid Rhyddfrydol mai dim ond 37% o ddeintyddion sy'n derbyn cleifion GIG newydd. Pan gyflwynodd Llafur y contract deintyddol newydd yn 2006, dywedodd Rhodri Morgan, y Prif Weinidog bryd hynny, wrth y Cynulliad y byddai pawb yr oedd arnynt angen mynediad at ddeintydd GIG yn ei gael. Chwe blynedd yn ddiweddarach, a ydych yn fodlon na all cynifer o bobl gael mynediad at wasanaethau deintyddol y GIG?

Y Prif Weinidog: Rwyf yn fodlon, gan nad wyf yn cydnabod y ffigurau rydych wedi eu cynhyrchu. Ymddengys eich bod wedi anfon ffurflenni at gynulleidfa a ddewisodd ei hun. Gwn am lawer o ddeintyddion na fyddai'n ymateb i ffurflen gan y Democratiaid Rhyddfrydol pe baent yn gweld un. Fodd bynnag, y gwir amdani yw bod 40,000 yn fwy o gleifion yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, er enghraifft, yn cael mynediad rheolaidd at wasanaethau deintyddol y GIG nag oedd yn wir bum mlynedd yn ôl. Efallai fod rhestrau aros mewn rhai rhannau o Gymru—gwelaf o'ch ffigurau bod y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu rhestru yn ôl misoedd—ond y gwir amdani yw bod mynediad at wasanaethau deintyddol y GIG wedi gwella'n fawr dros y pum mlynedd diwethaf mewn sawl rhan o Gymru.

Kirsty Williams: Caiff y Prif Weinidog ddweud yr hyn a fynno am yr arolwg a gynhaliwyd gan Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, ond nodaf fod Cymdeithas Ddeintyddol Prydain wedi dweud y bore yma ei fod yn ddarn o waith gwerthfawr iawn. Rwyf yn falch iawn o glywed yn uniongyrchol gan ddeintyddion sy'n gweithio yn y gymuned. Efallai y dylai'r Prif Weinidog fynd allan yn amlach. Y gwir yw bod llawer o bobl yn cael trafferth dod o hyd i ddeintydd y GIG. Hyd yn oed mewn deintyddfeydd sy'n dal i dderbyn cleifion y GIG, mae 65% o restrau aros yn hwy na dau fis ac, mewn rhai achosion, mae'r rhestrau aros i fynd ar restr yn hwy na blwyddyn. Ymddengys fod y Prif Weinidog yn meddwl

bod hynny'n ddigon da, ond nid wyf i.

Your programme for government states that you will improve access to dentists and increase the percentage of the population with an NHS dentist, which seems to suggest that you do think that something needs to be done. However, you seem to have omitted to include a figure for those targets. Could you please clarify that for Members in the Chamber? What percentage increase do you expect to see by the end of this Government? Does the 100% target set by your predecessor still apply?

Dywed eich rhaglen lywodraethu y byddwch yn gwella mynediad at ddeintyddion ac yn cynyddu canran y boblogaeth sydd â deintydd y GIG, sy'n ymddangos fel pe bai'n awgrymu eich bod yn meddwl bod angen gwneud rhywbeth. Fodd bynnag, ymddengys eich bod wedi hepgor cynnwys ffigur ar gyfer y targedau hynny. A wnewch egluro hynny i Aelodau yn y Siambr? Pa gynnydd mewn canran yr ydych yn disgwyl ei weld erbyn diwedd y Llywodraeth hon? A yw'r targed o 100% a bennwyd gan eich rhagflaenydd yn dal yn berthnasol?

The First Minister: It does. Of course, over the last five years, there has been a substantial increase in the number of NHS dental places and the number of people who can access those places. I know of areas in Wales—my own town is one example, just to show that I do get out—where there are NHS dentists and where people have not found it difficult to access NHS dentistry. There may well be other parts of Wales where the situation is slightly more difficult, but I cannot accept that, somehow, the situation has become worse over the past five years, because clearly it is far better.

Y Prif Weinidog: Mae'n dal yn berthnasol. Wrth gwrs, dros y pum mlynedd diwethaf, bu cynnydd sylweddol yn nifer y lleoedd deintyddol yn y GIG a nifer y bobl sy'n gallu cael mynediad at y lleoedd hynny. Gwn am ardaloedd yng Nghymru—mae fy nhref fy hun yn un enghraifft, sy'n dangos fy mod yn mynd allan—lle mae deintyddion y GIG a lle nad yw pobl wedi cael trafferth cael gafael ar wasanaeth deintyddol y GIG. Efallai fod rhannau eraill o Gymru lle mae'r sefyllfa rywfaint yn anoddach, ond ni allaf dderbyn bod y sefyllfa rywsut wedi gwaethygu dros y pum mlynedd diwethaf, oherwydd mae'n amlwg ei bod yn llawer gwell.

Kirsty Williams: First Minister, the Welsh Liberal Democrats have revealed today in these figures that anyone who is in touch with the Welsh people knows that some people cannot register with a dentist and very many more people have to travel hours to see an NHS dentist. While one-third of dentists are not taking on NHS patients, over two-thirds are taking on private patients. Therefore, the well-off go private while the poorest are left waiting. Is this not another case of Labour's poor services doing poor people down?

Kirsty Williams: Brif Weinidog, datgelodd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru heddiw drwy gyfrwng y ffigurau hyn fod unrhyw un sydd mewn cysylltiad â phobl Cymru yn gwybod na all rhai pobl gofrestru â deintydd a bod yn rhaid i lawer mwy o bobl deithio am oriau i weld deintydd y GIG. Er nad yw traean o ddeintyddion yn derbyn cleifion y GIG, mae dros ddwy ran o dair yn derbyn cleifion preifat. Felly, mae'r rheini sy'n gefnog yn mynd yn breifat tra bo'r rhai tlotaf yn gorfod aros. Onid yw hyn yn enghraifft arall o wasanaethau gwael Llafur yn gwneud cam â phobl dlawd?

The First Minister: As I have said many times, the situation has vastly improved with regard to NHS dentistry. I cannot take lectures from the Liberal Democrats, after last week's budget, and what they did in supporting and defending tax decreases for the rich. They have failed in Westminster to say that regional pay is wrong and then the

Y Prif Weinidog: Fel y dywedais droeon, mae'r sefyllfa wedi gwella'n sylweddol o ran deintyddiaeth y GIG. Ni allaf wrando ar bregeth gan y Democratiaid Rhyddfrydol, ar ôl cyllideb yr wythnos diwethaf, a'r hyn a wnaethant i gefnogi ac amddiffyn gostyngiadau treth i'r cyfoethog. Maent wedi methu â dweud yn San Steffan fod cyflogau

leader of the Liberal Democrats accuses me of being out of touch with Welsh people. We will soon see how accurate she is, in May.

rhanbarthol yn anghywir, ond wedyn mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn fy nghyhuddo o fod allan o gysylltiad â phobl Cymru. Byddwn yn gweld cyn bo hir ba mor gywir yw hi, ym mis Mai.

The Presiding Officer: We now move back to the questions on the agenda, and I am sure that they will all be concise and to the point.

Y Llywydd: Rydym yn awr yn symud yn ôl i'r cwestiynau ar yr agenda, ac rwy'n siwr y byddant i gyd yn gryno a phwrpasol.

Uned Gyflawni

Delivery Unit

3. Lindsay Whittle: *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r cynnydd a wneir gan yr Uned Gyflawni o ran datblygu cynigion polisi'r Llywodraeth i ddeddfwriaeth. OAQ(4)0454(FM)*

3. Lindsay Whittle: *Will the First Minister outline progress being made by the Delivery Unit in developing the Government's policy proposals into legislation. OAQ(4)0454(FM)*

The First Minister: The delivery unit reports to me on a weekly basis on the progress and delivery of the Government's five-year programme.

Y Prif Weinidog: Mae'r uned gyflawni yn darparu adroddiad i mi bob wythnos ar gynnydd a'r gwaith o gyflawni rhaglen bum mlynedd y Llywodraeth.

Lindsay Whittle: First Minister, in 2011, one of the first questions that I asked was about the 20 proposed White Papers and Bills, of which no fewer than 13 did not even have a year specified for their introduction. You told me at the time that that was the method of setting out proposed Bills and that it was in line with UK parliamentary procedure. I have to say that I was a little disappointed, because I was rather hoping that we would not ape the UK Parliament, although we seem to be doing that day by day these days. Of course, that establishment is losing people's confidence. Minister, do you think that the delivery unit will help to produce much more specific timescales for the introduction of White Papers and Bills, thereby prompting your Government to counter the criticism, internal and external, of the delays in taking any decisive action?

Lindsay Whittle: Brif Weinidog, yn 2011, roedd un o'r cwestiynau cyntaf a ofynnais yn ymwneud â'r 20 o Bapurau Gwyn a Biliau arfaethedig, er nad oedd gan 13 ohonynt flwyddyn wedi ei nodi ar gyfer eu cyflwyno. Dywedasoeh wrthyf ar y pryd mai dyna oedd y ffordd o amlinellu Biliau arfaethedig a'i fod yn unol â gweithdrefn seneddol y DU. Rhaid imi ddweud fy mod ychydig yn siomedig, gan fy mod yn gobeithio na fyddem yn dynwared Senedd y DU, er ei bod yn ymddangos ein bod yn gwneud hynny o ddydd i ddydd y dyddiau hyn. Wrth gwrs, mae pobl yn colli hyder yn y sefydliad hwnnw. Weinidog, a ydych o'r farn y bydd yr uned gyflawni yn helpu i bennu terfynau amser llawer mwy penodol ar gyfer cyflwyno Papurau Gwyn a Biliau, a thrwy hynny ysgogi eich Llywodraeth i wrthsefyll y feirniadaeth fewnol ac allanol am yr oedi o ran cymryd unrhyw gamau pendant?

The First Minister: I must remember to look at the Plaid Cymru programme for government and its legislative proposals with regard to the dates that he talks about, because I know that, over a five-year programme, we would have ended up with nothing at all. Let us look at what is being done. There is the Local Government Byelaws (Wales) Bill, which was introduced on 28 November. On education, we have

Y Prif Weinidog: Mae'n rhaid imi gofio edrych ar raglen lywodraethu Plaid Cymru a'i chynigion deddfwriaethol o ran y dyddiadau y mae'n sôn amdanynt, oherwydd gwn na fyddem wedi cael unrhyw beth o gwbl dros gyfnod rhaglen bum mlynedd. Gadewch inni edrych ar yr hyn sy'n cael ei wneud. Cyflwynwyd Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) ar 28 Tachwedd. O ran addysg, rydym wedi ymgynghori ar Bapur Gwyn yn

consulted on a White Paper relating to schools standards and organisation and we will be introducing the Bill shortly after the Easter recess. We are currently consulting on a draft public audit Bill, which will be introduced before the summer recess. There is a consultation running at the moment on the proposals for the social services Bill. In the coming months, we will be launching consultations on the sustainable development Bill, as well as White Papers on Bills for local government, democracy, further and higher education, housing and active travel. The organ and tissue donation White Paper has been released and the draft food hygiene rating Bill has been published. Given that this is a five-year programme, a tremendous amount has been done.

Andrew R.T. Davies: The delivery unit was supposed to speed up Government delivery with regard to the legislative programme. However, at the end of this week, we will be 20% through the five-year term of this Assembly and only one Bill has been introduced. Do you not think that that is a failure of the delivery unit to help the Government bring more legislation before the Assembly to improve the lives of the people of Wales?

The First Minister: I have just given a list of all the legislation that has been prepared and planned. I am sure that the leader of the opposition listened carefully to what I said.

The Presiding Officer: Order. I think that he was the Member for South Wales Central at that point.

The First Minister: Ah, he has been demoted already.

Llygredigaeth yn y DU

4. Mark Isherwood: *Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymateb i adroddiad Transparency International UK ar Lygredigaeth yn y DU. OAQ(4)0450(FM)*

The First Minister: The Government operates a zero-tolerance policy on corruption, bribery and fraud.

Mark Isherwood: Two weeks ago,

ymwneud â safonau a threfniadaeth ysgolion, a byddwn yn cyflwyno'r Bil yn fuan ar ôl toriad y Pasg. Rydym wrthi'n ymgynghori ar Fil archwilio cyhoeddus drafft, a gaiff ei gyflwyno cyn toriad yr haf. Mae ymgynghoriad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar y cynigion ar gyfer Bil gwasanaethau cymdeithasol. Yn y misoedd nesaf, byddwn yn lansio ymgynghoriad ar y Bil datblygu cynaliadwy, yn ogystal â Phapurau Gwyn ar Ffiliau ar gyfer llywodraeth leol, democratiaeth, addysg bellach ac uwch, tai a theithio byw. Rhyddhawyd y Papur Gwyn ar roi organau a meinwe, a chyhoeddwyd y Bil sgorio hylendid bwyd drafft. Gan mai rhaglen bum mlynedd yw hon, mae llawer iawn wedi'i wneud.

Andrew R.T. Davies: Bwriad yr uned gyflawni oedd cyflymu gwaith y Llywodraeth o ran cyflawni'r rhaglen ddeddfwriaethol. Fodd bynnag, ar ddiwedd yr wythnos hon, byddwn 20% o'r ffordd drwy dymor pum mlynedd y Cynulliad hwn a dim ond un Bil a gyflwynwyd. Onid ydych yn meddwl bod hynny'n fethiant ar ran yr uned gyflawni i helpu'r Llywodraeth i ddod â mwy o ddeddfwriaeth gerbron y Cynulliad i wella bywydau pobl Cymru?

Y Prif Weinidog: Rwyf newydd restru'r holl ddeddfwriaeth a baratowyd ac a gynlluniwyd. Rwyf yn siŵr y gwrandawodd arweinydd yr wrthblaid yn ofalus ar yr hyn a ddywedais.

Y Llywydd: Trefn. Rwyf yn meddwl mai Aelod dros Ganol De Cymru ydoedd bryd hynny.

Y Prif Weinidog: Felly, mae wedi cael ei ddiraddio'n barod.

Corruption in the UK

4. Mark Isherwood: *How does the Welsh Government intend to respond to Transparency International UK's report on Corruption in the UK. OAQ(4)0450(FM)*

Y Prif Weinidog: Mae'r Llywodraeth yn gweithredu polisi dim goddefgarwch ar lygredd, llwgrwobrwyo a thwyll.

Mark Isherwood: Bythefnos yn ôl,

Transparency International UK hosted an event in Cardiff University to present the report, which found that

‘politicians, government, business and institutions throughout the UK urgently need to understand and accept that corruption is a problem in key sectors in the UK and must be tackled consistently and coherently’.

Therefore, how do you respond to continuing concern that Wales has a higher than average proportion of whistleblowers in the public sector and the publicly funded sector who frequently report harassment, intimidation and threats? A good friend of mine, who represents people—

The Presiding Officer: Order. You have had two questions already. Can you come to a conclusion please?

Mark Isherwood: A good friend of mine has highlighted to me through his casework that this is a particular and growing problem in his representation of employees in publicly funded organisations in Wales.

The First Minister: Unless there is hard evidence of that, it is difficult to comment. However, I know that the Transparency International UK report is significantly England-centric. There is very little reference to Wales or the other devolved administrations.

Simon Thomas: First Minister, many of us were puzzled about why the Conservatives did not simply invite David Cameron to their conference in St Asaph, charge £250,000 and pay for it that way. Nevertheless, the issues of corruption and cash for access do reach your Government, because your civil servants have been involved in the Chemistry Club, which is an £1,800-a-year networking event for senior civil servants and politicians. This club was previously banned by the Cabinet Office, but has suddenly been allowed once again. The perception that you pay to access senior civil servants and Ministers must stop, whichever party—

cynhaliodd Transparency International UK ddigwyddiad ym Mhrifysgol Caerdydd i gyflwyno'r adroddiad, a ganfu fod

angen i wleidyddion, llywodraeth, busnes a sefydliadau ledled y DU fynd ati ar frys i ddeall a derbyn bod llygredd yn broblem mewn sectorau allweddol yn y DU a bod yn rhaid mynd i'r afael â hyn yn gyson a chydlynol.

Felly, sut rydych yn ymateb i'r pryder parhaus fod gan Gymru gyfran uwch na'r cyfartaledd o chwythwyr chwiban yn y sector cyhoeddus a'r sector a ariennir yn gyhoeddus, sydd yn aml yn cofnodi achosion o aflonyddu, tarfu a bygwth? Mae ffrind da imi, sy'n cynrychioli pobl—

Y Llywydd: Trefn. Rydych wedi cael dau gwestiwn yn barod. A allwch chi gloi, os gwelwch yn dda?

Mark Isherwood: Mae ffrind da imi wedi tynnu fy sylw, drwy ei waith achos, at y ffaith bod hon yn broblem benodol a chynyddol wrth iddo gynrychioli gweithwyr mewn sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru.

Y Prif Weinidog: Oni bai bod tystiolaeth gadarn o hynny, mae'n anodd gwneud sylw. Fodd bynnag, gwn fod yr adroddiad gan Transparency International UK yn canolbwyntio gan mwyaf ar Loegr. Nid oes fawr o gyfeiriad at Gymru na'r gweinyddiaethau datganoledig eraill.

Simon Thomas: Brif Weinidog, roedd llawer ohonom nad oeddem yn gallu deall pam na wnaeth y Ceidwadwyr wahodd David Cameron i'w cynhadledd yn Llanelwy, codi £250,000 a thalu amdani felly. Serch hynny, mae materion yn ymwneud â llygredd ac arian parod i gael mynediad yn cyrraedd eich Llywodraeth, oherwydd bu eich gweision sifil yn cymryd rhan yn y Chemistry Club, sef digwyddiad rhwydweithio £1,800 y flwyddyn i uwch weision sifil a gwleidyddion. Cafodd y clwb hwn ei wahardd o'r blaen gan Swyddfa'r Cabinet, ond yn sydyn cafodd ei ganiatáu unwaith eto. Mae'n rhaid i'r canfyddiad eich bod yn talu i gael mynediad at uwch weision sifil a

Gweinidogion ddod i ben, pa bynnag blaid—

The Presiding Officer: Order. Are you coming to the question?

Y Llywydd: Trefn. A ydych yn dod i'r cwestiwn?

Simon Thomas: What steps will you take to ensure that no such perception can be attached to your Government?

Simon Thomas: Pa gamau a gymerwch i sicrhau na ellir cysylltu eich Llywodraeth â chanfyddiad o'r fath?

The First Minister: I know of no example of professional lobbyists paying for access to senior civil servants or, indeed, politicians. If the Member has evidence of that very serious allegation, I suggest that he produces it.

Y Prif Weinidog: Ni wn am unrhyw enghraifft o lobïwyr proffesiynol yn talu i gael mynediad at uwch weision sifil neu, yn wir, at wleidyddion. Os oes gan yr Aelod dystiolaeth o'r honiad difrifol iawn hwnnw, awgrymaf ei fod yn ei gyflwyno.

Simon Thomas: It has been in the *Western Mail*. [*Laughter.*]

Simon Thomas: Mae wedi bod yn y *Western Mail*. [*Chwerthin.*]

The Presiding Officer: Order. Can we have no more chitchat from the backbenches, please? That includes you, Simon Thomas.

Y Llywydd: Trefn. A gawn ni lai o siarad mân o'r meinciau cefn, os gwelwch yn dda? Mae hynny'n eich cynnwys chi, Simon Thomas.

Sandy Mewies: First Minister, do you, like me, hail the move towards transparency from the party opposite? Perhaps its Members could urge their Prime Minister to hold a full inquiry into the cash-for-access matters that have already been raised.

Sandy Mewies: Brif Weinidog, a ydych chi, fel minnau, yn croesawu'r symudiad tuag at dryloywder gan y blaid gyferbyn? Efallai y gallai ei Haelodau annog eu Prif Weinidog i gynnal ymchwiliad llawn i'r materion arian-am-fynediad a godwyd yn barod.

The First Minister: Yesterday, I watched the unfolding events and the u-turns that took place pretty much every hour of the day. Clearly, there are questions that need to be answered by the Prime Minister. Transparency in Government is something that applies equally to Whitehall as to every other level of government.

Y Prif Weinidog: Ddoe, gwyliais y digwyddiadau'n datblygu a'r troeon pedol a ddigwyddodd fwy neu lai drwy'r dydd. Yn amlwg, mae angen i'r Prif Weinidog ateb cwestiynau. Mae tryloywder mewn Llywodraeth yn rhywbeth sydd yr un mor berthnasol i Whitehall ag ydyw i bob lefel arall o lywodraeth.

The Presiding Officer: Question 5, OAQ(4)0443(FM), has been withdrawn.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 5, OAQ (4) 0443 (FM), yn ôl.

Blaenoriaethau ar gyfer Aberconwy

Priorities for Aberconwy

6. Janet Finch-Saunders: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer Aberconwy yn y chwe mis nesaf. OAQ(4)0442(FM)

6. Janet Finch-Saunders: Will the First Minister make a statement on his priorities for Aberconwy in the next six months. OAQ(4)0442(FM)

The First Minister: They are outlined in the programme for government.

Y Prif Weinidog: Maent wedi'u hamlinellu yn y rhaglen lywodraethu.

Janet Finch-Saunders: In last week's

Janet Finch-Saunders: Yng nghyllideb yr

budget, the UK Government announced a reduction of some 5% in VAT for small cable-operated transport systems. I am absolutely delighted that this now applies to the Llandudno cable car. Will the First Minister join me in paying tribute to the UK Government for announcing this positive initiative and for its meaningful support for small businesses and our tourism industry in Wales?

The First Minister: I am sure that that is an enormous help to the Llandudno tramway, which has been there for many years and is an integral part of life in Llandudno. I just hope that the plans for regional pay do not mean that people will not be able to afford to ride on it.

Llyr Huws Gruffydd: Wrth greu ardaloedd menter yn y gogledd-ddwyrain a'r gogledd-orllewin, pa fesurau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau na fydd buddsoddiad yn cael ei sugno i'r ddau begwn hynny ar draul ardaloedd megis Aberconwy, yn enwedig yng nghyd-destun adfywio safleoedd strategol allweddol, fel Dolgarrog yn nyffryn Conwy?

Y Prif Weinidog: Rydym wedi sicrhau bod ardaloedd menter ym mhob rhan o Gymru, gan gynnwys Ynys Môn, sir Benfro a'r Cymoedd. Mae'n bwysig bod cyfle i bob rhan o Gymru gael buddsoddiad. Dyna pam ein bod wedi sicrhau bod gan bob ardal fenter thema, fel bod buddsoddwyr yn gwybod eu bod yn dod i ardal lle mae'r sgiliau eisoes ar gael, gan sicrhau bod yr ardaloedd hynny'n cael eu hystyried yn lleoedd da i fuddsoddi ynddynt.

Ail-Lunio Gwasanaethau Iechyd

7. Jenny Rathbone: *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i baratoi staff ar gyfer yr her o ail-lunio gwasanaethau iechyd er mwyn diwallu anghenion cleifion yn well. OAQ(4)0441(FM)*

The First Minister: A workforce and organisational development framework has been developed to support the implementation of 'Together for Health'. This has been produced in partnership with

wythnos diwethaf, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ostyngiad o tua 5% mewn TAW i systemau cludiant bach a weithredir gan gebl. Rwyf wrth fy modd fod hyn bellach yn berthnasol i gar cebl Llandudno. A wnaiff y Prif Weinidog ymuno â mi i dalu teyrnged i Lywodraeth y DU am gyhoeddi'r fenter gadarnhaol hon ac am ei chefnogaeth ystyrlon i fusnesau bach a'n diwydiant twristiaeth yng Nghymru?

Y Prif Weinidog: Rwyf yn siŵr bod hynny'n gymorth mawr i dramffordd Llandudno, a fu yno ers blynnyddoedd lawer ac sy'n rhan annatod o fywyd yn Llandudno. Y cyfan yr wyf yn gobeithio amdano yw na fydd y cynlluniau ynghylch cyflogau rhanbarthol yn golygu na fydd pobl yn gallu fforddio mynd arno.

Llyr Huws Gruffydd: Having created enterprise zones in north-west and north-east Wales, what steps is the Welsh Government taking to ensure that investment is not sucked to those two poles at the expense of areas such as Aberconwy, particularly in the context of regenerating key strategic sites, such as Dolgarrog in the Conwy valley?

The First Minister: We ensured that there are enterprise zones in every part of Wales, including Anglesey, Pembrokeshire and the Valleys. It is important that there is an opportunity for every part of Wales to receive investment. That is why we ensured that every enterprise zone has a theme, so that investors come to an area where skills are already available, thereby ensuring that those areas are considered to be good places for investment.

Re-Shaping Health Services

7. Jenny Rathbone: *What action is the Welsh Government taking to prepare staff for the challenge of re-shaping health services to better meet the needs of patients. OAQ(4)0441(FM)*

Y Prif Weinidog: Datblygwyd fframwaith gweithlu a datblygu sefydliadol i gefnogi'r gwaith o weithredu 'Law yn Llaw at Iechyd'. Mae hyn wedi cael ei lunio mewn partneriaeth â chynrychiolwyr y staff.

staff representatives.

Jenny Rathbone: As we are asking staff to support the reconfiguration of services to better meet the needs of patients, some become anxious about delivering services in the community, where there is less supervision than there is in the hospital. Specifically, how can we take staff with us in the desirable reconfiguration that is outlined in ‘Together for Health’?

The First Minister: Staff representatives have an important role to play. It is essential that the voices of staff are heard and that they understand how working differently will bring about a better and more quality-focused care outcome. I would expect all local health boards to ensure that their training plans are designed to support this.

Darren Millar: The national health service in Wales is facing unprecedented cuts in its budget—over £0.5 billion over the next three years, which are record-breaking cuts. As a result, services are being reshaped, but many service changes are being introduced without any consultation whatsoever with NHS staff. Only last week, when I was visiting Wrexham Maelor Hospital, I was told by members of staff on the wards that some beds were being axed, not being reopened, and no explanation was given to staff about why those service changes had been introduced until they were imposed. What are you doing to ensure that staff at all levels, not just those in senior clinical posts, are being fully engaged in any discussions before changes are implemented in hospitals, and not afterwards?

The First Minister: First, I would like to congratulate the Member for the transparency shown by his office over the course of last week with the response to the prostate cancer charity’s mailing, which was sent to all Members. I am afraid that we were not able to agree with what was sent out by his office

Jenny Rathbone: Wrth inni ofyn i staff gefnogi’r broses o ailgyflunio gwasanaethau i ddiwallu anghenion cleifion, mae rhai yn bryderus ynglŷn â darparu gwasanaethau yn y gymuned, lle mae llai o oruchwyliaeth nag sydd yn yr ysbyty. Yn benodol, sut y gallwn ennyn cefnogaeth y staff yn y broses ailgyflunio sydd ei hangen, a amlinellir yn ‘Law yn Llaw at Iechyd’?

Y Prif Weinidog: Mae gan gynrychiolwyr y staff rôl bwysig i’w chwarae. Mae’n hanfodol bod lleisiau staff yn cael eu clywed a’u bod yn deall sut y bydd gweithio’n wahanol yn esgor ar ganlyniad gwell o ran gofal, sy’n canolbwyntio fwy ar safon. Byddwn yn disgwyl i bob bwrdd iechyd lleol sicrhau bod eu cynlluniau hyfforddi wedi’u cynllunio i gefnogi hyn.

Darren Millar: Mae’r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru yn wynebu toriadau na welwyd eu tebyg yn ei gyllideb—mwy na £0.5 biliwn dros y tair blynedd nesaf, sy’n torri bob record. O ganlyniad, mae gwasanaethau yn cael eu had-drefnu, ond caiff llawer o newidiadau yn y gwasanaeth eu cyflwyno heb unrhyw ymgynghori â staff y GIG. Dim ond yr wythnos diwethaf, pan ymwelais ag Ysbyty Maelor Wrecsam, dywedodd aelodau staff ar y wardiau wrthyf fod rhai gwelyau yn diflannu ac na fyddant yn cael eu hailgyflwyno, ac na roddwyd unrhyw eglurhad i staff ynglŷn â pham y cyflwynwyd y newidiadau hynny nes eu bod ar waith. Beth yr ydych chi’n ei wneud i sicrhau bod staff ar bob lefel, nid dim ond y rhai mewn swyddi clinigol uwch, yn cael eu cynnwys yn llawn mewn unrhyw drafodaethau cyn y gwneir newidiadau mewn ysbytai, ac nid wedyn?

Y Prif Weinidog: Yn gyntaf, hoffwn longyfarch yr Aelod am y tryloywder a ddangoswyd gan ei swyddfa dros yr wythnos diwethaf, o ran yr ymateb i’r llythyr gan yr elusen canser y brostad a anfonwyd at yr holl Aelodau. Mae arnaf ofn nad oeddem yn gallu cytuno â’r hyn a anfonwyd allan gan ei swyddfa.

2.00 p.m.

I do not accept at all that there are record-breaking cuts. We now know that, despite what was said last year, there will be £20 billion-worth of cuts in the English NHS. That is now becoming clear. It is also becoming clear that the changes that are proposed in the NHS reconfiguration in England will be enormously expensive, which is another figure that is being kept from the public. Whenever I hear the party opposite talk about the NHS, it talks about NHS professionals having a role in the NHS, but it does not talk about what role there is for the people who work in the NHS who are not medically qualified. They do not seem to count, as far as the Welsh Conservatives are concerned. As far as I am concerned, we will have an NHS in Wales that delivers for the people of Wales and we will fight any suggestion that nurses in his constituency should be paid less than nurses in Cheshire. I look forward to hearing his voice, as opposed to David Jones, the over-worked Parliamentary Under Secretary of State for Wales, who suggested that teachers in Denbigh would be more than happy to be paid less than teachers in England.

Elin Jones: Wythnos diwethaf, cyhoeddodd nifer o fyrddau iechyd eu bwriad i ailagor nifer o unedau mân anafiadau a gwasanaethau eraill ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, ar ôl iddynt gyhoeddi eu cau ryw dri mis yn ôl. Ai dyma'r patrwm y gallwn ei ddisgwyl yn y gwasanaeth iechyd bob blwyddyn, sef cau rhai gwasanaethau yn nhri mis olaf y flwyddyn ariannol ac yna eu hailagor ym mis Ebrill pan ddaw mwy o arian ar gael?

Y Prif Weinidog: 'Na' yw'r ateb i hynny. Rydym yn erfyn i fyrddau iechyd sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn ystod y flwyddyn. Bydd achlysuron pan nad yw'n bosibl i gadw staff mewn rhai rhannau o'r gwasanaeth iechyd, ond rwy'n falch dros ben o weld bod y problemau yn rhai rhannau o Gymru wedi cael eu datrys.

Kenneth Skates: First Minister, Alcohol Concern recently reported on the fact that children as young as 10 can more readily identify the brands of alcoholic drinks than they can those of leading ice creams. This highlights a wider problem that we have with

Nid wyf yn derbyn o gwbl bod toriadau sy'n torri pob record. Rydym bellach yn gwybod, er gwaethaf yr hyn a ddywedwyd y llynedd, y bydd gwerth £20 biliwn o doriadau yn GIG Lloegr. Mae hynny yn awr yn glir. Mae hefyd yn dod i'r amlwg y bydd y newidiadau arfaethedig ar gyfer ad-drefnu'r GIG yn Lloegr yn hynod o ddrud, sy'n ffigur arall sy'n cael ei guddio rhag y cyhoedd. Pa bryd bynnag y byddaf yn clywed y blaid gyferbyn yn siarad am y GIG, mae'n sôn am weithwyr proffesiynol y GIG yn cael rôl yn y GIG, ond nid yw'n siarad am ba rôl sydd i'r bobl sy'n gweithio yn y GIG nad oes ganddynt gymwysterau meddygol. Nid yw'n ymddangos eu bod yn cyfrif, ym marn Ceidwadwyr Cymru. O'm rhan i, bydd gennym GIG yng Nghymru sy'n cyflenwi ar gyfer pobl Cymru a byddwn yn brwydro yn erbyn unrhyw awgrym y dylai nyrsys yn ei etholaeth gael eu talu llai na nyrsys yn swydd Gaer. Edrychaf ymlaen at glywed ei lais, yn hytrach nag un David Jones, yr Isysgrifennydd Seneddol dros Gymru sy'n cael ei orweithio, a awgrymodd y byddai athrawon yn Ninbych yn fwy na hapus i gael eu talu llai nag athrawon yn Lloegr.

Elin Jones: Last week, a number of health boards announced their intention to reopen a number of minor injuries units and other services at the start of the financial year, after having announced their closure some three months ago. Is this the pattern that we can now expect in the health service every year, namely that some services will be closed in the last three months of the financial year and then reopened in April when more funding becomes available?

The First Minister: 'No' is the answer to that. We expect health boards to ensure that services are available throughout the year. There will be occasions when it is not possible to retain staff in some parts of the health service, but I am extremely pleased to see that the problems that existed in some parts of Wales have been solved.

Kenneth Skates: Brif Weinidog, dywedodd Alcohol Concern yn ddiweddar y gall plant mor ifanc â 10 oed adnabod brandiau diodydd meddwol yn haws na'r prif frandiau hufen iâ. Mae hyn yn amlygu'r problem ehangach sydd gennym o ran diod, sy'n

drink, which costs the NHS an extraordinary amount of money every year. May I welcome the Welsh Government's 'Don't let drink sneak up on you' campaign, which is aimed at improving people's alcohol awareness and may I urge you to ensure that we do all that we can to tackle the problem of excessive alcohol drinking?

The First Minister: Indeed, it is a priority for the Government, and I very much welcome your support for the campaign.

Rhaglen Lywodraethu

8. Andrew R.T. Davies: *Pa gamau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cymryd i gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu yng Nghanol De Cymru. OAQ(4)0447(FM)*

The First Minister: We are making good progress in delivering our programme for government in all parts of Wales.

Andrew R.T. Davies: Thank you for that answer, First Minister. We disagree on how individual patient funding for medicines should be pursued in Wales, but I take it that the Government has brought a review forward that is concluding shortly. I have had it put to me that that review has not been inclusive in the evidence that it has taken and has been bureaucracy-led, that is, led by local health boards. Can you give an assurance that the review that the Government has undertaken has looked at the entire picture for individual patient medicine requests? This is a contentious issue, and I hope that we are all approaching it from the sincere position of trying to get the best outcome for the patients who require these medicines and for their families.

The First Minister: If the leader of the opposition has any evidence to support what he says, I would be more than happy to consider it.

Christine Chapman: We know that the 350,000 carers in Wales do excellent work that often goes unrecognised, and I welcome the strong commitment in the programme for government to ensure that Welsh carers are provided with a strong voice. First Minister,

costio swm anhygoel o arian i'r GIG bob blwyddyn. Croesawaf ymgyrch Llywodraeth Cymru, 'Paid gadael i'r ddiodyd dy ddal di'n slei bach', sydd wedi'i anelu at wella ymwybyddiaeth pobl o alcohol. A allaf eich annog i sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i fynd i'r afael â'r broblem o yfed gormod o alcohol?

Y Prif Weinidog: Yn wir, mae'n flaenoriaeth i'r Llywodraeth, ac rwy'n croesawu eich cefnogaeth i'r ymgyrch.

Programme for Government

8. Andrew R.T. Davies: *What steps has the First Minister taken to deliver the Programme for Government in South Wales Central. OAQ(4)0447(FM)*

Y Prif Weinidog: Rydym yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni ein rhaglen lywodraethu ym mhob rhan o Gymru.

Andrew R.T. Davies: Diolch am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Rydym yn anghytuno ynghylch sut y dylid mynd i'r afael â chyllido meddyginiaethau cleifion unigol yng Nghymru, ond rwy'n cymryd bod y Llywodraeth wedi ymgymryd ag adolygiad a fydd yn dod i ben cyn bo hir. Rwyf wedi clywed gan rai nad fu'r adolygiad hwnnw yn gynhwysol o ran y dystiolaeth a gasglwyd a'i fod wedi cael ei arwain gan fiwrocratiaeth, hynny yw, gan fyrddau iechyd lleol. A allwch roi sicrwydd bod yr adolygiad a gynhaliwyd gan y Llywodraeth wedi edrych ar y darlun cyfan o ran ceisiadau ar gyfer meddyginiaeth i gleifion unigol? Mae hwn yn fater dadleuol, a gobeithio ein bod i gyd yn edrych ar y mater hwn o'r safbwynt diffuant o geisio cael y canlyniad gorau i'r cleifion sydd angen y meddyginiaethau hyn a'u teuluoedd.

Y Prif Weinidog: Os oes gan arweinydd yr wrthblaid unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r hyn y mae'n ei ddweud, byddwn yn fwy na pharod i'w hystyried.

Christine Chapman: Rydym yn gwybod bod y 350,000 o ofalwyr yng Nghymru yn gwneud gwaith ardderchog nad yw'n cael ei gydnabod yn aml, ac rwy'n croesawu'r ymrwymiad cryf yn y rhaglen lywodraethu i sicrhau bod gan ofalwyr Cymru lais cryf. Brif

will you join me in welcoming the measures taken by Rhondda Cynon Taf County Borough Council to support carers within the county borough, including its recent stress-busting workshop to ensure the wellbeing of carers? Will you consider promoting this as an example of best practice when delivering those parts of the programme relating to carers in Wales?

The First Minister: The programme for government commits us to refreshing the carers strategy by April 2013, and that will provide us with an opportunity to look at examples of good practice along the lines that you have just outlined in RCT.

Eluned Parrott: Supporting inward investment in South Wales Central and the rest of Wales must surely be a priority in the programme for government. Can you confirm what steps you have taken in the last year to improve the visitor infrastructure around Cardiff Airport?

The First Minister: Yes. An agreement was made with the owners of the airport for a £26 million package: they would provide £21 million and we would provide £5 million. We spent two years working on getting Commission approval for that money. The money is still available, but the owners of the airport have not yet come forward with the £21 million that they said they would provide.

Lleihau'r Nifer o Bobl sy'n Ysmygu

9. Sandy Mewies: *A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am strategaeth Llywodraeth Cymru i leihau nifer y bobl sy'n ysmygu yng Nghymru. OAQ(4)0445(FM)*

The First Minister: Yes. The tobacco control action plan for Wales aims to drive down smoking prevalence levels to 16% by 2020.

Sandy Mewies: Thank you for that answer. As you say, the latest figures reveal that,

Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i groesawu'r mesurau a gymerwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i gefnogi gofalwyr o fewn y fwrdeistref sirol, gan gynnwys ei weithdy lleddfu straen diweddar i wella lles gofalwyr? A wnewch chi ystyried hyrwyddo hwn fel enghraifft o arfer gorau wrth gyflenwi'r rhannau hynny o'r rhaglen sy'n ymwneud â gofalwyr yng Nghymru?

Y Prif Weinidog: Mae'r rhaglen lywodraethu yn ein hymrwymo i ailwampio'r strategaeth gofalwyr erbyn mis Ebrill 2013, a bydd hynny'n rhoi cyfle inni edrych ar enghreifftiau o arfer da fel yr ydych newydd ei amlinellu yn Rhondda Cynon Taf.

Eluned Parrott: Mae'n rhaid i gefnogi buddsoddiad o'r tu allan yng Nghanol De Cymru a gweddill Cymru fod yn flaenoriaeth yn y rhaglen lywodraethu, does bosibl. A allwch chi gadarnhau pa gamau yr ydych wedi'u cymryd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i wella'r seilwaith i ymwelwyr o amgylch Maes Awyr Caerdydd?

Y Prif Weinidog: Gallaf. Cafwyd cytundeb gyda pherchnogion y maes awyr ar gyfer pecyn gwerth £26 miliwn: byddent yn darparu £21 miliwn a byddem yn darparu £5 miliwn. Gwnaethom dreulio dwy flynedd yn gweithio ar gael y Comisiwn i gymeradwyo'r arian hwnnw. Mae'r arian ar gael o hyd, ond nid yw perchnogion y maes awyr wedi darparu eto y £21 miliwn y dywedasant y byddent yn ei ddarparu.

Reducing the Number of People who Smoke

9. Sandy Mewies: *Will the First Minister provide an update on the Welsh Government's strategy to reduce the number of people who smoke in Wales. OAQ(4)0445(FM)*

Y Prif Weinidog: Gwnaf. Mae cynllun gweithredu Cymru ar reoli tybaco yn anelu at leihau lefelau ysmygu i 16% erbyn 2020.

Sandy Mewies: Diolch ichi am yr ateb hwnnw. Fel y dywedasoch, mae'r ffigurau

although adult smoking rates in Wales have been falling gradually, they are still as high as 23%. Worryingly, 14% of girls and 9% of boys aged 15 to 16 are smoking at least weekly. Action is already being taken by the Welsh Government to help prevent children from being exposed to second-hand smoke. However, what progress is being made in discouraging young people from starting to smoke?

The First Minister: A tobacco control delivery board is being established to drive forward the implementation of the action plan. Part of that plan will concentrate on ensuring that we discourage young people from smoking in the first place. Our aim is to reduce the harm caused by smoking tobacco, and that involves ensuring that young people are educated about the risks of tobacco, as well as removing the availability of tobacco-related products by, for example, banning the sale of cigarettes from vending machines.

William Graham: First Minister, unfortunately, it is widely known that the availability of cigarettes to underage people is high in Wales. Has your Government taken any steps to liaise with law enforcement authorities, particularly in terms of sentencing guidelines for those who sell cigarettes to children in defiance of the law?

The First Minister: Obviously, this is a matter for the police to enforce. However, we would certainly support any measures by the police to crack down on the illegal sale of cigarettes to those who are under age, and the illegal distribution of cigarettes as well.

Cefnogi Busnesau Lleol yn Nhor-faen

10. Lynne Neagle: *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi busnesau lleol yn Nhor-faen. OAQ(4)0444(FM)*

The First Minister: Yes. The commitments to businesses in Torfaen are to be found in the programme for government.

Lynne Neagle: Like other town centres

diweddaraf yn dangos, er y bu cyfraddau ysmegu oedolion yng Nghymru yn gostwng yn raddol, eu bod yn dal i fod mor uchel â 23%. Mae'n destun pryder bod 14% o ferched a 9% o fechgyn 15 a 16 oed yn ysmegu o leiaf yn wythnosol. Mae camau eisoes yn cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i helpu i atal plant rhag dod i gysylltiad â mwg ail-law. Fodd bynnag, pa gynnydd sy'n cael ei wneud o ran annog pobl ifanc i beidio â dechrau ysmegu?

Y Prif Weinidog: Mae bwrdd cyflenwi rheoli tybaco yn cael ei sefydlu i fwrw ymlaen â'r gwaith o roi'r cynllun gweithredu ar waith. Bydd rhan o'r cynllun hwnnw yn canolbwyntio ar sicrhau ein bod yn annog pobl ifanc i beidio ag ysmegu yn y lle cyntaf. Ein nod yw lleihau'r niwed a achosir gan ysmegu tybaco, ac mae hynny'n cynnwys sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu haddysgu am beryglon tybaco, yn ogystal â sicrhau nad yw cynhyrchion sy'n gysylltiedig â thybaco ar gael drwy, er enghraifft, wahardd peiriannau sy'n gwerthu sigarêts.

William Graham: Brif Weinidog, yn anffodus, mae'n hysbys iawn fod argaeledd sigarêts i bobl sydd o dan oed yn uchel yng Nghymru. A yw eich Llywodraeth yn cymryd unrhyw gamau i gysylltu ag awdurdodau gorfodi'r gyfraith, yn enwedig o ran canllawiau dedfrydu ar gyfer y rhai sy'n gwerthu sigarêts i blant gan herio'r gyfraith?

Y Prif Weinidog: Yn amlwg, mae hwn yn fater i'r heddlu ei orfodi. Fodd bynnag, byddem yn sicr yn cefnogi unrhyw fesurau gan yr heddlu i fynd i'r afael â gwerthu sigarêts i bobl sydd o dan oed, a dosbarthu sigarêts yn anghyfreithlon hefyd.

Supporting Local Businesses in Torfaen

10. Lynne Neagle: *Will the First Minister outline how the Welsh Government is supporting local businesses in Torfaen. OAQ(4)0444(FM)*

Y Prif Weinidog: Gwnaf. Mae'r ymrwymadau i fusnesau yn Nhor-faen i'w cael yn y rhaglen lywodraethu.

Lynne Neagle: Fel canol trefi eraill ledled y

across the country, Pontypool has been hit hard by the downturn and the loss of iconic high street names such as Woolworths. Coming on top of the £13.5 million of regeneration funding that was announced for Pontypool last year, I am really pleased that the Welsh Government has decided to accept most of the recommendations in the Enterprise and Business Committee's report on town-centre regeneration. Would you agree, First Minister, that we must do absolutely everything in our power to support and improve town centres in places such as Pontypool, which are not only vital to the strength of local communities but are the very heart of communities across Wales?

The First Minister: I agree entirely. Town centres are in difficulties. They have been for many years due to out-of-town shopping centres, but also due increasingly to online retailing. The future of town centres lies in regeneration, but it also lies in examining which businesses and which retail outlets can be sustainable in town centres in the future. It is pointless harking back to the way that things were 20 years ago. There are good examples of businesses that are prospering in town centres, and we need to ensure that we look at the secret of their success to ensure that it can be replicated across the whole of Wales.

Mohammad Asghar: First Minister, you will be aware of the great disappointment caused by the Welsh Government's decision to reject the joint proposals from Torfaen and Monmouthshire councils for a virtual enterprise zone. It would have been based on developing a new digital economy, and it would have provided a huge boost to businesses in Torfaen. The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science said that she would consider any opportunities within the rejected proposals that would make a significant economic impact. Will you commit, First Minister, to having the Welsh Government look again at these proposals to see what can be done to support and promote businesses in Torfaen, which is in my region?

The First Minister: We will, of course, be

wlad, bu'r dirywiad economaidd a cholli enwau stryd fawr eiconig fel Woolworths yn ergyd drom i Bont-y-pŵl. Yn ogystal â'r £13.5 miliwn o gyllid adfywio a gyhoeddwyd ar gyfer Pont-y-pŵl y flwyddyn ddiwethaf, rwy'n falch iawn bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu derbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar adfywio canol trefi. A fydddech yn cytuno, Brif Weinidog, fod yn rhaid inni wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi a gwella canol trefi mewn lleoedd megis Pont-y-pŵl, sydd nid yn unig yn hanfodol i gryfder y cymunedau lleol, ond yn ganolog i gymunedau ledled Cymru?

Y Prif Weinidog: Cytunaf yn llwyr. Mae canol trefi yn wynebu trafferthion. Bu hyn yn wir ers blynyddoedd lawer oherwydd canolfannau siopa y tu allan i'r dref, ond hefyd, yn gynyddol, oherwydd manwerthu ar-lein. Mae dyfodol canol trefi yn gorwedd ym maes adfywio, ond mae hefyd angen ystyried pa fusnesau a chanolfannau manwerthu a all fod yn gynaliadwy yng nghanol trefi yn y dyfodol. Nid oes diben hiraethu am y ffordd yr oedd pethau 20 mlynedd yn ôl. Ceir enghreifftiau da o fusnesau sy'n ffynnu yng nghanol trefi, ac mae angen inni sicrhau ein bod yn edrych ar y gyfrinach y tu ôl i'w llwyddiant er mwyn sicrhau y gellir ailadrodd y llwyddiant hwnnw ledled Cymru.

Mohammad Asghar: Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol o'r siom mawr a achoswyd gan benderfyniad Llywodraeth Cymru i wrthod y cynigion ar y cyd gan gynghorau Tor-faen a Sir Fynwy ar gyfer ardal fenter rith. Byddai wedi bod yn seiliedig ar ddatblygu economi digidol newydd, a byddai wedi rhoi hwb enfawr i fusnesau yn Nhor-faen. Dywedodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth y byddai hi'n ystyried unrhyw gyfleoedd o fewn y cynigion a wrthodwyd a fyddai'n cael effaith economaidd sylweddol. A wnewch chi ymrwymo, Brif Weinidog, i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn edrych ar y cynigion hyn eto i weld beth y gellir ei wneud i gefnogi a hyrwyddo busnesau yn Nhor-faen, sydd yn fy rhanbarth i?

Y Prif Weinidog: Byddwn, wrth gwrs, yn

happy to look at any fresh proposals.

Cydraddoldeb i Bobl Anabl

11. Joyce Watson: Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau cydraddoldeb i bobl anabl yng Nghymru. OAQ(4)0452(FM)

The First Minister: We support the rights of disabled people to participate fully in society. Through our strategic equality plan and our independent living project, we are working to identify what further action is needed.

Joyce Watson: Last week, I attended the Carmarthenshire Disability Coalition for Action conference in Kidwelly, and one of the key issues for that organisation was access to transport. In the light of that, I welcome the news yesterday from the Welsh Government that new plastic blue badges with extra security features will be introduced in Wales to tackle the abuse of parking spaces for disabled drivers. First Minister, will you provide us with updates on the implementation of that scheme?

The First Minister: Yes, of course; I am happy to do that.

Russell George: First Minister, can you explain how you intend to maintain your Government's commitment to free concessionary travel on local bus services for elderly and disabled people when many service users cannot use their bus passes at all on mainstream public transport due to disability and mobility problems?

The First Minister: To my mind, buses are part of mainstream public transport. I am not sure what the question relates to. There are examples across Wales of buses that are far more accessible—there are examples of raised kerbs at bus stops and buses that are able to lower their suspension so that people in wheelchairs are able to access them. However, I can certainly assure Members that we believe that the concessionary fares

hapus i edrych ar unrhyw gynigion newydd.

Disability Equality

11. Joyce Watson: What is the Welsh Government doing to deliver disability equality in Wales. OAQ(4)0452(FM)

Y Prif Weinidog: Rydym yn cefnogi hawliau pobl anabl i chwarae rhan lawn mewn cymdeithas. Drwy ein cynllun cydraddoldeb strategol a'n prosiect ar gyfer byw'n annibynnol, rydym yn gweithio i ganfod pa gamau pellach sydd angen eu cymryd.

Joyce Watson: Yr wythnos diwethaf, es i'r gynhadledd a gynhaliwyd gan Gynghrair Anabledd Sir Gaerfyrddin ar gyfer Gweithredu yng Nghydsweli. Un o'r materion allweddol o safbwynt y sefydliad hwnnw yw mynediad i gludiant. Yng ngoleuni hynny, rwy'n croesawu'r newyddion ddoe gan Lywodraeth Cymru y bydd bathodynau glas plastig newydd gyda nodweddion diogelwch ychwanegol yn cael eu cyflwyno yng Nghymru i fynd i'r afael â cham-ddefnyddio manau parcio ar gyfer gyrwyr anabl. Brif Weinidog, a wnewch chi roi'r newyddion diweddaraf inni am weithredu'r cynllun hwnnw?

Y Prif Weinidog: Gwnaf, wrth gwrs; rwy'n hapus i wneud hynny.

Russell George: Brif Weinidog, a allwch egluro sut y bwriadwch gynnal ymrwymiad eich Llywodraeth i ganiatáu i bobl hŷn a phobl anabl deithio am ddim ar wasanaethau bws lleol, pan na all nifer o ddefnyddwyr gwasanaethau ddefnyddio eu tocynnau bws o gwbl ar drafnidiaeth gyhoeddus brif ffrwd o ganlyniad i broblemau anabledd a symudedd?

Y Prif Weinidog: Yn fy marn i, mae bysiau yn rhan o drafnidiaeth gyhoeddus brif ffrwd. Nid wyf yn siŵr at beth y mae'r cwestiwn yn cyfeirio. Ceir enghreifftiau ledled Cymru o fysiau sy'n fwy hygyrch o lawer—ceir enghreifftiau o balmantau a godwyd ger arosfannau bysiau a bysiau sy'n gallu gostwng lefel y cerbyd er mwyn i bobl mewn cadeiriau olwyn allu cael mynediad iddynt. Fodd bynnag, gallaf sicrhau Aelodau ein bod

scheme has been successful, and we will continue to support it.

Rebecca Evans: First Minister, it can be hard for some disabled people to find suitable housing. Some local authorities have put in place accessible housing registers to match disabled people to appropriate homes. Would you join me in encouraging all local authorities to adopt this good practice?

The First Minister: Yes. I agree that accessible housing registers are the way forward, and the revised code of guidance on the allocation of social housing encourages local authorities to keep a list of properties that have been adapted for disabled people. To my mind, that is good practice.

Mick Antoniw: The UK Government is about to press ahead with a consultation process that will lead to the loss of 300 jobs for the disabled in Remploy. Is the First Minister able to update us on any contact that he has had with UK Government with regard to protecting or trying to save those jobs?

The First Minister: We have asked for the devolution of Remploy's budget in order to help to save those jobs. We have not had a full response as yet. Also, I am aware that the Minister is examining whether there are alternative options such as social enterprises, because we know that many Remploy factories have full order books.

Porthladdoedd Cymru

12. Nick Ramsay: *Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i gefnogi porthladdoedd Cymru. OAQ(4)0453(FM)*

The First Minister: We continue to work closely with port operators, because we recognise the important role of ports in supporting the Welsh economy. I have met one of those operators to discuss future developments.

Nick Ramsay: Thank you for that answer, First Minister. I recognise that ports policy

yn credu y bu'r cynllun tocynnau teithio rhatach yn llwyddiannus, a byddwn yn parhau i'w gefnogi.

Rebecca Evans: Brif Weinidog, gall fod yn anodd i rai pobl anabl ddod o hyd i dai addas. Mae rhai awdurdodau lleol wedi sefydlu cofrestrau tai hygyrch i ddod o hyd i gartrefi priodol i bobl anabl. A wnewch chi ymuno â mi i annog pob awdurdod lleol i fabwysiadu'r arfer da hwn?

Y Prif Weinidog: Gwnaf. Rwy'n cytuno mai cofrestrau tai hygyrch yw'r ffordd ymlaen, ac mae'r cod canllawiau diwygiedig ar ddyrannu tai cymdeithasol yn annog awdurdodau lleol i gadw rhestr o dai sydd wedi cael eu haddasu ar gyfer pobl anabl. Yn fy marn i, mae hynny'n arfer da.

Mick Antoniw: Mae Llywodraeth y DU ar fin dechrau proses ymgynghori a fydd yn arwain at 300 o bobl anabl yn colli eu swyddi yn Remploy. A yw'r Prif Weinidog yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am unrhyw gyswllt y mae wedi'i gael gyda Llywodraeth y DU o ran gwarchod neu geisio achub y swyddi hynny?

Y Prif Weinidog: Rydym wedi gofyn i'r gyllideb ar gyfer Remploy gael ei datganoli er mwyn helpu i achub y swyddi hynny. Nid ydym wedi cael ymateb llawn hyd yma. Hefyd, rwy'n ymwybodol bod y Gweinidog yn edrych i weld a oes dewisiadau amgen, fel mentrau cymdeithasol, gan ein bod yn gwybod bod gan nifer o ffatrioedd Remploy lyfrau archebion llawn.

Welsh Ports

12. Nick Ramsay: *What plans does the First Minister have to support Welsh ports. OAQ(4)0453(FM)*

Y Prif Weinidog: Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda gweithredwyr porthladdoedd, oherwydd ein bod yn cydnabod rôl bwysig y porthladdoedd yn y gwaith o gefnogi economi Cymru. Rwyf wedi cyfarfod ag un o'r gweithredwyr hynny i drafod datblygiadau yn y dyfodol.

Nick Ramsay: Diolch am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Rwy'n cydnabod nad yw'r

overall has not been devolved, but I am sure that you will agree that Welsh ports require a strong transport infrastructure. I have here a copy of the reprioritised national transport plan and, actually, there are a number of good things in it—I can see the route study on the A4042 in my constituency, which is to be welcomed. That has been prioritised. However, one thing that is not in the reprioritised plan is a specific reference to freight. What is your Government proposing to do to enhance freight in Wales? Clearly, ports in Wales will only survive in the future if there is a strong freight policy.

The First Minister: I note what the Member said about the transport plan, and I welcome it—although he appeared surprised when he said that there are some good things in it. Nevertheless, I welcome that. We know that freight is important to the Welsh economy. We are closely engaged in the negotiations being led by the Department for Transport on the trans-European transport network framework, which includes the designation of ports that are particularly important for international connectivity, and all of the main Welsh ports are recognised under the present TENT framework.

Yr Arglwydd Elis-Thomas: Wrth edrych ar bolisi porthladdoedd, a wnaiff y Prif Weinidog edrych yn arbennig ar nwyddau sydd yn cael eu cludo ar reilffyrdd? Gyda dyfodiad posibilrwydd—cyflym, gobeithio—trydaneiddio yn ne Cymru, mae'n allweddol bod y llinellau rheilffyrdd cysylltiol, ac nid y brif linell yn unig, yn cael eu trydaneiddio i alluogi mynediad i borthladdoedd Casnewydd, Caerdydd ac Abertawe. Er hyn, mae'r un mor bwysig atgyfodi'r cysyniad o drydaneiddio yn y gogledd a sicrhau bod modd cario nwyddau ar reilffordd i Iwerddon ac ar draws Ewrop drwy'r cysylltiad hwnnw.

2.15 p.m.

Y Prif Weinidog: Rwy'n credu bod hynny'n

polisi porthladdoedd wedi'i ddatganoli yn gyffredinol, ond rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod angen seilwaith trafndiaeth cryf ar borthladdoedd Cymru. Mae gennyf gopi o'r cynllun trafndiaeth cenedlaethol wedi'i ail-flaenoriaethu o'm blaen ac, mewn gwirionedd, mae nifer o bethau da ynddo—gallaf weld yr astudiaeth llwybr ar yr A4042 yn fy etholaeth i, sydd i'w groesawu. Mae hynny wedi'i flaenoriaethu. Fodd bynnag, un peth nad yw'n ymddangos yn y cynllun ail-flaenoriaethu yw cyfeiriad penodol at gludo nwyddau. Beth y mae eich Llywodraeth yn bwriadu ei wneud i wella'r broses o gludo nwyddau yng Nghymru? Yn amlwg, ni fydd porthladdoedd yng Nghymru yn goroesi yn y dyfodol oni bai bod polisi cryf ar gludo nwyddau.

Y Prif Weinidog: Rwy'n nodi'r hyn y mae'r Aelod yn ei ddweud am y cynllun trafndiaeth, a chroesawaf hynny—er ei fod yn ymddangos ei fod wedi'i synnu bod rhai pethau da ynddo. Serch hynny, rwy'n croesawu hynny. Rydym yn gwybod bod cludo nwyddau yn bwysig i economi Cymru. Rydym yn cymryd rhan flaenllaw yn y trafodaethau sy'n cael eu harwain gan yr Adran Drafndiaeth ar y fframwaith rhwydwaith trafndiaeth traws-Ewropeaidd, sy'n cynnwys dynodi porthladdoedd sy'n arbennig o bwysig ar gyfer cysylltedd rhyngwladol, a chaiff pob un o brif borthladdoedd Cymru eu cydnabod o dan y fframwaith rhwydwaith trafndiaeth traws-Ewropeaidd presennol.

Lord Elis-Thomas: In looking at ports policy, would the First Minister look in particular at goods transported by rail? With the possible introduction—soon, hopefully—of electrification in south Wales, it is essential that the connecting railway lines, not just the main line, are electrified to enable access to ports in Newport, Cardiff and Swansea. However, it is just as important to resurrect the idea of electrification in north Wales and to ensure that it is possible to carry goods by rail to Ireland and across Europe through those links.

The First Minister: I think that that is

bwysig. Mae'n bwysig dros ben, yn gyntaf, ein bod yn gweld gwireddu'r cynlluniau rydym wedi eu cyflwyno ynglŷn â thrydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd a phrif reilffordd de Cymru. Ond nid oes rheswm, wrth gwrs, gydag amser, pam na ddylai prif reilffordd y gogledd gael ei thrydaneiddio hefyd. Rydym yn gwybod ar hyn o bryd bod trenau yn mynd mor bell â Crewe, ac wedyn mae locomotif disel yn cael ei gysylltu â'r trê. Felly, yn fy marn i, dylai'r lein ei hun gael ei thrydaneiddio mor bell â Chaerby yn y dyfodol.

William Powell: First Minister, back in 2009, the Welsh Affairs Select Committee in its report on ports in Wales found that,

'Welsh ports are under-exploited resources that could play a much greater role in Wales's economic development.'

In order to further that, the report highlighted the advantages of expansion into the cruise market as a key avenue for success and pointed to significant evidence that the leisure cruise industry, which currently lacked the infrastructure necessary to support large cruise ships across Wales, was in need of investment. What action has been taken in the two and half years that have elapsed since this report was published to enable smaller Welsh ports, such as those all the way around my region of Mid and West Wales, to take large cruise ships at quayside and therefore aid local regeneration projects?

The First Minister: Of course, Holyhead has been successful in attracting cruise ships in the past few years. However, it is also right to say that it would be useful to see improvements in Fishguard and the other ports around Wales. In the meetings that I have had with the operators of the ports—they are private companies—it is clear that they recognise the opportunities that are there and there are some exciting projects that we hope we will be able to support and take forward.

Mynediad at Wasanaethau Cyhoeddus

Much of our fisheries are sustainable by their very nature. Welsh fisheries are overwhelmingly dominated by small inshore vessels in the under-10m category. Weather conditions mean that these vessels are unable to fish for much more than 100 days a year, and they do not have either the advanced gear or the storage capacity of the larger deep-sea fleet. My view is that the particular needs of the small-scale coastal fishing community are not being considered fully as part of the reform of the common fisheries policy. I have raised these issues with the European Commission, and I believe that Wales could play a significant role in leading policy development in these fields. To that end, I will be focusing on many of these issues over the coming year.

I would like to take this opportunity to thank the Chair of the Common Fisheries Policy Task and Finish Group for its views on the common fisheries policy. I will respond

datganiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am ddull Llywodraeth Cymru o reoli ein pysgodfeydd. Mae uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer ein pysgodfeydd wedi'u gwreiddio yn ein cred bod yn rhaid i bysgodfeydd fod yn gynaliadwy. Mae'n bolisi gennym gyflawni cynaliadwyedd tymor hir a fydd yn diogelu stociau pysgod ac yn amddiffyn y cymunedau a theuluoedd sy'n dibynnu ar bysgota am eu bywoliaeth. Dyma'r egwyddor sylfaenol sy'n llywio fy mhroses o wneud penderfyniadau a'm hagwedd tuag at reoli polisi pysgodfeydd yn y dyfodol.

Mae polisi presennol Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar y strategaeth a gyhoeddwyd yn 2008. Fy marn i yw bod y strategaeth hon wedi gwasanaethu'r diwydiant yn dda ac mae wedi annog symud tuag at bysgodfeydd cynaliadwy. Fodd bynnag, wrth symud tuag at y dyfodol, byddwn yn hoffi iddo edrych tuag allan yn fwy er mwyn adlewyrchu ein rôl gynyddol yn Ewrop yn well, sy'n arbennig o bwysig oherwydd y gwaith sy'n mynd rhagddo i ddiwygio'r polisi pysgodfeydd cyffredin. Mae'n fwriad gennyf adolygu ac adnewyddu'r strategaeth hon dros y flwyddyn nesaf.

Mae llawer o'n pysgodfeydd yn gynaliadwy o ran eu natur. Mae'r rhan fwyaf o bysgodfeydd Cymru yn dibynnu ar gychod mewforol bach yn y categori dan 10 metr. Mae amodau tywydd yn golygu nad yw'r cychod hyn yn gallu pysgota am lawer yn fwy na 100 diwrnod y flwyddyn, ac nid oes ganddynt y gêr datblygedig na'r lle i storio sydd gan y llongau cefnforol mawr. Fy marn i yw nad yw anghenion penodol y gymuned pysgota arfordirol graddfa fach yn cael eu hystyried yn llawn fel rhan o'r gwaith o ddiwygio'r polisi pysgodfeydd cyffredin. Rwyf wedi crybwyll y materion hyn wrth y Comisiwn Ewropeaidd, ac rwy'n credu y gallai Cymru chwarae rôl flaenllaw yn y gwaith o ddatblygu polisi yn y meysydd hyn. I'r perwyl hwnnw, byddaf yn canolbwyntio ar lawer o'r materion hyn dros y flwyddyn nesaf.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i Gadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin am safbwyntiau'r grŵp ar y polisi pysgodfeydd

formally to its report, but I would like to note today that I found the report to be useful not only in its scrutiny of the approach of Government, but also because it reinforces and underpins many of the points that are being made by the Government in the negotiations that we are currently undertaking.

The common fisheries policy is not the only legislation that creates a new framework within which we operate. I have been in negotiations with other UK fisheries Ministers to reach an agreement that will enable the respective devolved administrations to manage fully licensing and quota for their respective fishing vessels. I am pleased to say that those discussions are progressing well, and I expect to make an announcement on this after the Easter recess. Those discussions centre on quota management in the Welsh zone and the improvement of landing information from smaller vessels. At the same time, I see considerable merit in new joint-working arrangements with neighbouring administrations for the Irish sea waters and the Welsh fisheries zone—I have asked officials to follow this up and arrange more formal discussions during the summer.

The Welsh Government's 2008 strategy signalled the need to improve fisheries legislation, and we have now begun to intensively review the significant range of fisheries legislation that exists to ensure that it is fit for purpose, leads to sustainability and is easy to understand. This is a process that will take place over the whole of this Assembly.

There has been and will be a series of consultations setting out options for change over the next two years. The first of these, relating to grandfather rights in the inshore area, were recently the subject of consultation. I am aware of the importance of the inshore waters and the need to manage carefully access to these fisheries. I expect to move forward with proposals for legislation before the summer recess.

cyffredin. Byddaf yn ymateb yn ffurfiol i'w adroddiad, ond hoffwn nodi heddiw fy mod yn credu bod yr adroddiad yn ddefnyddiol nid yn unig o ran ei waith o graffu ar ddull gweithredu'r Llywodraeth ond hefyd am ei fod yn atgyfnerthu ac yn sail i lawer o'r pwyntiau sy'n cael eu gwneud gan y Llywodraeth yn y trafodaethau yr ydym yn rhan ohonynt ar hyn o bryd.

Nid y polisi pysgodfeydd cyffredin yw'r unig ddeddfwriaeth sy'n creu fframwaith newydd inni weithio o fewn iddo. Rwyf wedi bod yn cynnal trafodaethau gyda Gweinidogion eraill y DU sydd â chyfrifoldeb dros bysgodfeydd i ddod i gytundeb a fydd yn galluogi pob un o'r gweinyddiaethau datganoledig i reoli'n llwyr drwyddedu a chwotâu ar gyfer cychod pysgota yn eu hardal hwy. Rwy'n falch i ddweud bod y trafodaethau hynny'n symud ymlaen yn dda, ac rwy'n disgwyl gwneud cyhoeddiad am hyn ar ôl toriad y Pasg. Mae'r trafodaethau hynny yn canolbwyntio ar reoli chwotâu ym mharth Cymru a gwella gwybodaeth glanio gan gychod llai. Ar yr un pryd, rwy'n gweld rhinwedd sylweddol yn y trefniadau newydd ar gyfer cyd-weithio â gweinyddiaethau cyfagos mewn perthynas â dyfroedd môr Iwerddon a pharth pysgodfeydd Cymru—rwyf wedi gofyn i swyddogion wneud rhagor o waith yn y cyswllt hwn a threfnu trafodaethau mwy ffurfiol yn ystod yr haf.

Roedd strategaeth Llywodraeth Cymru yn 2008 yn cyfeirio at yr angen i wella deddfwriaeth ar bysgodfeydd, ac rydym wedi dechrau ar y gwaith dwys o adolygu'r ystod eang o ddeddfwriaeth sy'n bodoli ar bysgodfeydd, er mwyn sicrhau ei bod yn addas at y diben, yn arwain at gynaliadwyedd ac yn hawdd i'w deall. Mae hon yn broses a fydd yn parhau drwy gydol y Cynulliad hwn.

Cynhaliwyd cyfres o ymgynghoriadau yn nodi opsiynau ar gyfer newid dros y ddwy flynedd nesaf, a bydd rhagor o ymgynghoriadau tebyg yn cael eu cynnal. Roedd y cyntaf o'r rhain, sy'n ymwneud â hawliau hanesyddol yn ardal y glannau, yn destun ymgynghoriad yn ddiweddar. Rwy'n ymwybodol o bwysigrwydd dyfroedd y glannau a'r angen i reoli mynediad at y pysgodfeydd hyn yn ofalus. Rwy'n disgwyl symud ymlaen gyda'r cynigion ar gyfer

Science and a robust evidential base are the key to the reform of legislation and to our negotiating role in Europe. I have asked my officials to strengthen the evidence around the key stocks covered by the common fisheries policy and to consider any gaps in other areas as a matter of urgency. I expect this process to be completed by the end of 2012.

The strategy, as drafted, does not fully cover the challenges for fisheries management in the intertidal areas. Shellfish are important to the Welsh economy. I have asked my officials to review how we manage these fisheries as a matter of urgency. Options have been developed that include restrictive permitting, improved traceability and mechanisms to enforce against producers who take cockles illegally, all of which should make the industry more compliant. These options are currently being outlined to stakeholders and will be the subject of a consultation during the summer.

The scallop fishery has been the subject of much debate over recent years. A scallop Order was passed in 2010 that established a more sustainable framework for this fishery and removed the threat of the larger nomadic fishing vessels. However, I also plan to introduce compulsory vessel tracking for all vessels fishing for scallops in Welsh waters and I have asked officials to look into other restrictive measures to ensure the sustainability of the fishery for future generations.

The Seafish Industry Authority is funded by a levy on sea fish landed into the UK and has a role in promoting the industry. I am concerned to ensure that Wales gets value for money from the authority and will be reviewing the service it offers to the Welsh fleet.

Fisheries policy also includes recreational fishing within our inland waters and along the coast. This industry brings many millions of pounds into the Welsh economy and I am

deddfwriaeth cyn toriad yr haf.

Gwyddoniaeth a sail dystiolaeth gadarn yw'r allwedd i ddiwygio deddfwriaeth ac i'n rôl negodi yn Ewrop. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion gryfhau'r dystiolaeth ynghylch y stociau allweddol a gwmpesir gan y polisi pysgodfeydd cyffredin ac i ystyried unrhyw fylchau mewn meysydd eraill fel mater o frys. Rwy'n disgwyl i'r broses hon gael ei chwblhau erbyn diwedd 2012.

Nid yw'r strategaeth, fel y'i drafftwyd, yn ymdrin yn llawn â'r heriau sydd ynghlwm wrth reoli pysgodfeydd yn yr ardaloedd rhynglanwol. Mae pysgod cregyn yn bwysig i economi Cymru. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion adolygu sut yr ydym yn rheoli'r pysgodfeydd hyn fel mater o frys. Mae opsiynau wedi cael eu datblygu sy'n cynnwys trwyddedu cyfyngol, gwell galluoedd olrhain a dulliau o orfodi yn erbyn cynhyrchwyr sy'n casglu cocos yn anghyfreithlon. Dylai pob un ohonynt wella cydymffurfiaeth yn y diwydiant. Mae'r dewisiadau hyn yn cael eu hamlinellu i randdeiliaid ar hyn o bryd, a byddant yn destun ymgynghoriad yn ystod yr haf.

Mae'r bysgodfa cregyn bylchog wedi bod yn destun llawer o ddadlau dros y blynyddoedd diwethaf. Pasiwyd Gorchymyn cregyn bylchog yn 2010 a sefydlodd fframwaith mwy cynaliadwy ar gyfer y bysgodfa hon ac a ddileodd y bygythiad o du cychod pysgota crwydrol mawr. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn bwriadu cyflwyno system olrhain orfodol ar gyfer yr holl gychod sy'n pysgota am gregyn bylchog yn nyfroedd Cymru, ac rwyf wedi gofyn i swyddogion ymchwilio i fesurau cyfyngol eraill i sicrhau cynaliadwyedd y bysgodfa ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ariennir Awdurdod y Diwydiant Pysgod Môr gan ardoll ar bysgod môr a gaiff eu glanio yn y DU ac mae ganddo rôl o ran hyrwyddo'r diwydiant. Rwy'n awyddus i sicrhau bod Cymru'n cael gwerth am arian gan yr awdurdod, a byddaf yn adolygu'r gwasanaeth y mae'n ei gynnig i fflyd Cymru.

Mae polisi pysgodfeydd hefyd yn cynnwys pysgota hamdden o fewn ein dyfroedd mewndirol ac ar hyd yr arfordir. Mae'r diwydiant yn dod â llawer o filiynau o

determined that these fisheries will continue to be enjoyed by all. I want my officials to work with angling bodies, river trusts and other representative organisations to review how these bodies currently input into fisheries policy and how to bring forward proposals for how this structure could be strengthened. I will make a further announcement on these matters during the autumn.

As I have already indicated, the Government's fisheries strategy has been in place for nearly four years, and it is time to review that strategy to ensure that it is relevant for the needs of Wales and for Wales's role in Europe now and in the future. I want to see a dynamic document that clearly sets out the path and key milestones for delivering sustainable and profitable fisheries for Wales, the product of which can be enjoyed by all. I hope that Members, the wider industry and the Welsh public will join that debate.

Russell George: I thank the Deputy Minister for the statement. I have a few questions. The Wales fisheries strategy advocates an ecosystem approach to the practice and management of fisheries. What actions have been taken through the strategy to improve our knowledge of the interaction of fisheries with the environment? Also, what evidence has been presented in support of fisheries' interactions with potential sites in the selection process for highly protected marine conservation zones in Wales?

The capture fisheries implementation plan recognises that there are insufficient data on the levels and impacts of current fishing efforts, stock levels, species life cycles and capture methods. The absence of this information is a fundamental obstacle to the development of long-term management plans to support the development of viable and sustainable fisheries. What progress has been made in addressing these data gaps since the implantation plan was published in 2009 in terms of developing management plans? How have these priorities for data collection been determined?

bunnoedd i economi Cymru, ac rwy'n benderfynol y bydd y pysgodfeydd hyn yn parhau i gael eu mwynhau gan bawb. Rwyf am i'm swyddogion weithio gyda chyrrff pysgota, ymddiriedolaethau afonydd a sefydliadau cynrychioliadol eraill i adolygu sut y mae'r cyrrff hyn yn cyfrannu i'r polisi pysgodfeydd ar hyn o bryd a sut y dylid cyflwyno cynigion ar gyfer cryfhau'r strwythur hwn. Byddaf yn gwneud cyhoeddiad pellach ar y materion hyn yn ystod yr hydref.

Fel rwyf eisoes wedi nodi, mae strategaeth pysgodfeydd y Llywodraeth wedi'i sefydlu ers bron pedair blynedd, ac mae'n bryd adolygu'r strategaeth honno i sicrhau ei bod yn berthnasol i anghenion Cymru a rôl Cymru yn Ewrop yn awr ac yn y dyfodol. Rwyf am weld dogfen ddeinamig sy'n nodi'n glir y llwybr a'r cerrig milltir allweddol ar gyfer darparu pysgodfeydd cynaliadwy a phroffidiol i Gymru, y gall pawb fwynhau eu cynnyrch. Gobeithiaf y bydd yr Aelodau, y diwydiant ehangach a'r cyhoedd yng Nghymru yn ymuno â'r ddadl.

Russell George: Diolchaf i'r Dirprwy Weinidog am y datganiad. Mae gennyf rai cwestiynau. Mae strategaeth pysgodfeydd Cymru yn argymhell dull ecosystem o fynd i'r afael â gweithredu a rheoli pysgodfeydd. Pa gamau sydd wedi'u cymryd drwy'r strategaeth i wella ein dealltwriaeth o'r berthynas rhwng pysgodfeydd a'r amgylchedd? Hefyd, pa dystiolaeth sydd wedi'i chyflwyno i gefnogi'r berthynas rhwng pysgodfeydd a safleoedd posibl wrth ddewis parthau cadwraeth morol gwarchoddedig iawn yng Nghymru?

Mae'r cynllun gweithredu pysgodfeydd dal yn cydnabod nad oes digon o ddata ar lefelau ac effeithiau ymdrechion pysgota cyfredol, lefelau stoc, cylchoedd bywyd rhywogaethau a dulliau o ddal. Mae'r diffyg gwybodaeth hwn yn rhwystr sylfaenol rhag datblygu cynlluniau rheoli hirdymor i gefnogi'r gwaith o ddatblygu pysgodfeydd hyfyw a chynaliadwy. Pa gynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'r bylchau hyn yn y data ers cyhoeddi'r cynllun mewnbllannu yn 2009 o ran datblygu cynlluniau rheoli? Sut y penderfynwyd ar y blaenoriaethau hyn ar gyfer casglu data?

3.15 p.m.

My final question is in relation to recreational fishing, specifically freshwater angling, which has become a significant contributor to the Welsh economy, as the Deputy Minister mentioned in his statement, as more people are visiting Wales and taking part in this activity. Something that has been raised with me recently is access to waterways. The Deputy Minister has been aware that this is a sensitive issue. There are a number of recommendations that the previous Sustainability Committee made to the Government to improve relations between the groups that use inland waterways, such as access agreements and the licensing of organisations that use the waterways to make a profit. Anglers are disgruntled about the current perceived inequality in the system, particularly when they are paying hundreds of pounds a year for fishing licences. Will the Deputy Minister update us in relation to those recommendations and tell us if they have been implemented?

Alun Davies: Thank you for that question. It is a great reassurance to learn that you have read the report that I was involved in compiling, prior to my knowing that I would have ministerial responsibility for it following the election. [*Laughter.*] I will start with something else. [*Laughter.*]

I think that there is broad agreement on the ecosystem approach to the reform of the common fisheries policy and I think the Member has identified the key weakness, if you like, from a Welsh perspective of data collection, identification and understanding of stock levels in Welsh waters. We have a number of different projects currently in play that seek to broaden our understanding of the stocks available to us in the immediate sea areas around Wales. The Member may well be aware of the Fish Map Môn project, which is looking to understand what species and numbers of species are available around Anglesey. It is an example of what we would like to do in other parts of Wales and will continue to do so when funding becomes available.

Mae fy nghwestiwn olaf yn ymwneud â physgota hamdden, yn benodol pysgota dŵr croyw, sydd wedi dod yn gyfrannwr pwysig at economi Cymru, fel y soniodd y Dirprwy Weinidog yn ei ddatganiad, gan fod mwy o bobl yn ymweld â Chymru ac yn cymryd rhan yn y gweithgaredd hwn. Rhywbeth arall a godwyd gyda mi yn ddiweddar yw mynediad i ddyfrffyrdd. Bu'r Dirprwy Weinidog yn ymwybodol bod hwn yn fater sensitif. Gwnaeth y Pwyllgor Cynaliadwyedd blaenorol nifer o argymhellion i'r Llywodraeth i wella'r berthynas rhwng y grwpiau sy'n defnyddio dyfrffyrdd mewndirol, megis cytundebau mynediad a thrwyddedu sefydliadau sy'n defnyddio'r dyfrffyrdd i wneud elw. Mae pysgotwyr yn anfodlon ynghylch y dybiaeth bod y system bresennol yn anghyfartal, yn enwedig pan fyddant yn talu cannoedd o bunnoedd y flwyddyn am drwyddedau pysgota. A wnaiff y Dirprwy Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am yr argymhellion hynny a dweud wrthym os cawsant eu gweithredu?

Alun Davies: Diolch am y cwestiwn hwnnw. Mae'n galonidid mawr i wybod y buoch yn darllen yr adroddiad roeddwn yn rhan o'i lunio, cyn i mi wybod y byddai gennyf gyfrifoldeb gweinidogol amdano yn dilyn yr etholiad. [*Chwerthin.*] Dechreuaf gyda rhywbeth arall. [*Chwerthin.*]

Rwyf yn meddwl bod cytundeb cyffredinol ar ddefnyddio'r dull ecosystem i ddiwygio'r polisi pysgodfeydd cyffredin ac rwy'n credu bod yr Aelod wedi nodi'r gwendidau allweddol, os mynnwch, o safbwynt Cymru sef casglu data, a nodi a deall lefelau stoc yn nyfroedd Cymru. Mae gennym nifer o wahanol brosiectau ar waith ar y funud sy'n ceisio ehangu ein dealltwriaeth o'r stoc sydd ar gael i ni yn yr ardaloedd môr cyfagos o amgylch Cymru. Efallai bod yr Aelod yn gwybod am brosiect Map Pysgod Môn, sydd â'r nod o ddeall pa rywogaethau a'r niferoedd ohonynt sydd ar gael o amgylch Ynys Môn. Mae'n enghraifft o'r hyn y byddem yn hoffi ei wneud mewn rhannau eraill o Gymru, a byddwn yn parhau i wneud hynny pan fydd cyllid ar gael.

I have asked my officials to look seriously at the issue of data collection. I referred in my statement to strengthening the landing information that we have available from smaller vessels. That is an issue that desperately needs to be addressed and will be addressed for the current season. The information that we have available to us on fish landing in Wales is, I believe, quite poor. We have very little hard information on stock levels in Welsh waters and these are areas that we need to address. In answer to your question, we recognise where there are weaknesses, if you like, in our approach to these policy areas and we are taking steps, at present, to address those issues.

The reason I wanted to make the statement today, rather than later in the year, was to update Members prior to the beginning of this year's season, if you like. I also wanted to reassure Members that we recognise where this work needs to be done, both in understanding stock levels, for example in the Irish sea areas, and also in addressing issues of landing information. Both of those issues will be addressed during the current calendar year.

In terms of access to inland waterways, this is an issue that creates a significant debate. It was a matter that we examined on the Sustainability Committee last year. The Member will be aware of the conclusions of that committee and the Government's response to those.

Julie James: I welcome the Deputy Minister's statement and thank him for his kind words about the task and finish group on the common fisheries policy, which I chaired. I just wanted to reinforce the six priority areas identified by the task and finish group. The first was to ensure consistency, integration and compliance in relation to the common fisheries policy and the existing environmental directives, and to urge the Deputy Minister to ensure that that is carried through into Welsh Government policies, particularly those around the marine conservation zones and the habitats directives, which are currently under review.

Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion edrych o ddifrif ar gasglu data. Cyfeiriais yn fy natganiad at gryfhau'r wybodaeth am lanio sydd ar gael i ni gan longau llai. Mae hwnnw'n fater y mae dirfawr angen mynd i'r afael ag ef, ac y byddwn yn rhoi sylw iddo ar gyfer y tymor cyfredol. Mae'r wybodaeth sydd ar gael i ni am lanio pysgod yng Nghymru yn eithaf gwael, yn fy marn i. Ychydig iawn o wybodaeth gadarn sydd gennym am lefelau stoc yn nyfroedd Cymru, ac mae'r rhain yn feysydd y mae angen i ni roi sylw iddynt. I ateb eich cwestiwn, rydym yn cydnabod bod gwendidau, os mynnwch, yn ein hymagwedd tuag at y meysydd polisi hyn, ac rydym yn cymryd camau ar y funud i fynd i'r afael â hwy.

Y rheswm roeddwn am wneud y datganiad heddiw, yn hytrach nag yn hwyrach yn y flwyddyn, oedd er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau cyn dechrau tymor eleni, os mynnwch. Rwyf hefyd yn awyddus i roi sicrwydd i'r Aelodau ein bod yn cydnabod lle mae angen i'r gwaith hwn gael ei wneud, o ran deall lefelau stoc, er enghraifft yn ardaloedd môr Iwerddon, a hefyd wrth fynd i'r afael â materion yn ymwneud â gwybodaeth glanio. Bydd y ddau o'r materion hynny'n cael sylw yn y flwyddyn galendr bresennol.

O ran mynediad i ddyfrffyrdd mewndirol, mae hwn yn fater sy'n peri cryn ddadlau. Roedd yn fater a archwiliwyd gennym ar y Pwyllgor Cynaliadwyedd y llynedd. Bydd yr Aelod yn ymwybodol o gasgliadau'r pwyllgor hwnnw ac ymateb y Llywodraeth iddynt.

Julie James: Rwyf yn croesawu datganiad y Dirprwy Weinidog ac yn diolch iddo am ei eiriau caredig am y grŵp gorchwyl a gorffen ar y polisi pysgodfeydd cyffredin, yr oeddwn yn gadeirydd arno. Roeddwn am ail-bwysleisio'r chwe maes blaenoriaeth a nodwyd gan y grŵp gorchwyl a gorffen. Y cyntaf oedd sicrhau cysondeb, integreiddiad a chydymffurfiaeth o ran y polisi pysgodfeydd cyffredin a'r cyfarwydddebau amgylcheddol presennol, ac annog y Dirprwy Weinidog i sicrhau bod hynny'n dod yn rhan o bolisiau Llywodraeth Cymru, yn enwedig y rhai mewn perthynas â'r ardaloedd cadwraeth morol a'r cyfarwydddebau cynefinoedd, sy'n

We also want to ensure that the multi-annual plans are developed as a matter of priority, with reference to the coastal stocks and ecosystems that the Deputy Minister alluded to in his statement. They are increasingly important parts of the sustainability agenda and are important for the protection of our inshore fleet, as these small fisheries are the most sustainable sorts of fisheries that you can have.

We want to ensure genuine decentralisation and regionalisation of fisheries management, and an adequate voice for small-scale fisheries and producers in the advisory councils. This one I cannot emphasise enough, Deputy Minister, but the regional advisory councils are enormous, as you know, and cover a huge area from the Irish sea through the Bay of Biscay down to the beginning of the southern Atlantic. Our small fisheries are often a small voice in that big group, so I would urge the Deputy Minister to do everything in his power to give them a better voice.

We want to ensure that the mandatory proposals for transferrable fishing concessions do not just end up in the largest hands. We heard evidence in the task and finish group that, for example, Manchester United has a fishing quota and, as little as I know about football, I do not think that they spend much time fishing, at least during matches. I am informed that that is the case, although I am not an expert.

We also wanted to ensure that the very welcome proposals on discards in the new common fisheries policy proposals do not prevent the current sustainable activity of returning live discards to the sea, which is something that our inshore fleet does, and which we want to continue.

Also, there is an issue about ensuring that data are collected in a transparent and equitable way across the whole of the EU. I know that the Deputy Minister is very aware of this point and the whole issue as to which catch is landed in Wales, and how we get our

cael eu hadolygu ar hyn o bryd.

Rydym hefyd am sicrhau bod y cynlluniau aml-flwydd yn cael eu datblygu fel blaenoriaeth, gan gyfeirio at y stociau arfordirol a'r ecosystemau y cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog atynt yn ei ddatganiad. Maent yn rhannau cynyddol bwysig o'r agenda cynaliadwyedd ac yn bwysig ar gyfer diogelu ein fflyd ar y glannau, gan mai'r pysgodfeydd bychain hyn yw'r rhai mwyaf cynaliadwy y gallwch eu cael.

Rydym am sicrhau y ceir datganoli a rhanbartholi gwirioneddol o ran rheoli pysgodfeydd, a bod llais digonol i bysgodfeydd a chynhyrchwyr bach yn y cynghorau ymgynghorol. Ni allaf bwysleisio hynny ddigon, Ddirprwy Weinidog, gan fod y cynghorau rhanbarthol ymgynghorol yn enfawr, fel y gwyddoch, ac yn cwmpasu ardal enfawr rhwng môr Iwerddon, drwy Fae Biscay, ac i lawr i dde môr yr Iwerydd. Mae ein' pysgodfeydd bach yn aml yn llais bach yn y grŵp mawr hwnnw, felly byddwn yn annog y Dirprwy Weinidog i wneud popeth yn ei allu i roi gwell llais iddynt.

Rydym am sicrhau nad yw'r cynigion gorfodol ar gyfer consesiynau pysgota trosglwyddadwy yn cyrraedd y dwylo mwyaf yn y pen draw. Clywsom dystiolaeth yn y grŵp gorchwyl a gorffen fod cwota pysgota gan Manchester United, er enghraifft, ac er cyn lleied y gwn am bêl-droed, nid wyf yn credu eu bod yn treulio llawer o amser yn pysgota, o leiaf yn ystod gemau. Dywedir wrthyf fod hynny'n wir, er nad wyf yn arbenigwr.

Roeddem hefyd am sicrhau nad oedd y cynigion a groesawyd yn fawr ar daflu pysgod yn ôl i'r môr yng nghynigion newydd y polisi pysgodfeydd cyffredin yn atal y gweithgaredd cynaliadwy presennol o daflu pysgod byw i'r môr, sy'n rhywbeth y mae ein fflyd ar y glannau yn ei wneud, ac yr ydym am ei weld yn parhau.

Hefyd, mae problem o ran sicrhau bod data'n cael eu casglu mewn ffordd dryloyw a theg ledled yr UE gyfan. Gwn fod y Dirprwy Weinidog yn ymwybodol iawn o'r pwynt hwn a'r holl fater ynghylch pa bysgod a gaiff eu glanio yng Nghymru, a sut rydym yn cael

fair share of quota. It is also important to understand that many of the fish that are necessary to the inshore fleet in Wales are not actually covered by the quota, and so they need specific ecosystems management as well.

Deputy Minister, I urge you to look very carefully at those issues and how they apply to Welsh policy. Thank you very much for your statement.

Alun Davies: Thank you very much for that, Julie. The work of the task and finish group was very valuable, as was the time that I spent with you on that. I appreciate it. I will confirm, in answer to your questions, that the approach that we take is based on an ecosystem approach, where we see the importance of maintaining sustainable fish stocks and also, therefore, maintaining the economic viability of the fisheries into the future. It is an approach that I believe benefits everybody, and is one that I hope the common fisheries policy will confirm.

In terms of the marine conservation zones, you will be aware that the Labour manifesto made a clear commitment to designate MCZs and that area of policy is being led by my friend the Minister for Environment and Sustainable Development. We are discussing our approach to this with the Department for Environment, Food and Rural Affairs at the moment. You will be aware that DEFRA intends to hold a public consultation in December 2012 on the sites to be designated as MCZs, and the Minister for Environment and Sustainable Development and I will ensure that there is significant engagement with Welsh stakeholders, both in terms of fisheries and other interested parties prior to and during that consultation.

In terms of the regional advisory councils, I share the view that you take on this. I was shocked, I have to say, to discover that the regional advisory council for us covers the northern Atlantic waters, and it is not possible in my view for these small inshore fisheries to have a significant voice and influence in such a large regional body. I believe that there is a significant and strong argument for much smaller regional bodies.

ein cyfran deg o'r cwota. Mae hefyd yn bwysig deall nad yw llawer o'r pysgod sy'n angenrheidiol i fflyd y glannau yng Nghymru yn cael eu cynnwys mewn gwirionedd yn y cwota, ac felly mae angen system reoli ecosystemau benodol yn ogystal.

Ddirprwy Weinidog, rwy'n eich annog i edrych yn ofalus iawn ar y materion hynny a sut y maent yn gymwys i bolisi Cymru. Diolch yn fawr iawn am eich datganiad.

Alun Davies: Diolch yn fawr iawn am hynny, Julie. Roedd gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen yn werthfawr iawn, fel oedd yr amser a dreuliais gyda chi ar hynny. Rwyf yn ei werthfawrogi. Rwyf yn cadarnhau, wrth ateb eich cwestiynau, fod ein hymagwedd yn seiliedig ar dull ecosystem, lle y gwelwn bwysigrwydd cynnal stociau pysgod cynaliadwy a hefyd, felly, hyfywedd economaidd y pysgodfeydd yn y dyfodol. Mae'n ddull y credaf sydd o fudd i bawb, ac mae'n un yr wyf yn gobeithio y bydd y polisi pysgodfeydd cyffredin yn ei gadarnhau.

O ran yr ardaloedd cadwraeth morol, byddwch yn gwybod bod maniffesto Llafur yn gwneud ymrwymiad clir i ddynodi'r rhain ac mae'r maes polisi hwn yn cael ei arwain gan fy nghyfaill, Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy. Rydym yn trafod ein hymagwedd at hyn gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar hyn o bryd. Byddwch yn ymwybodol bod bwriad gan DEFRA i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Rhagfyr 2012 ar y safleoedd sydd i'w dynodi fel ardaloedd cadwraeth morol, a byddaf fi a Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn sicrhau bod ymgysylltiad sylweddol â rhanddeiliaid o Gymru, o ran pysgodfeydd a phartion eraill sydd â diddordeb, cyn ac yn ystod yr ymgynghoriad hwnnw.

O ran y cynghorau rhanbarthol ymgynghorol, rwyf o'r un farn â chi am hyn. Cefais syndod, rhaid i mi ddweud, o ganfod bod y cyngor ymgynghorol rhanbarthol sy'n ein cynrychioli ni yn cynnwys dyfroedd gogleddol môr yr Iwerydd, a thybiaf nad yw'n bosibl i'r pysgodfeydd bach hyn ar y glannau gael llais a dylanwad sylweddol mewn corff rhanbarthol mor fawr. Credaf fod dadl sylweddol a chryf dros gael cyrff

The Irish sea lends itself well to such regional management. These are matters that I have raised with other Governments, and with the European Commission in discussions in the last year. I hope that, over the summer months, we can develop a model for regional management covering an area of water such as the Irish sea, and then promote support for such a model.

In terms of the management of fishing quotas, again, I agree with the points that you made. I have now agreed, as I made clear in my statement, to sign the UK concordat on the management of quotas and fisheries among the four administrations. I do have some significant difficulties with the quota that is available to the Welsh fleet as a part of that, and we have not yet reached agreement on how that quota will be managed.

At the moment, my belief is that we have to look for a solution for Wales where the quota available to us is seen as a resource and not simply as something of commercial value. I will be looking for innovative and imaginative ways of managing the quota that will ensure that it is available to the Welsh fleet and that it is managed for the benefit of everybody who seeks to use and has access to Welsh fisheries.

Yr Arglwydd Elis-Thomas: Wrth imi siarad am y tro cyntaf ar faterion pysgodfeydd yn y Siambr, rwy'n siŵr y bydd y Dirprwy Weinidog yn caniatáu i mi ddiolch i'r cyn-Weinidog am ei diddordeb arbennig yn y maes hwn ac am ei pharodrwydd i ymgysylltu â'r gymuned pysgota yng Nghymru ar bob adeg. Croesawaf yn fawr gyfraniad fy nghyd-weithwyr ar bwyllgor yr amgylchedd ac ar y tasglu gorchwyl a gorffen ar y maes hwn. Mae'n ardderchog—ac rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno, Ddirprwy Weinidog—bod pwyllgorau a grwpiau tasglu'r Cynulliad yn gallu cyd-weithio â'r Llywodraeth wrth ddatblygu polisïau.

Cytunaf â'r pwyslais ar y ffaith bod cymaint o bysgodfeydd Cymru yn gynaliadwy, y pwyslais ar bwysigrwydd llongau pysgota llai o faint, ar y glannau, sydd yn y categori o dan 10m, a'r pwyslais ar bwysigrwydd bod lle i bysgota ar lefel is, sy'n nodweddiadol o

rhanbarthol llawer llai. Mae môr Iwerddon yn addas iawn ar gyfer rheoli rhanbarthol o'r fath. Mae'r rhain yn faterion a godais gyda Llywodraethau eraill, a chyda'r Comisiwn Ewropeaidd mewn trafodaethau llynedd. Gobeithio, dros fisoedd yr haf, y gallwn ddatblygu model ar gyfer rheoli rhanbarthol sy'n cwmpasu ardal o ddŵr megis môr Iwerddon, ac yna hyrwyddo cefnogaeth i fodel o'r fath.

O ran rheoli cwotâu pysgota, eto, cytunaf â'r pwyntiau a wnaethoch. Rwyf bellach wedi cytuno, fel y dywedais yn fy natganiad, i lofnodi concordat y DU ar reoli cwotâu a physgodfeydd ymhlith y pedair gweinyddiaeth. Mae gennyf broblemau sylweddol gyda'r cwota sydd ar gael i 'fflyd Cymru fel rhan o hynny, ac nid ydym eto wedi dod i gytundeb ar sut y bydd y cwota yn cael ei reoli.

Ar hyn o bryd, rwyf o'r farn bod yn rhaid chwilio am ateb i Gymru lle mae'r cwota sydd ar gael i ni yn cael ei weld fel adnodd ac nid fel rhywbeth o werth masnachol yn unig. Byddaf yn chwilio am ffyrdd arloesol a chreadigol o reoli'r cwota a fydd yn sicrhau ei fod ar gael i fflyd Cymru ac y caiff ei reoli er budd pawb sydd am ddefnyddio pysgodfeydd Cymru ac am gael mynediad iddynt.

Lord Elis-Thomas: In speaking for the first time on fisheries issues in the Chamber, I am sure that the Deputy Minister will allow me to thank his predecessor for her particular interest in this field and for her willingness always to engage with the fishing community in Wales. I warmly welcome the contribution of my colleagues on the environment committee and on the task and finish group on this area. It is excellent—I am sure that you agree, Deputy Minister—that Assembly committees and task and finish groups are able to co-operate with the Government as policy is developed.

I agree with the emphasis on the fact that so many Welsh fisheries should be sustainable, the emphasis on the importance of the smaller fishing vessels, in coastal regions, in the under 10m category, and the emphasis on the importance of smaller scale fishing,

arfordiroedd Cymru, yn enwedig yn ardal bae Ceredigion a gogledd Llŷn, sy'n rhan o'm hardal.

especially in Cardigan bay and northern Llŷn, which is part of my area.

Croesawaf yn fawr y trafodaethau ynglŷn â rheolaeth cwota. Peidiwch byth â rhoi mewn i'r Albanwyr ar faterion cwota pysgod, Ddirprwy Weinidog, na gwrando ar y Basgiaid na'r Ffleminiaid yn rhyngwladol, oherwydd mae buddiannau pysgotwyr Cymru yn gwbl wrthwynebus i fuddiannau sawl rhanbarth arall yn Ewrop, er gwaethaf cymaint rwyf wedi mwynhau bwyta pysgod yn y rhanbarthau hynny oll. Fe gewch, ar bob cyfrif, drafod y materion hyn gyda phennaeth disglair y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol Materion Morol a Physgodfeydd, Lowri Evans. Yn ei thystiolaeth i'n tasglu ar y polisi pysgodfeydd cyffredin, datganodd yn glir y gallai aelod-wladwriaethau, o dan y cynigion ynglŷn â sefydlu cynghorau rhanbarthol mewn pysgodfeydd, ddod at ei gilydd i sefydlu moroedd ar raddfa ranbarthol lai na'r rhanbarth rydych newydd ei ddisgrifio. Hynny yw, yn ein hachos ni, môr Iwerddon. Gobeithiaf y byddwch yn parhau i fynd ar ôl hynny.

I warmly welcome discussions on quota management. Never give in to the Scots on issues of fish quotas, Deputy Minister, and never listen to the Basques or Flemish internationally, because the interests of Welsh fishermen are completely contrary to the interests of many other regions in Europe, despite my enjoyment of fish in all of those regions. You may, of course, discuss these issues with Lowri Evans, the bright head of the Directorate-General for Maritime Affairs and Fisheries. In her evidence to the task and finish group on the common fisheries policy she clearly stated that member states, under the proposals on the establishment of regional councils for fisheries, could come together in order to manage marine areas at regional levels that are smaller than those to which you have just referred. In our case, that is the Irish sea. I hope that you will continue to proceed on that issue.

Mae gennyf un cwestiwn i gloi. Diolch am flaenoriaethu cregyn, cregyn bylchog yn arbennig. Mae hynny wedi bod yn fater dadleuol, fel y bydd y Gweinidog blaenorol yn cofio, yn arbennig yng ngogledd Llŷn, gyda gwrthdaro rhwng y mathau o ddulliau pysgota. Mae'n bwysig ein bod yn symud ymlaen i allu manteisio ar ddiwydiant allforio cregyn gleision ar raddfa enfawr yng Nghymru. Mae'n ddiwydiant rhagorol sydd yn gysylltiedig â datblygiad yr ysgol nodedig ar weithgaredd morol ym Mhorthaethwy ar y Fenai. Mae'n rhan o Brifysgol Bangor gyda rheolaeth ofalus Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae gennym gyfle i ddatblygu ein diwydiant yn y maes hwnnw. Rwy'n gobeithio y byddwch yn parhau i roi blaenoriaeth i ddatblygiad y diwydiant cregyn.

I have one other question. I thank you for prioritising shellfish, particularly scallops. That has been a contentious issue, as the previous Minister will recall, especially in northern Llŷn, where there was conflict between different fishing methods. It is important that we progress to take advantage in Wales of the export industry for mussels on a grand scale. This is an excellent industry, which is linked to development in the notable school of marine activity in Menai Bridge—part of Bangor University, with the careful control of the Countryside Council for Wales. We have an opportunity to develop the industry in that area. I hope that you will continue to prioritise the development of the shellfish sector.

Alun Davies: Gallaf eich sicrhau y byddaf. Rwy'n eich croesawu i'ch rôl newydd ac yn edrych ymlaen at gydweithio â chi, Dafydd, tra ein bod yn llenwi'r rolau hyn yn y Cynulliad. Hoffwn hefyd, fel y gwnaethoch chi, gydnabod gwaith y cyn-Weinidog. Gweithiodd yn hynod o galed i greu a sefydlu'r strwythurau sydd gennym ar hyn o

Alun Davies: I can assure you that I will. I welcome you to your new role, and look forward to working with you, Dafydd, while we fill these roles in the Assembly. Like you, I also recognise the work of the former Minister. She worked extremely hard on creating the structures that are currently in place. British maritime legislation from the

bryd. Mae deddfwriaeth forol Brydeinig y Senedd ddiwethaf wedi newid yn gyfan gwbl y strwythurau sydd gennym yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd, ac rwy'n cydnabod gwaith y cyn-Weinidog nid yn unig wrth wneud hyn yn realiti yng Nghymru, ond drwy greu strategaeth i ddelio â hyn.

3.30 p.m.

Rwyf yn derbyn y ffordd yr ydych yn fy rhybuddio rhag yr Albanwyr. Rwy'n gwrandao ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud, ond eto, mae sefyllfa'r Alban yn gwbl wahanol i'n sefyllfa ni. Gobeithiaf y byddwn yn gallu sicrhau cytundeb, nid anghytundeb, rhwng y buddiannau gwahanol ym moroedd Cymru. Mae gennym gyfle yn y fan hon, fel y gwnaethoch chi sôn, gyda'r pysgodfeydd ym Menai, sy'n bysgodfeydd hynod o bwysig i Gymru. Mae nwyddau yn cael eu hallforio o'r fan honno ar draws Ewrop, ac mae'n hynod o bwysig sicrhau dyfodol i hynny.

Mawr obeithiaf y gallwn ddefnyddio cronfa'r môr a physgodfeydd newydd, sy'n cael ei chreu ar hyn o bryd, er mwyn ehangu a datblygu'r pysgodfeydd rydych chi wedi sôn amdanynt. Fodd bynnag, wrth i mi arwain y maes polisi hwn, byddaf yn sicrhau bod buddiannau'r ecosystem, y buddiannau amgylcheddol a buddiannau'r diwydiant pysgodfeydd ymysg blaenoriaethau'r Llywodraeth hwn.

William Powell: I thank the Deputy Minister for bringing forward this statement today. As he said, back in 2008, his predecessor launched the Welsh fishery strategy, which represented a significant amount of work and engagement with stakeholders, and that needs to be recognised. I am also grateful for his recognition of the work of the common fisheries task and finish group under the chairmanship of Julie James, to which I have also contributed. I am sure that no-one would wish to criticise the body of work contained within the Welsh fisheries strategy, but it is surely right that we revisit that now because this is something that is a work in progress. I particularly welcome the Deputy Minister's commitment to do this at this time, recognising the increasingly integrated approach in policy with our European

last Parliament changed the whole structure that we currently have in the United Kingdom, and I recognise the work of the previous Minister not only in making this a reality in Wales, but in creating a strategy to deal with this.

I accept the way that you are warning me about the Scots. I listen to what they have to say, but, that said, the situation in Scotland is completely different from ours. I hope that we can ensure agreement, and not disagreement, between the different interests in Welsh seas. We have an opportunity here, as you mentioned, with the fisheries in Menai, which are very important fisheries for Wales. Our goods are exported from there across Europe, and it is crucial to ensure a future for that.

I very much hope that we will be able to use the new maritime and fisheries fund, which is being created at present, to expand and develop the fisheries that you have mentioned. However, in leading this policy area, I will ensure that the interests of the ecosystem, the environment and the fishing industry are among this Government's priorities.

William Powell: Diolchaf i'r Dirprwy Weinidog am gyflwyno'r datganiad hwn heddiw. Fel y dywedodd, lansiodd ei ragflaenydd strategaeth pysgodfeydd Cymru yn ôl yn 2008, a oedd yn cynrychioli cryn dipyn o waith ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac mae angen cydnabod hynny. Rwyf hefyd yn ddiolchgar iddo am gydnabod gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen ar y polisi pysgodfeydd cyffredin o dan gadeiryddiaeth Julie James, yr wyf hefyd wedi cyfrannu ato. Rwy'n siŵr na fyddai unrhyw un yn dymuno beirniadu'r corff o waith a gynhwysir o fewn strategaeth pysgodfeydd Cymru, ond mae'n iawn inni ailedrych ar hynny yn awr oherwydd mae'r gwaith hwnnw eisoes wedi cychwyn. Croesawaf yn arbennig ymrwymiad y Dirprwy Weinidog i wneud hyn yn awr, gan gydnabod y dull cynyddol

partners and the importance of the common fisheries reform process.

I am encouraged to hear a renewed emphasis placed upon stakeholder engagement and we have had some discussion around the particular difficulties there, given the diverse interests represented within the regional bodies. That brings me to my first question. Will you please expand on the forms of engagement that you will be pursuing in this area and how those identified in the earlier strategy will be refined? Also, I am sure that the Deputy Minister will acknowledge that our seas and fisheries are areas that have a vast number of different stakeholders. Will he please expand on how these stakeholders will interact with the interests of the renewable sector, particularly developments such as offshore wind, which need to be taken account of in this connection? It is a matter of importance to ensure that all interests are safeguarded.

I also want to drill down into the critical area of enforcement. As has been identified, these projects can only be enacted if there is a vigorous programme of enforcement in place, not relying on mere volunteer networks, which ultimately have no teeth. Do you agree that such projects are nothing if they are not enforceable, and how do you see us going forward with improved enforcement in this area?

My final question comes from a line of questioning that I took when you came to the common fisheries task and finish group last autumn. In the context of discards, you committed at that time to engaging with your ministerial colleague, the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science, on intensively seeking to develop the domestic market for fish in Wales, and, potentially, a strategy on developing and extending the national pallet so that there is greater domestic consumption of fish from our home waters. I would appreciate a progress report from the Deputy Minister on that important matter.

integredig o ymdrin â pholisi gyda'n partneriaid Ewropeaidd a phwysigrwydd y broses o ddiwygio'r polisi pysgodfeydd cyffredin.

Mae'n galonogol clywed pwyslais o'r newydd ar ymgysylltu â rhanddeiliaid ac rydym wedi cael rhywfaint o drafodaeth am yr anawsterau penodol hynny, o ystyried y buddiannau amrywiol a gynrychiolir o fewn y cyrff rhanbarthol. Mae hynny'n fy arwain at fy nghwestiwn cyntaf. A wnewch chi ymhelaethu ar y mathau o ddulliau ymgysylltu y byddwch yn ymgymryd â hwy yn y maes hwn a sut y bydd y rhai a nodwyd yn y strategaeth gynharach yn cael eu mireinio? Hefyd, rwy'n siŵr y bydd y Dirprwy Weinidog yn cydnabod bod ein moroedd a physgodfeydd yn feysydd sydd â nifer helaeth o wahanol randdeiliaid. A wnaiff y Dirprwy Weinidog ymhelaethu ar sut y bydd y rhanddeiliaid yn rhyngweithio â buddiannau'r sector adnewyddadwy, yn enwedig datblygiadau megis ffermydd gwynt ar y môr, y mae angen eu hystyried yn y cyswllt hwn? Mae'n bwysig sicrhau bod yr holl fuddiannau yn cael eu diogelu.

Rwyf hefyd am roi ystyriaeth bellach i orfodi, sy'n faes hanfodol. Fel y nodwyd, ni ellir gweithredu'r prosiectau hyn oni roddir rhaglen egniol o orfodaeth ar waith, heb ddibynnu ar rwydweithiau gwirfoddol yn unig, nad oes ganddynt unrhyw rym ar ddiwedd y dydd. A ydych yn cytuno bod prosiectau o'r fath yn ddim os na ellir eu gorfodi, a sut yr ydych yn ein gweld yn symud ymlaen mewn perthynas â gwella'r broses o orfodi yn y maes hwn?

Mae fy nghwestiwn olaf yn deillio o gyfres o gwestiynau a ofynnais i chi pan ddaethoch i'r grŵp gorchwyl a gorffen ar y polisi pysgodfeydd cyffredin hydref diwethaf. Yng nghyd-destun pysgod a gaiff eu taflu yn ôl i'r môr, gwnaethoch ymrwymo ar y pryd i ymgysylltu â'ch cyd-Weinidog, y Gweinidog Menter Busnes, Technoleg a Gwyddoniaeth, ynghylch gwneud ymdrech dwys i geisio datblygu'r farchnad ddomestig ar gyfer pysgod yng Nghymru, ac, o bosibl, strategaeth ar ddatblygu ac ymestyn y paled cenedlaethol fel bod mwy o bysgod o'n dyfroedd cartref yn cael eu bwyta yn ein cartrefi. Byddwn yn gwerthfawrogi

adroddiad cynnydd gan y Dirprwy Weinidog ar y mater pwysig hwn.

Alun Davies: I believe that Wales can play an important role in driving forward policy across the European Union. We have the Irish sea on our doorstep. As a discrete area of water, it lends itself to management techniques that are not always available in wider areas of water. Through our small sustainable inshore fisheries, I believe that we can demonstrate how the ambitions for sustainability can be achieved. Wales can play a significant role, working alongside neighbouring administrations, in delivering effective fisheries management in the Irish sea area.

Alun Davies: Rwy'n credu y gall Cymru chwarae rhan bwysig o ran gyrru polisi yn ei flaen ledled yr Undeb Ewropeaidd. Mae gennym fôr Iwerddon ar garreg ein drws. Fel ardal annibynnol o ddŵr, mae'n addas ar gyfer technegau rheoli nad ydynt bob amser yn briodol ar gyfer ardaloedd ehangach o ddŵr. Drwy bysgodfeydd y glannau sy'n fach ac yn gynaliadwy, credaf y gallwn ddangos sut y gellir cyflawni'r dyheadau ar gyfer cynaliadwyedd. Gall Cymru chwarae rhan bwysig, gan weithio ochr yn ochr â gweinyddiaethau cyfagos, o ran sicrhau bod pysgodfeydd yn cael eu rheoli'n effeithiol yn ardal môr Iwerddon.

You asked about engagement. We have a number of stakeholder groups, which were established by the 2008 strategy. I have met with many of these groups and have discussed with them the different aspects of fisheries policy, from some of our policies on restriction of access to particular fisheries through to how we can improve the management of the under-10m fleet, for example. I believe that we have good, strong and robust means of involving stakeholders in the management of fisheries in Wales. Throughout the spring months, I hope that I will be able to meet with them again to discuss issues such as data collection and landing information, because I believe that they are areas that we need to consider again.

Gwnaethoch ofyn am ymgysylltu. Mae gennym nifer o grwpiau rhanddeiliaid a sefydlwyd gan strategaeth 2008. Rwyf wedi cwrdd â nifer o'r grwpiau hyn ac wedi trafod y gwahanol agweddau ar bolisi pysgodfeydd gyda hwy, yn amrywio o'n polisiau ar gyfyngu ar fynediad i bysgodfeydd penodol i sut y gallwn wella rheolaeth y fflyd sydd o dan 10m, er enghraifft. Rwy'n credu bod gennym ddull da, cryf a chadarn o gynnwys rhanddeiliaid yn y gwaith o reoli pysgodfeydd yng Nghymru. Drwy gydol misoedd y gwanwyn, rwy'n gobeithio y byddaf yn gallu cwrdd â hwy unwaith eto i drafod materion megis casglu data a gwybodaeth glanio, oherwydd credaf eu bod yn feysydd y mae angen inni eu hystyried eto.

We have enforcement vessels that are owned and operated by the Welsh Government. It is important that we look at the vessels that are available to us and seek to replace them—probably in the next few years—with vessels that are able to spend more time at sea and to travel further. We have a good relationship with the Royal Navy, but we need to look at how we strengthen our enforcement regime, at sea and on shore, so that we are able to track vessels; better technology is available to us to do that than at any time before. I hope that we will be able to invest in this area in future years.

Mae gennym gychod gorfodi sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru ac a weithredir ganddi. Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar y cychod sydd ar gael inni ac yn ceisio rhoi cychod sy'n gallu treulio mwy o amser ar y môr a theithio ymhellach yn eu lle—mwy na thebyg dros y blynyddoedd nesaf. Mae gennym berthynas dda â'r Llynges Frenhinol, ond mae angen inni edrych ar sut rydym yn grymuso ein trefn orfodi, ar y môr ac ar y lan, fel ein bod yn gallu olrhain cychod; mae gwell technoleg ar gael inni wneud hynny nag a oedd ar unrhyw amser yn y gorffennol. Rwy'n gobeithio y byddwn yn gallu buddsoddi yn y maes hwn yn y dyfodol.

On developing a domestic market for fish,

O ran datblygu marchnad ddomestig ar gyfer

one of the areas we want to look at regarding the new round of the European maritime and fisheries fund is developing the onshore support mechanisms for fisheries and the market for the fish. We can do that partly through bringing together the structural funds with the rural development plan and the maritime and fisheries fund. I believe that there is an enormous opportunity available to us from working together in that more integrated way.

Joyce Watson: I welcome the Deputy Minister's statement and look forward to the update following forthcoming meetings in Brussels. I am pleased that one of the issues on the agenda, which concerns fishermen in my region in particular, is the impact of the so-called grandfather rights on stocks. These rights permit the use of large and powerful boats of a certain age and ownership within the 6-nautical-mile limit. I understand that under these permits, large boats are fishing right up to the beach along the Welsh coast. I have been informed that many of the boats are based in the west of England and Scotland. Given that the aim of the fisheries strategy is to ensure long-term sustainability and to maximise the economic benefits for local communities, does the Deputy Minister agree—I know that he does from his statements—that the grandfather rights are an anomaly that should be ended? Can he give us an idea of a time frame that will see that happen?

The other main issue is the recent allegations of illegal scallop dredging off Cardigan bay. Again, the claim is that dredgers from the west of England and Scotland are breaching an exclusion zone. I welcome very much compulsory vessel tracking for all vessels fishing for scallops in Welsh waters, and would like to know the time frame for the implementation.

Alun Davies: The scallop fishery is open from November to April, so the current fishery will come to an end at the end of next month. We are currently considering the restrictive measures that we will put in place before the fishery is opened in November

pysgod, un o'r meysydd yr ydym am edrych arnynt mewn perthynas â chylch ariannu newydd cronfa'r môr a physgodfeydd Ewrop yw datblygu dulliau o roi cymorth ar y tir i'r pysgodfeydd a'r farchnad ar gyfer pysgod. Gallwn wneud hynny yn rhannol drwy ddwyn ynghyd y cronfeydd strwythurol, y cynllun datblygu gwledig a chronfa'r môr a physgodfeydd Ewrop. Credaf fod cyfle gwych ar gael inni weithio gyda'n gilydd mewn ffordd fwy integredig.

Joyce Watson: Rwy'n croesawu datganiad y Dirprwy Weinidog ac edrychaf ymlaen at gael y wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn y cyfarfodydd a gynhelir cyn bo hir ym Mrwsel. Rwy'n falch mai un o'r materion ar yr agenda yw effaith hawliau hanesyddol ar stociau, sy'n effeithio ar bysgotwyr yn fy rhanbarth i yn arbennig. Mae'r hawliau hyn yn caniatáu defnyddio cychod mawr a grymus o oed a pherchnogaeth benodol o fewn y terfyn o 6 milltir môr. Deallaf, o dan y trwyddedau hyn, fod cychod mawr yn pysgota hyd at y traeth ar hyd arfordir Cymru. Rwyf wedi clywed bod llawer o'r cychod wedi'u lleoli yng ngorllewin Lloegr a'r Alban. O ystyried mai nod y strategaeth pysgodfeydd yw sicrhau cynaliadwyedd hirdymor a gwneud y gorau o'r manteision economaidd i gymunedau lleol, a yw'r Dirprwy Weinidog yn cytuno—rwy'n gwybod ei fod yn gwneud, yn seiliedig ar ei ddatganiadau—fod hawliau hanesyddol yn anghysondeb y dylid ei ddirwyn i ben? A all roi syniad inni erbyn pryd y mae'n disgwyl i hynny digwydd?

Y prif fater arall yw'r honiadau diweddar o dreillio am gregyn bylchog yn anghyfreithlon ger bae Ceredigion. Unwaith eto, honnir bod treillwyr o orllewin Lloegr a'r Alban yn gweithio mewn ardal waharddedig. Croesawaf yn fawr iawn y cynlluniau ar gyfer olrhain gorfodol i'r holl gychod sy'n pysgota am gregyn bylchog yn nyfroedd Cymru, a hoffwn wybod yr amserlen ar gyfer gweithredu'r cynlluniau hynny.

Alun Davies: Mae'r bysgodfa cregyn bylchog ar agor rhwng mis Tachwedd a mis Ebrill, felly bydd y bysgodfa bresennol yn dod i ben ar ddiwedd y mis nesaf. Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried y mesurau cyfyngol y byddwn yn eu rhoi ar waith cyn i'r

2012, and I expect to make statements on that at the beginning of the summer. We are doing our best to manage the scallop fishery in a way which both enables fishing to take place and does not endanger the habitat or the ecosystem of Cardigan bay.

On grandfather rights, Members will be aware that I launched a 12-week consultation to review the exemptions to regulations regarding the maximum length of fishing boats in the inshore fishing area up to 6 nautical miles. This consultation ended on 2 February. I will make announcements on any proposals to legislate on this matter before the summer recess.

We are also addressing issues on access to the area between 6 and 12 nautical miles, and we are discussing with the European Commission the mechanism for the consideration of historic rights in this wider zone, up to 12 nautical miles. I will be raising the issue at my next meeting with the Commission. While we are dealing with issues within the 0 to 6-mile zone, we also need to look at issues within the 6 to 12-mile zone.

Simon Thomas: Rwy'n croesawu datganiad heddiw, yn enwedig y camau sydd wedi'u cymryd hyd yn hyn i ddiogelu pysgodfeydd ym mae Ceredigion, ac yn arbennig i ddiogelu cregyn bylchog neu gregyn Aberffro. Yn eich datganiad, rydych yn sôn am weithredu pellach sydd ei angen yn yr ardaloedd rhwng llanw a thrai. Yn benodol, rydym yn gweld gorbysgota cocos yng Nghymru, ond mae hon yn broblem ar draws Prydain. Rydym hefyd wedi clywed am y posibilïadau o safbwynt pysgodfeydd cregyn gleision cynaliadwy, a fyddai'n ddatblygiad pwysig yng Nghymru. Pa gamau ydych chi'n mynd i'w cymryd dros yr haf, Ddirprwy Weinidog, ac a oes modd ichi brysuru'r broses hon o gwbl oherwydd mae rhai o'n pysgodfeydd cocos ni'n gallu bod yn rhai sigledig iawn?

Alun Davies: As a backbench Member, I was more than a little aware of these issues, which have dominated discussions for some years in terms of cockle mortalities in the Burry inlet and difficulties elsewhere. You

bysgodfa gael ei hagog ym mis Tachwedd 2012, ac rwy'n disgwyl gwneud datganiadau ar hynny ar ddechrau'r haf. Rydym yn gwneud ein gorau i reoli'r bysgodfa cregyn bylchog mewn ffordd sy'n caniatáu i bysgota ddigwydd ac nad yw'n peryglu cynefin neu ecosystem bae Ceredigion.

O ran hawliau hanesyddol, bydd yr Aelodau yn gwybod fy mod wedi lansio ymgynghoriad 12 wythnos i adolygu'r eithriadau i'r rheoliadau ynghylch uchafswm hyd cychod pysgota hyd at 6 milltir môr. Daeth yr ymgynghoriad hwn i ben ar 2 Chwefror. Byddaf yn gwneud cyhoeddiadau ar unrhyw gynigion i ddeddfu ar y mater hwn cyn toriad yr haf.

Rydym hefyd yn mynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â mynediad i'r ardal rhwng 6 a 12 milltir môr, ac rydym yn cynnal trafodaethau gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch y dull ar gyfer ystyried hawliau hanesyddol yn y parth ehangach hwn, hyd at 12 milltir môr. Byddaf yn codi'r mater yn fy nghyfarfod nesaf gyda'r Comisiwn. Er ein bod yn ymdrin â materion o fewn y parth 0 i 6 milltir, mae hefyd angen inni edrych ar faterion o fewn y parth 6 i 12 milltir.

Simon Thomas: I welcome today's statement, especially the steps that have been taken so far to safeguard fisheries in Cardigan bay, and particularly to safeguard scallops. In your statement, you talk about further action that needs to be taken in the areas between high and low tide. Specifically, we are seeing the overfishing of cockles in Wales, but this is a problem across Britain. We have also heard about the possibilities of sustainable mussel fisheries, which would be an important development in Wales. What steps will you be taking over the summer, Deputy Minister, and is there any way in which you could hasten this process at all, because some of our cockle fisheries can be unstable?

Alun Davies: Fel Aelod o'r meinciau cefn, roeddwn yn ymwybodol iawn o'r materion hyn, sydd wedi cymryd rhan flaenllaw mewn trafodaethau ers rhai blynnyddoedd o ran marwolaethau cocos yng nghilfach Tywyn ac

will be aware that a report has now been published on the Burry inlet and the area around the three rivers in question in Carmarthenshire. The report demonstrates that there is no single easy answer to the questions raised. There is no single cause of cockle mortality in the Burry inlet, and we have had problems in managing the fishery there in opening it up for fishing. We are currently undertaking sampling and scientific analysis of the cockle population in the three rivers area. We expect to make an announcement on that in the next few months—hopefully, within the next six weeks. I will write to Members when we are in a position to make a statement.

More widely on shellfish gathering, cockles in particular, but other shellfish as well, provide a great income for fishing populations in different parts of Wales. We need to look at a way of managing all those fisheries in a sustainable way. I will be looking at alternatives to the present regime and at more restrictive permitting and other management techniques to ensure that we have an effective and profitable fishery in south-west Wales and elsewhere. I will certainly keep all Members informed as to developments on that.

David Rees: As the fifth Member of the task and finish group to contribute this afternoon, I find that all the questions seem to have been asked. I would like to ask about the need for the robust scientific and evidential base highlighted in your statement. It has been brought to our attention many times that there is a weakness in this area. You have indicated that you will ask officials to look at the key stocks covered by the common fisheries policy. However, will you also go beyond the key stocks, because of the impact of fishing on stocks other than the key stocks that have been identified? Will you also look to support fishermen, who are sometimes best placed to assist in the collection of those data on their fishing vessels?

3.45 p.m.

anawsterau mewn manau eraill. Byddwch yn gwybod bod adroddiad wedi cael ei gyhoeddi ar gilfach Tywyn a'r ardal o amgylch y tair afon o dan sylw yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r adroddiad yn dangos nad oes un ateb hawdd i'r cwestiynau a godwyd. Nid oes unrhyw achos unigol dros farwolaethau cocos yng nghilfach Tywyn, ac rydym wedi cael problemau mewn perthynas â rheoli'r pysgodfeydd yno, wrth agor yr ardal i ganiatáu pysgota. Rydym yn y broses o ymgymryd â gwaith samplu a dadansoddi gwyddonol o'r boblogaeth cocos yn ardal y tair afon. Rydym yn disgwyl gwneud cyhoeddiad ar hynny dros y misoedd nesaf—dros y chwe wythnos nesaf, gobeithio. Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelodau pan fyddwn mewn sefyllfa i wneud datganiad.

O ran pysgod cregyn yn gyffredinol—cocos yn arbennig, ond pysgod cregyn eraill yn ogystal—maent yn darparu incwm gwych ar gyfer poblogaethau pysgota mewn gwahanol rannau o Gymru. Mae angen inni edrych ar ffordd o reoli'r holl bysgodfeydd hynny mewn ffordd gynaliadwy. Byddaf yn edrych ar opsiynau amgen i'r drefn bresennol ac ar dechnegau caniatáu mwy cyfyngol a thechnegau rheoli eraill i sicrhau bod gennym bysgodfa effeithiol a phroffidiol yn ne-orllewin Cymru ac mewn manau eraill. Byddaf yn sicrhau bod yr holl Aelodau yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y maes hwnnw.

David Rees: Fel y pumed Aelod o'r grŵp gorchwyl a gorffen i gyfrannu'r prynhawn yma, gwelaf fod yr holl gwestiynau wedi cael eu gofyn. Hoffwn ofyn am yr angen am y sail wyddonol a thystiolaethol gadarn a amlygwyd yn eich datganiad. Mae wedi cael ei ddwyn i'n sylw lawer gwaith fod gwendid yn y maes hwn. Rydych wedi nodi y byddwch yn gofyn i swyddogion edrych ar y stociau allweddol a gynhwysir yn y polisi pysgodfeydd cyffredin. Fodd bynnag, a fyddwch hefyd yn mynd y tu hwnt i'r prif stociau, oherwydd effaith pysgota ar stociau ar wahân i'r prif stociau a nodwyd? A wnewch chi hefyd gefnogi pysgotwyr, sydd weithiau yn y sefyllfa orau i gynorthwyo i gasglu'r data hynny ar eu cychod pysgota?

Alun Davies: Yes, we certainly will be involving the fishing industry in the discussions on these matters. It was probably the most frustrating part of a frustrating process during the quota negotiations in Brussels in the run-up to Christmas, as we did not have the information available to us on stocks in Welsh waters to be able to argue a stronger case for Welsh fisheries and to understand what arguments were being progressed by other member states. The lack of information on fish stocks is a significant issue in terms of our ability to properly deliver sustainable fisheries in the future. It is probably my single greatest priority to ensure that we have a science base to understand what fish are in the waters around our shores and to understand how we can then manage those fisheries sustainably. I hope that we can involve the fishing industry in providing us with greater and more robust landing information. I understand that that will then provide us with a far more robust description of the industry as it is today. However, I do not believe for a moment that that, in itself, is sufficient. We need to understand the levels of fish stocks available in Welsh waters. At the moment, that information is very fragile and very fragmented. I have put in train pieces of work that will ensure that we have greater scientific information available to us in the future.

Alun Davies: Yn sicr, byddwn yn cynnwys y diwydiant pysgota yn y trafodaethau ar y materion hyn. Mae'n debyg mai dyna oedd y rhan fwyaf rhwystredig o broses rwystredig yn ystod y trafodaethau ar gwotâu ym Mrwsel yn y cyfnod yn arwain at y Nadolig, gan nad oedd y wybodaeth ar gael inni am stociau yn nyfroedd Cymru i allu dadlau achos cryfach dros bysgodfeydd Cymru ac i ddeall pa ddadleuon a oedd yn cael eu datblygu gan aelod-wladwriaethau eraill. Mae'r diffyg gwybodaeth am stociau pysgod yn fater pwysig o ran ein gallu i gyflenwi bysgodfeydd cynaliadwy yn y dyfodol. Fy mlaenoriaeth unigol fwyaf, yn ôl pob tebyg, yw sicrhau bod gennym sylfaen wyddonol i ddeall pa bysgod sydd yn y dyfroedd o amgylch ein glannau ac i ddeall sut y gallwn wedyn reoli'r bysgodfeydd hynny mewn modd cynaliadwy. Gobeithio y gallwn gynnwys y diwydiant pysgota wrth iddo roi mwy o wybodaeth gadarn am lanio inni. Deallaf y bydd hynny wedyn yn rhoi disgrifiad llawer cadarnach o'r diwydiant fel y mae heddiw inni. Fodd bynnag, ni chredaf am eiliad fod hynny, ynddo'i hun, yn ddigonol. Mae angen inni ddeall lefelau'r stociau pysgod sydd ar gael yn nyfroedd Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r wybodaeth honno'n fregus a thameidiog iawn. Rwyf wedi dechrau darnau o waith a fydd yn sicrhau y bydd mwy o wybodaeth wyddonol ar gael inni yn y dyfodol.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.47 p.m.
The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.47 p.m.*

Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwasanaethau Ariannol Legislative Consent Motion on the Financial Services Bill

Cynnig NDM4913 Carl Sargeant

Motion NDM4913 Carl Sargeant

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Gwasanaethau Ariannol fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin ar 26 Ionawr 2012 mewn perthynas â'r Corff Addysg Ariannol Defnyddwyr (CAAD), i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that provisions of the Financial Services Bill as introduced into the House of Commons on 26th January 2012 relating to the Consumer Financial Education Body, in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

The Minister for Local Government and Y Gweinidog Llywodraeth Leol a

Communities (Carl Sargeant): I move the motion.

Chymunedau (Carl Sargeant): Cynigiau y cynnig.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there is no objection. Therefore, the proposal is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw y dylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

**Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Trosglwyddo Swyddogaethau, Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol) 2012
The Welsh Language (Wales) Measure 2011 (Transfer of Functions, Transitional and Consequential Provisions) Order 2012**

Cynnig NDM4949 Jane Hutt

Motion NDM4949 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Trosglwyddo Swyddogaethau, Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol) 2012 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2012.

Approves that the draft The Welsh Language (Wales) Measure 2011 (Transfer of functions, Transitional and Consequential Provisions) Order 2012 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 6 March 2012.

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews): Cynigiau y cynnig.

The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews): I move the motion.

Rwy'n falch i agor trafodaeth heddiw ar y cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Trosglwyddo Swyddogaethau, Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol) 2012. Bydd y Gorchymyn hwn yn trosglwyddo swyddogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg o hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg o dan adran 3 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 i Weinidogion Cymru. O ganlyniad i'r trosglwyddiad hwn, bydd Gweinidogion Cymru a'r comisiynydd yn cael y swyddogaeth o hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. O 1 Ebrill 2012, bydd Gweinidogion Cymru yn cael nifer o gyfrifoldebau'r bwrdd yn y maes hwn, gan gynnwys dros ddarparu cymorth grant i gyrrff fel yr Urdd a'r mentrau iaith.

I am pleased to open today's debate on the motion to approve the Welsh Language (Wales) Measure 2011 (Transfer of Functions, Transitional and Consequential Provisions) Order 2012. This Order will transfer the Welsh Language Board's function of promoting and facilitating the use of Welsh under section 3 of the Welsh Language Act 1993 to Welsh Ministers. As a result of this transfer, both the Welsh Ministers and the commissioner will have the function of promoting and facilitating the use of Welsh. As of 1 April 2012, Welsh Ministers will take on many of the board's responsibilities in this area, including providing grant in aid to bodies such as the Urdd and the mentrau iaith.

Mae'r strategaeth iaith Gymraeg newydd yn

The newly launched Welsh language strategy

amlinellu'r amcanion strategol a fydd yn arwain sut y byddwn yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, er mwyn sicrhau bod yr iaith yn parhau i ffynnu. Mae'r Gorchymyn hefyd yn gwneud darpariaeth drosiannol i Weinidogion Cymru baratoi'r datganiad terfynol o gyfrifon ac adroddiad blynyddol Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn gosod dyletswydd ar y bwrdd i gwblhau ei gyfrifon a'i adroddiad blynyddol; ni fydd yn gallu cyflawni hyn yn dilyn ei ddiddymiad ar 1 Ebrill.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn disodli cyfeiriadau at y bwrdd, lle bo'n briodol, gyda chyfeiriadau at Gomisiynydd y Gymraeg, mewn deddfwriaeth. Bydd hyn yn sicrhau y bydd y comisiynydd yn ddarostyngedig i'r un gofynion â'r bwrdd ynghylch, er enghraifft, cyfraith cydraddoldeb. Mae'r Gorchymyn yn dod i rym ar 1 Ebrill 2012 ac rwy'n ei gymeradwyo i chi.

Suzy Davies: I am pleased that this Order is before us today, and we will not be opposing it, not least because of the consequential amendments and our wish to see the Welsh Language Board's final accounts prepared and signed off as soon as possible. However, I wish to raise concerns about article 3 of this Order, which states that certain Welsh Language Board functions will be transferred to Welsh Ministers as well as to the commissioner. As Welsh Conservatives, we have already expressed dissatisfaction regarding the lack of clear independent status for the commissioner, so I am not comforted that some of the board's powers and tasks are coming back into even more direct Government control. The advisory role of the commissioner is directly diminished by this provision, particularly with regard to the appropriate recipients of specific financial support. Your explanatory memorandum—at least it was signed off by you, Minister—is also concerning in that you state that the commissioner will be asked to focus on her regulatory functions rather than on the promotion of the Welsh language. That seems rather at odds with the Welsh language strategy.

outlines the strategic objectives that will guide how we promote and facilitate the use of Welsh, to ensure that the language continues to thrive. This Order also makes transitional provision for Welsh Ministers to prepare the Welsh Language Board's final statement of accounts and annual report. The Welsh Language Act 1993 places a duty on the board to complete its accounts and annual report, which it will not be able to fulfil following its abolition on 1 April.

The Order also replaces references to the board, where appropriate, with references to the Welsh Language Commissioner, in legislation. This will ensure that the commissioner will be subject to the same requirements as the board relating to, for example, equalities legislation. The Order is due to come into force on 1 April 2012 and I recommend it to you.

Suzy Davies: Rwy'n falch bod y Gorchymyn hwn ger ein bron heddiw, ac ni fyddwn yn ei wrthwynebu, nid lleiaf oherwydd y diwygiadau canlyniadol a'n dymuniad i weld cyfrifon terfynol Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi'u paratoi a'u cymeradwyo cyn gynted ag y bo modd. Fodd bynnag, hoffwn fynegi pryderon am erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn, sy'n datgan y bydd swyddogaethau penodol Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn ogystal ag i'r comisiynydd. Fel Ceidwadwyr Cymreig, rydym eisoes wedi mynegi anfodlonrwydd ynghylch y diffyg statws annibynnol clir ar gyfer y comisiynydd, felly nid wyf wedi'm cysuro bod rhai o bwerau a thasgau'r bwrdd yn dod yn ôl o dan reolaeth y Llywodraeth mewn modd a fydd hyd yn oed yn fwy uniongyrchol. Mae rôl ymgynghorol y comisiynydd yn cael ei leihau'n uniongyrchol gan y ddarpariaeth hon, yn enwedig o ran yr unigolion priodol hynny sy'n cael cymorth ariannol penodol. Mae eich memorandwm esboniadol—o leiaf cafodd ei gymeradwyo gennych chi, Weinidog—hefyd yn peri pryder oherwydd eich bod yn datgan y byddwch yn gofyn i'r comisiynydd ganolbwytio ar ei swyddogaethau rheoleiddio yn hytrach nag ar hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Mae hynny, i raddau, yn ymddangos yn groes i strategaeth

yr iaith Gymraeg.

Minister, can you explain the advantages of transferring these powers to Welsh Ministers in addition to the commissioner? If there are any savings to be made as a result, will you be redirecting that money for core funding to local bodies delivering your new Welsh language strategy instead of risking their effectiveness by relying on a succession of unsustainable project funding?

Rhodri Glyn Thomas: Ar ran Plaid Cymru, rwy'n croesawu'r datganiad hwn yn fawr iawn. Mae'r datganiad hwn, unwaith ac am byth, yn creu sefyllfa lle mae gennym gyfrifoldeb uniongyrchol am hyrwyddo'r Gymraeg, yn gorwedd gyda Llywodraeth Cymru. Wrth gwrs, sôn rydym am bolisiau'r Llywodraeth, felly'r Llywodraeth a ddylai fod yn gyfrifol am hyrwyddo'r polisiau hynny, gan alluogi cymunedau ledled Cymru i ymateb i'r polisiau hynny a chreu sefyllfa lle rydym yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r cyfleoedd sydd ganddynt i ddefnyddio'r iaith mewn amrywiol sefyllfaoedd. Hefyd, am y tro cyntaf, mae cyfrifoldebau clir dros reoleiddio yn gorwedd gyda'r comisiynydd.

Dyma un o'r problemau mawr a oedd yn wynebu Bwrdd yr Iaith Gymraeg—sut y gallai gyflawni'r naill swyddogaeth a'r llall. Rwy'n credu y byddai'r bwrdd ei hun, hyd yn oed, yn cydnabod nad oedd ganddo adnoddau digonol i gyflawni'r cyfrifoldebau rheoleiddio hynny, ac nid yw hynny wedi digwydd. Mae mawr angen hynny. Felly, rwy'n credu bod hyn yn ein galluogi i weld y cyfrifoldebau hynny'n glir. Fel gwrthbleidiau, byddwn yn dal y Llywodraeth i gyfrif ac yn sicrhau ein bod yn craffu arni, gan sicrhau bod y polisiau o ran hyrwyddo'r Gymraeg—rwy'n hapus i'w gweld yn gorwedd gyda'r Gweinidog, gan fy mod yn ymwybodol o'i ymrwymiad ef—yn digwydd yn effeithiol.

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews): Nid wyf yn cytuno â llefarydd y Ceidwadwyr. Rydym wedi penderfynu ar hyn yn ystod y trafodaethau ar y Mesur. Felly, croesawaf yr hyn a ddywedodd Rhodri Glyn Thomas. Rwy'n cytuno ag ef.

Weinidog, a allwch chi egluro manteision trosglwyddo'r pwerau hyn i Weinidogion Cymru yn ogystal ag i'r comisiynydd? Os oes unrhyw arbedion i'w gwneud o ganlyniad i hynny, a fyddwch yn ailgyfeirio'r arian hwnnw ar gyfer cyllid craidd i gyrff lleol sy'n cyflawni eich strategaeth iaith Gymraeg newydd yn hytrach na pheryglu eu heffeithiolrwydd trwy ddibynnu ar gyfres o gyllid prosiect anghynnaladwy?

Rhodri Glyn Thomas: I warmly welcome this statement on behalf of Plaid Cymru. What this does, once and for all, is create a situation whereby we have direct responsibility for promoting the Welsh language, sitting with the Welsh Government. Of course, we are talking about Government policy, so it is the Government that should be responsible for promoting those policies, facilitating the use of Welsh and enabling communities across Wales to respond to those policies, increasing the number of Welsh speakers and the opportunities available to use the Welsh language in various situations. Also, for the first time, clear regulatory responsibilities lie with the commissioner.

This was one of the major problems that faced the Welsh Language Board—how it could carry out both functions. I believe that the board itself would acknowledge that it did not have sufficient resources to fulfil those regulatory responsibilities, and that did not happen. That is very much needed. Therefore, I believe that this enables us to clearly see those responsibilities. As opposition parties, we will be holding the Government to account, scrutinising its work to ensure that policies on promoting the Welsh language—I am happy to see them sitting with the Minister; I am aware of his commitment—are effectively implemented.

The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews): I do not agree with the spokesperson for the Conservatives. We decided this during discussions on the Measure. Therefore, I welcome what Rhodri Glyn Thomas said. I agree with him.

Bydd gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol o ran sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn parhau i ffynnu. Byddwn yn gwneud hyn drwy weithredu'r strategaeth iaith Gymraeg newydd sydd wedi ei lansio a drwy weithio'n agos gyda Chomisiynydd y Gymraeg a phartneriaid eraill.

The Welsh Government will have a key role in ensuring that the Welsh language continues to thrive. We will do this through implementing the newly launched Welsh language strategy and through close working with the Welsh Language Commissioner and other partners.

O 1 Ebrill 2012, bydd Gweinidogion Cymru yn ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb am hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a byddant yn fwy uniongyrchol atebol am y gweithgareddau y byddwn yn eu hyrwyddo i'w chefnogi. Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu rhan allweddol o'r fframwaith deddfwriaethol i alluogi hyn i ddigwydd. Rwy'n annog aelodau i gefnogi'r Gorchymyn hwn.

As of 1 April 2012, Welsh Ministers will shoulder more of the responsibility for promoting and facilitating the use of Welsh and will be more directly accountable for the activities that we promote to support it. This Order provides a key part of the legislative framework to enable this to happen. I urge Members to support the Order.

Y Dirprwy Lywydd: Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree the motion. Is there any objection? I see that there is no objection. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

**Cynllun Drafft ar Hawliau Plant i'w Gymeradwyo o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
Draft Children's Rights Scheme for Approval under the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011**

Y Dirprwy Lywydd: Rwyf wedi dethol gwelliannau 1 a 2 yn enw William Graham a gwelliant 3 yn enw Peter Black.

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendments 1 and 2 in the name of William Graham and amendment 3 in the name of Peter Black.

Cynnig NDM4950 Jane Hutt

Motion NDM4950 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adran 3(6) o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with section 3(6) of the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011:

Yn cymeradwyo'r Cynllun Hawliau Plant drafft a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 20 Mawrth 2012.

Approves the draft Children's Rights Scheme laid before the Assembly on 20 March 2012.

Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas): Cynigiau y cynnig.

The Deputy Minister for Children and Social Services (Gwenda Thomas): I move the motion.

Hoffwn ddiolch ichi am y cyfle hwn heddiw i rannu fersiwn drafft o'r cynllun hawliau plant ag Aelodau'r Cynulliad, a chael eich cymeradwyaeth i adran 2 Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Mae Gweinidogion Cymru wedi dangos dro ar ôl tro eu bod wedi ymrwymo i hawliau plant. Drwy sicrhau bod yr hawliau hyn yn rhan annatod o bopeth a wnawn, rydym o'r farn y gwnaiff hyn, yn ei dro, wella polisi a deddfwriaeth a fydd yn helpu i wella bywydau plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

The Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011 is testament to this. In times when other nations are questioning rights and, in some cases, working contrary to the United Nations Convention on the Rights of the Child, Wales has strengthened its commitment by setting out clearly how we, as a Government, will move towards totally embedding the convention and its optional protocols within our policies and legislation.

I am very proud, as Deputy Minister leading on the portfolio for children, to be standing here on what is a historic and significant occasion. I am proud as we are the only nation in the UK to enshrine the UNCRC into our domestic law and the only nation to have a children's rights scheme that sets out our arrangements for complying with this commitment. I am also proud that children and young people in Wales will see that we, as a Government, support their needs and want them to be safe, to be heard and to have opportunities and experiences in life.

I hope that you have all had an opportunity to read and consider the children's rights scheme. I believe that the scheme sets out clearly and transparently what we, as Ministers, have in place to have due regard to the UNCRC in our policies and legislation. We have received only three amendments; I am willing to accept these as part of our commitment to continuing to work closely with our key partners to develop our approaches to implementing the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011 and further develop our

I would like to thank you for the opportunity today to share with Assembly Members the draft version of the children's rights scheme, and to gain your approval for section 2 of the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011.

Welsh Ministers have shown time and again that they are committed to the rights of children. By ensuring that these rights are central to all that we do, we believe that it will, in turn, improve policy and legislation, allowing us to improve the lives of children, young people and their families.

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn brawf o hyn. Mewn cyfnod pan fo gwledydd eraill yn cwestiynu hawliau ac, mewn rhai achosion, yn gweithio'n groes i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, mae Cymru wedi cryfhau ei hymrwymiad trwy nodi'n glir sut y byddwn, fel Llywodraeth, yn symud tuag at ymgorffori'n llwyr y confensiwn a'i brotocolau dewisol yn ein polisiau a'n deddfwriaeth.

Rwy'n falch iawn, fel Dirprwy Weinidog sy'n arwain ar y portffolio ar gyfer plant, o fod yn sefyll yma ar yr achlysur hanesyddol ac arwyddocaol hwn. Rwy'n falch gan mai ni yw'r unig wlad yn y DU i ymgorffori'r confensiwn yn ein cyfraith ddomestig a'r unig genedl i gael cynllun hawliau plant sy'n nodi ein trefniadau ar gyfer cydymffurfio â'r ymrwymiad hwn. Rwyf hefyd yn falch y bydd plant a phobl ifanc yng Nghymru yn gweld ein bod ni, fel Llywodraeth, yn cefnogi eu hanghenion ac yn dymuno iddynt fod yn ddiogel, i gael eu clywed ac i gael cyfleoedd a phrofiadau mewn bywyd.

Gobeithio eich bod i gyd wedi cael cyfle i ddarllen ac ystyried y cynllun hawliau plant. Credaf fod y cynllun yn nodi'n glir ac yn eglur yr hyn sydd gennym, fel Gweinidogion, ar waith i roi sylw dyledus i'r confensiwn yn ein polisiau a'n deddfwriaeth. Rydym wedi derbyn tri o ddiwygiadau yn unig; rwy'n fodlon derbyn y rhain fel rhan o'n hymrwymiad i barhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid allweddol i ddatblygu ein dulliau o weithredu Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, ac i ddatblygu ymhellach ein cynllun hawliau plant.

children's rights scheme.

The scheme focuses on the processes that are in place and some that will be put in place shortly so that we are absolutely sure that we have considered the articles within the UNCRC, and their impact, before and during the development of our policies and legislation. However, process alone will not ensure compliance. The scheme also focuses on accountability, on who is responsible and on the roles of individuals and groups. While we all have a role to play in implementing the Measure through the scheme, let me be completely clear: the due regard duty, as set out in the Measure, sits with us as Ministers. Welsh Ministers are also responsible for the arrangements identified in the children's rights scheme. The law does not allow us to pass our responsibilities on to officials, and we take this responsibility very seriously. However, Welsh Government officials play a very important part in developing legislation and policy and providing options and advice for us to consider. Therefore, the scheme reflects the expectations from officials as well as Ministers, and this is as it should be.

A period of consultation was held on the draft scheme and we received some extensive responses. I found the balanced response from the UNCRC monitoring group, led by Save the Children, particularly helpful, as well as that from UNICEF. Rich and vibrant feedback was also gathered from around 400 children and young people from a variety of settings across Wales.

4.00 p.m.

Indeed, I had the pleasure of viewing and experiencing in person a workshop taking place with Wrexham youth fora. It involved setting out clearly and simply the purpose of the children's rights scheme and being creative in ensuring understanding of the terminology and the roles of Ministers, of the implementation group as 'the Ministers' team' and of the implementation steering group as 'the Ministers' eyes'. It also worked so that the young people understood what they could gain from the scheme being implemented. It was quite fascinating and, as

Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar y prosesau sydd ar waith ac ar rai a fydd yn cael eu rhoi ar waith yn fuan fel ein bod yn hollol sicr ein bod wedi ystyried erthyglau'r confensiwn, a'u heffaith, cyn ac yn ystod y gwaith o ddatblygu ein polisiau a'n deddfwriaeth. Fodd bynnag, ni fydd proses yn unig yn sicrhau cydymffurfiad. Mae'r cynllun hefyd yn canolbwyntio ar atebolrwydd, ar bwy sy'n gyfrifol ac ar rôl unigolion a grwpiau. Er bod gan bob un ohonom ran i'w chwarae o ran gweithredu'r Mesur trwy'r cynllun, gadewch imi fod yn gwbl glir: nyni fel Gweinidogion sydd â'r ddyletswydd sylw dyledus, fel y nodir yn y Mesur. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn gyfrifol am y trefniadau a nodir yn y cynllun hawliau plant. Nid yw'r gyfraith yn caniatáu inni drosglwyddo ein cyfrifoldebau i swyddogion, ac rydym yn cymryd y cyfrifoldeb hwn o ddifrif. Fodd bynnag, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan bwysig iawn wrth ddatblygu deddfwriaeth a pholisi a darparu dewisiadau a chynghor inni eu hystyried. Felly, mae'r cynllun yn adlewyrchu disgwyliadau swyddogion yn ogystal â Gweinidogion, ac mae hynny fel y dylai fod.

Cynhaliwyd cyfnod o ymgynghori ar y cynllun drafft a chawsom ymatebion helaeth. Roedd ymateb cytbwys grŵp monitro'r confensiwn, a arweinir gan Achub y Plant, i mi'n arbennig o ddefnyddiol, yn ogystal â'r ymateb gan UNICEF. Casglwyd adborth cyfoethog a bywiog gan tua 400 o blant a phobl ifanc o amrywiaeth o leoliadau ledled Cymru hefyd.

Yn wir, cefais y pleser o arsylwi ar weithdy a oedd yn cael ei gynnal gyda fforymau ieuenctid Wrecsam ac o gymryd rhan ynddo. Roedd yn ymwneud â nodi'n glir ac yn syml diben y cynllun hawliau plant a bod yn greadigol wrth sicrhau dealltwriaeth o'r derminoleg a swyddogaethau Gweinidogion, y grŵp gweithredu fel 'tîm y Gweinidogion' a'r grŵp llywio gweithredu fel 'llygaid y Gweinidogion'. Roedd hefyd yn gweithio fel bod y bobl ifanc yn deall y budd y gallent ei gael o weithredu'r cynllun. Roedd yn hynod ddiddorol ac, fel bob amser, synnais at

always, I was astounded by the level of understanding, the creativity and the willingness of these young people to give their opinions in a constructive way. There is a separate document that will be on our website that collates the comments received from children and young people, and I urge you to make time to read it.

We have considered carefully the feedback that we received and I believe that the document that is in front of you today is substantially different from the one that went out for consultation. It has much more depth and clarity. We have worked hard to ensure that the scheme is accessible, that the language is uncomplicated, and that it is easy to understand. We have identified the next steps and will be continuously working with stakeholders to ensure compliance now and in the future.

In Wales, we have created a unique, increasingly rights-based approach to policy. That has had a major impact on our policy landscape. Sometimes, children and young people will need support and encouragement, and we have strong and accessible mechanisms in place in Wales. We have invested in information, advice and advocacy services to ensure that children and young people are protected, are able to participate and have access to provision. These include Meic, our advocacy and advice helpline for children and young people, which is available 24 hours a day, seven days a week. It is the only helpline of its kind on a national level in the UK and has received 7,000 contacts by children and young people to date. It has proved to be an invaluable support for children and young people.

Having said that, we have some work yet to do, and you will all have seen the children's commissioner's report on advocacy published last week. I have already written to Christine Chapman, the Chair of the Children and Young People Committee, the members of which have consistently shown their interest in advocacy, to ask them to contribute their views on the recommendations. I agree that there are areas that we need to address and where we can make improvements, but we should also acknowledge the considerable

ddealltwriaeth, creadigrwydd a pharodrwydd y bobl ifanc i roi eu barn mewn ffordd adeiladol. Bydd dogfen ar wahân ar ein gwefan sy'n casglu'r sylwadau a gafwyd gan blant a phobl ifanc, ac rwyf yn eich annog i gymryd yr amser i'w ddarllen.

Rydym wedi ystyried yr adborth a gawsom yn ofalus ac rwyf yn credu bod y ddogfen sydd o'ch blaen heddiw yn wahanol iawn i'r un yr ymgynghorwyd arni. Mae llawer mwy o ddyfnder ac eglurder iddi. Rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau bod y cynllun yn hygyrch, bod yr iaith yn syml, a'i fod yn hawdd i'w ddeall. Rydym wedi nodi'r camau nesaf a byddwn yn gweithio'n barhaus gyda rhanddeiliaid i sicrhau cydymffurfiaeth yn awr ac yn y dyfodol.

Yng Nghymru, rydym wedi creu ymagwedd unigryw tuag at bolisi sy'n gynyddol seiliedig ar hawliau. Cafodd hynny effaith fawr ar ein tirlun polisi. Weithiau, bydd angen cymorth ac anogaeth ar blant a phobl ifanc, ac mae gennym ddulliau cryf a hygyrch ar waith yng Nghymru. Rydym wedi buddsoddi mewn gwasanaethau gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu, yn gallu cymryd rhan ac yn cael mynediad i ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys Meic, ein llinell gymorth eiriolaeth a chyngor i blant a phobl ifanc, sydd ar gael 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Dyna'r unig linell gymorth o'i math ar lefel genedlaethol yn y DU ac mae 7,000 o blant a phobl ifanc wedi cysylltu â hi hyd yn hyn. Mae wedi profi i fod yn gymorth amhrisiadwy i blant a phobl ifanc.

Wedi dweud hynny, mae gennym rywfaint o waith i'w wneud eto, a byddwch i gyd wedi gweld adroddiad y comisiynydd plant ar eiriolaeth a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf. Rwyf eisoes wedi ysgrifennu at Christine Chapman, Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, gan fod ei aelodau wedi dangos diddordeb cyson mewn eiriolaeth, i ofyn iddynt roi eu barn ar yr argymhellion. Cytunaf fod meysydd y mae angen inni fynd i'r afael â hwy a lle y gallwn wneud gwelliannau, ond dylem hefyd gydnabod y

amount of positive developments that have been achieved. Advocacy is inextricably linked to children's rights and needs to be set within this context. I will issue a written statement in response to the commissioner's review by the end of this week.

From a rights-based perspective, the assumption must be that, by the promotion of access to rights and rights-based provision, we will improve the outcomes achieved and promote wellbeing in all children and young people. If children and young people have positive experiences, they are more likely to achieve sustainable positive change throughout their lives. We have come a long way in Wales and, while we have not quite reached our destination, I am proud of how far we have travelled with the children's rights scheme before us today. This is another big step on this important journey.

Gwelliant 1 William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw'r cynllun yn mynnu bod Llywodraeth Cymru yn adrodd i'r Cynulliad Cenedlaethol yn flynyddol ar gydymffurfio â'i dyletswydd i roi sylw dyledus i'r CCUHP.

Gwelliant 2 William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw'r cynllun yn cynnig cyfleoedd cryfach ar gyfer herio'n briodol os ystyrir nad yw Gweinidogion Cymru wedi cydymffurfio â'u dyletswydd i roi sylw dyledus i'r CCUHP.

Angela Burns: I move amendments 1 and 2 in the name of William Graham.

The United Nations Convention on the Rights of the Child is quite something. Anyone who has had the time to read it will have seen that it is all about going out and trying to afford those who have a small voice or no voice the opportunity to be heard. It is quite life-affirming to read the UN Convention on the Rights of the Child,

nifer sylweddol o ddatblygiadau cadarnhaol a roddwyd ar waith. Mae eiriolaeth yn rhan annatod o hawliau plant ac mae angen ei gosod o fewn y cyd-destun hwn. Byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig mewn ymateb i adolygiad y comisiynydd erbyn diwedd yr wythnos hon.

O safbwynt hawliau, rhaid tybio, drwy hyrwyddo mynediad i hawliau a darpariaeth sy'n seiliedig ar hawliau, y byddwn yn gwella'r canlyniadau a geir ac yn hybu lles pob plentyn a pherson ifanc. Os yw plant a phobl ifanc yn cael profiadau cadarnhaol, maent yn fwy tebygol o wneud newidiadau cadarnhaol, cynaliadwy drwy gydol eu bywydau. Rydym wedi dod yn bell yng Nghymru ac, er nad ydym wedi cyrraedd pen y daith eto, rwyf yn falch o'r pellter rydym wedi ei deithio gyda'r cynllun hawliau plant sydd ger ein bron heddiw. Mae hwn yn gam mawr arall ar y daith bwysig hon.

Amendment 1 William Graham

Add as new point at end of motion:

Regrets that the scheme does not require the Welsh Government to report annually to the National Assembly on compliance with its duty to have due regard to the UNCRC.

Amendment 2 William Graham

Add as new point at end of motion:

Regrets that the scheme does not provide stronger opportunities for appropriate challenge if Welsh Ministers are considered not to have complied with their duty to have due regard to the UNCRC.

Angela Burns: Cynigiau welliannau 1 a 2 yn enw William Graham.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn dipyn o beth. Bydd unrhyw un a gafodd amser i'w ddarllen yn gweld ei fod yn ymwneud â mynd allan a cheisio rhoi'r cyfle i'r rheini sydd â llais bach neu ddim llais gael eu clywed. Mae darllen Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn eich llenwi â gobaith,

because it makes you realise that we human beings do have humanity and the opportunity to move forward by looking after the most vulnerable in our society.

It is with huge pride, Deputy Minister, that I stand here today to say not only do I welcome this debate, not only do I welcome your motion, not only am I going to speak in a moment or two about our amendments and why we tabled them, but also 'well done'. I say 'well done' to the National Assembly for Wales, 'well done' to the Government and 'well done' to the nation. What we have here is ground-breaking legislation. It is in that spirit that we have tabled our two small amendments. We know that the eyes of the world are upon us. The rest of the UK does not have this, and many places, countries and parliaments in Europe are nowhere near this yet. If we can make this work here, and if we can do it well and be an absolute exemplar writ large throughout the world, then our small nation has indeed cast a very long shadow today, and it is to the benefit and the good of all.

Welsh Ministers must have due regard. That is so key. We recognise that today marks the first children's rights scheme. We recognise that, among other ground-breaking pieces of legislation that this Assembly has undertaken, this will be a living, breathing organism. We want this to get better and better. We therefore tabled our amendments just as a way of saying that five years is far too long before we have a second report. We would like to see—and I am so delighted that you have said you will support amendment 1—the convention that we have with regard to the Commissioner for Older People in Wales and the convention that we will have on the Welsh language scheme: every year, people will come back here and put forward a report and we will have a chance to debate it. The objective is not to pull things apart. The objective is always to ensure that we are raising the bar, year on year, higher and higher, and that we are stepping up to that mark.

Our amendment 2 is about the challenge mechanisms. When I read this, I was thinking

gan ei fod yn gwneud i chi sylweddoli ein bod fel bodau dynol yn meddu ar ddyngarwch a bod gennym gyfle i symud ymlaen drwy ddiogelu'r rheini sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Rwyf yn sefyll yma gyda balchder mawr heddiw, Ddirprwy Weinidog, i ddweud nid yn unig fy mod yn croesawu'r ddadl hon, nid yn unig fy mod yn croesawu'ch cynnig, nid yn unig fy mod am siarad mewn munud neu ddau am ein gwelliannau a pham rydym wedi eu cyflwyno, ond hefyd i ddweud 'llongyfarchiadau'. Llongyfarchiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, llongyfarchiadau i'r Llywodraeth a llongyfarchiadau i'r genedl. Mae'r hyn sydd gennym yma yn torri tir deddfwriaethol newydd. Rydym wedi cyflwyno ein dau welliant byr yn yr ysbryd hwnnw. Gwyddom fod llygaid y byd arnom. Nid oes gan weddill y DU hyn, ac nid yw nifer o leoedd, gwledydd a seneddau yn Ewrop yn agos at hyn eto. Os gallwn wneud i hyn weithio yma a'i wneud yn dda a sicrhau ei fod yn batrwm amlwg o arfer da ledled y byd, yna mae ein gwlad fach ni wedi cael dylanwad eang iawn heddiw, er budd a lles pawb.

Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i hyn. Mae hynny mor bwysig. Rydym yn cydnabod ein bod heddiw yn nodi'r cynllun hawliau plant cyntaf. Rydym yn cydnabod, ymysg y darnau o ddeddfwriaeth arloesol eraill a wnaed gan y Cynulliad, y bydd hwn yn gynllun byw. Rydym am iddo wella a gwella. Felly, rydym wedi cyflwyno ein gwelliannau dim ond fel ffordd o ddweud bod pum mlynedd yn llawer rhy hir cyn i ni gael ail adroddiad. Hoffem weld—ac rwyf mor falch eich bod wedi dweud y byddwch yn cefnogi gwelliant 1—y confensiwn sydd gennym o ran y Comisiynydd ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru a'r confensiwn fydd gennym ar gynllun yr iaith Gymraeg: bob blwyddyn, bydd pobl yn dod yn ôl yma ac yn cyflwyno adroddiad a byddwn yn cael cyfle i'w drafod. Nid y nod yw tynnu pethau'n ddarnau. Yr amcan bob amser yw sicrhau ein bod yn codi'r safon yn uwch flwyddyn ar ôl blwyddyn, a'n bod yn cyflawni yn unol â hynny.

Mae ein gwelliant 2 yn ymwneud â'r dulliau ar gyfer herio. Pan roeddwn yn darllen hwn,

about children in general, and I was thinking about my own children and their friends and what they know and do not know. They are lucky kids. They live in a relatively safe environment. However, for the children who are not in such a privileged position, who have to combat an uncaring environment around them, and who do not have access to a friendly person who can be their advocate, being able to challenge sounds like enormously grand words, and how do they do it in reality? I know that one of the examples given was that they could approach their Assembly Member. Well, most young children—most 12-year-olds—probably do not know who their AM is and may not even understand the relevance of an AM. I am therefore delighted that you will support this amendment. Again, all that we are asking for is guidance on how we can promote this extraordinary piece of legislation. This is all about children. It is not about us—not carers or parents. It is about them being able to say, ‘Hey, are you at the National Assembly for Wales hearing our voice, treating us properly, giving us the respect that we deserve, listening to our needs and making space in your budgets, legislation and thought processes for what we want?’ I am therefore very grateful to you, Deputy Minister.

I would like to end with a fairly abstract comment. I have had the odd person ask me, ‘What on earth is all this about? Why should children have rights? They are kids and they should wait until they are 18’, and so forth. However, I tell you that this is for every child that gets clipped as they carelessly walk past—smack—for every child that does not get the breakfast that they should have, and for every child who gets marginalised. I am only talking here about general neglect, and not mentioning all of the really appalling things that can happen to children. That is why we have to start thinking about them, in the same way that we should also cherish and look after our elderly people. Hats off to you, Deputy Minister. This is excellent. You have our support.

Gwelliant 3 Peter Black

roeddwn yn meddwl am blant yn gyffredinol, ac roeddwn yn meddwl am fy mhlant fy hun a’u ffrindiau a’r hyn y maent yn ei wybod ac nad ydynt yn ei wybod. Maent yn blant lwcus. Maent yn byw mewn amgylchedd cymharol ddiogel. Fodd bynnag, i blant nad ydynt yn y fath sefyllfa freintiedig, sy’n gorfod brwydro yn erbyn amgylchedd di-hid o’u cwmpas, ac nad oes ganddynt rywun cyfeillgar a allai fod yn eiriolwr iddynt, mae’r gallu i herio yn swnio fel geiriau crand iawn, a sut maent yn gwneud hyn mewn gwirionedd? Gwn mai un o’r enghreifftiau a roddwyd oedd y gallent fynd at eu Haelod Cynulliad. Wel, mae’n debyg nad yw’r rhan fwyaf o blant ifanc—y rhan fwyaf o blant 12 oed—yn gwybod pwy yw eu AC nag hyd yn oed yn deall perthnasedd AC. Rwyf wrth fy modd, felly, y byddwch yn cefnogi’r gwelliant hwn. Unwaith eto, y cyfan y gofynnwn amdano yw canllawiau ar sut y gallwn hyrwyddo’r darn rhyfeddol hwn o ddeddfwriaeth. Mae hyn yn ymwneud â phlant yn llwyr. Nid yw’n ymwneud â ni, gofalwyr na rhieni. Mae’n ymwneud â’u gallu i ddweud, ‘Hei, a ydych chi yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn clywed ein llais, yn ein trin ni’n iawn, yn rhoi’r parch yr ydym yn ei haeddu i ni, yn gwrandao ar ein hanghenion ac yn gwneud lle yn eich cyllidebau, deddfwriaeth a meddylfryd ar gyfer yr hyn yr ydym ei eisiau?’ Rwyf felly’n ddiolchgar iawn i chi, Ddirprwy Weinidog.

Hoffwn orffen gyda sylw eithaf haniaethol. Mae ambell unigolyn wedi gofyn i mi, ‘Beth ar y ddaear yw hyn? Pam ddylai plant gael hawliau? Plant ydynt a dylent aros nes eu bod yn 18’, ac yn y blaen. Fodd bynnag, dywedaf wrthyf fod hyn ar gyfer pob plentyn sy’n cael ei fwrw bob tro y mae’n cerdded heibio’n ddiotal—clustan—pob plentyn nad yw’n cael y brecwast y dylai ei gael, a phob plentyn sy’n cael ei wthio i’r cyrion. Dim ond sôn am esgeulustod cyffredinol yr wyf yma, ac nid am yr holl bethau gwirioneddol ofnadwy a all ddigwydd i blant. Dyna pam mae’n rhaid i ni ddechrau meddwl amdanynt, yn yr un ffordd ag y dylem hefyd drysori ac edrych ar ôl ein pobl oedrannus. Llongyfarchiadau, Ddirprwy Weinidog. Mae hyn yn rhagorol. Mae gennych ein cefnogaeth.

Amendment 3 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig: *Add as new point at end of motion:*

Yn gresynu nad yw'r Cynllun yn darparu ar gyfer mecanwaith adrodd cadarnach sy'n mynnu bod Gweinidogion Cymru'n adrodd yn amlach i'r Cynulliad.

Regrets that the Scheme does not provide for a more robust reporting mechanism that requires Welsh Ministers to report more frequently to the Assembly.

Aled Roberts: Cynigaf welliant 3 yn enw Peter Black.

Aled Roberts: I move amendment 3 in the name of Peter Black.

Mae'n bleser gennyf gyfrannu at y ddadl hon heddiw ac i gydnabod, wrth gynnig gwelliant 3 yn enw Peter Black, y gwaith y mae'r Cynulliad hwn wedi'i wneud mewn perthynas â hawliau plant. Hoffwn ddatgan hefyd, fel y gwnaeth Angela Burns, ein bod ni hefyd yn gefnogol o'r gwaith y mae'r Llywodraeth yn ei wneud.

It is my pleasure to contribute to today's debate and to recognise, in moving amendment 3 in the name of Peter Black, the work that this Assembly has undertaken on children's rights. I would also like to state, as Angela Burns did, that we, too, support the work that the Government is doing.

Wrth wneud hynny, mae'n rhaid inni gydnabod bod Cymru, fel y dywedodd y Dirprwy Weinidog, ar flaen y gad wrth gynnwys hawliau plant o fewn cyfraith gwlad.

In doing so, we must recognise that Wales, as the Deputy Minister said, is at the vanguard in including children's rights in law.

Ar 1 Mai eleni, bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru roi sylw i'r hawliau hyn ymhob maes y mae'n gweithredu ynddo. Mae'r Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn mynnu bod adroddiad i'w gyhoeddi erbyn 31 Ionawr 2013, a phob pum mlynedd wedi hynny. Rwyf innau'n ymfalchïo yn y ffaith bydd y Llywodraeth yn cefnogi'r gwelliannau, achos roedd gennym ninnau gwestiynau i'w gofyn ynglŷn â pham yr oedd yn rhaid aros pum mlynedd cyn cael trafod yma sut y mae'r Llywodraeth yn cyd-fynd â'r gofynion a roddwyd arnynt.

On 1 May of this year, the Welsh Government will have to have regard to these rights in every area in which it operates. The Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011 insists that a report should be published by 31 January 2013, and every five years after that. I am pleased that the Government will support the amendments, because we also had questions about why we had to wait five years before we could discuss here how the Government is meeting the requirements placed upon it.

Mae'r cynllun drafft hwn yn ddechrau da, ond hwyrach y dylid cryfhau rhai agweddau arno. Gobeithiaf, Ddirprwy Weinidog, eich bod yn derbyn y sylwadau hyn fel rhai adeiladol—dylem weithio ar lefel drawsbleidiol i gryfhau'r cynllun, os oes modd. Bydd ein grŵp yn cefnogi gwelliannau'r Ceidwadwyr am eu bod hefyd yn adlewyrchu'n dyheadau ni yn y maes hwn.

The draft scheme is a good start, but perhaps some aspects of it should be strengthened. I hope, Deputy Minister, that you accept these accepts as constructive ones—we should work on a cross-party level to strengthen the scheme, if possible. Our group will support the Conservatives' amendments because they also reflect our aspirations in this field.

Cyn inni drafod y mater hwn y prynhawn yma, nid oedd yn glir sut y byddai plant neu fudiadau'n herio'r Llywodraeth pe byddent yn credu bod y Llywodraeth wedi methu â

Before we discussed this issue this afternoon, it was not clear how children or organisations would challenge the Government if they believed that the Government had failed to

chyrraedd y nod mewn unrhyw faes. Dyna pam yr ydym yn cytuno bod angen i'r Llywodraeth adrodd yn ôl yn fwy rheolaidd—rwy'n croesawu'r ffaith eich bod yn derbyn hynny'r prynhawn yma.

Yn hytrach nag aros tan 2014 i ddysgu gwersi cyn dechrau ar y gwaith o baratoi cynllun newydd, rydym yn credu y dylid dechrau'n syth ar ôl adroddiad 2013. Bydd adroddiadau rheolaidd yn dangos ein bod yn dal y Llywodraeth i gyfrif. Dylai Aelodau'r Cynulliad fod yn ganolog yn yr holl broses, ond mae'n rhaid hefyd ofyn cwestiwn am yr esboniad a geir ar dudalen 12 o sut y bydd y pwerau hyn yn gweithio yn ymarferol.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallwch esbonio pa ddogfennau fydd yn cael eu hystyried wrth adolygu'r cynllun, a hefyd a fydd iddynt yr un dylanwad ni waeth pwy sy'n gyfrifol am ysgrifennu'r dogfennau hynny.

Dylwn ystyried rôl Comisiynydd Plant Cymru yn y broses hon. Cyfeiriaf at dudalen 17, sy'n tanlinellu rôl y comisiynydd. A yw'n bosibl ichi amlinellu'r trafodaethau sydd wedi digwydd gyda swyddfa'r comisiynydd ac os ydych yn fodlon bod yr adnoddau ar gael i'r comisiynydd gyflawni ei dasg yn hyn o beth?

Dylai'r cynllun hefyd gynnwys proses lle y bydd y comisiynydd plant yn ymateb i unrhyw adroddiad a gyflwynir gan y Llywodraeth, gyda ni fel Senedd yn cael cyfle i drafod yr adroddiadau wedi hynny.

Yn olaf, codaf y cwestiwn a ofynnais i'r Prif Weinidog y prynhawn yma ynglŷn â gwasanaethau atal esgeuluso plant. Mae'n debyg bod y drafodaeth honno i'w chynnal fel rhan o'r trafodaethau parthed y Bil newydd ar wasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, wrth ystyried yr amserlen sydd gennym i ystyried y Bil hwnnw'n uniongyrchol, a oes modd i ni gynnwys canlyniadau'r drafodaeth honno wrth inni baratoi'r adroddiad yn 2013?

Julie Morgan: First, I want to say what a good day this is—I want to celebrate this debate on the scheme. It is another step forward in strengthening the rights of

achieve the aim in any area. That is why we agree that the Government needs to report back more regularly—I welcome the fact that you accept that this afternoon.

Rather than waiting until 2014 to learn lessons before we start preparing a new scheme, we believe that we should start straight after the 2013 report. Regular reports will show that we are holding the Government to account. Assembly Members should be central to the whole process, but we must also ask a question about the explanation given on page 12 of how these powers will work in practice.

We would be grateful if you could explain what documents will be considered in reviewing the scheme, and also whether they will have the same influence no matter who is responsible for writing those documents.

We should consider the role of the Children's Commissioner for Wales in this process. I refer to page 17, which underlines the role of the commissioner. Could you outline the discussions that have taken place with the commissioner's office and whether you are satisfied that the resources available to the commissioner to undertake his task in that regard?

The scheme should also include a process whereby the children's commissioner responds to any report presented by the Government, with us as a Senedd having the opportunity to discuss the reports afterwards.

Finally, I raise a question that I asked the First Minister this afternoon about child neglect prevention services. It appears that that discussion is to be held as part of the discussions regarding the new Bill on social services. However, in considering the timetable that we have to consider that Bill directly, would it be possible for us to include the outcomes of that discussion as we prepare the report in 2013?

Julie Morgan: Yn gyntaf, hoffwn ddweud pam mor dda yw'r diwrnod hwn—rwyf am ddathlu'r ddadl hon ar y cynllun. Mae'n gam arall ymlaen i gryfhau hawliau plant a phobl

children and young people, and the Government and the Deputy Minister are to be congratulated.

I have a number of points. First, it is very important to continue to stress that the Measure and the scheme apply to all Ministers and not just those with responsibility for children, social services and education; it is equally important in relation to the environment, business and planning, which are crucial areas that affect children's rights. If you think about town-centre planning, how much consideration is given to the rights of children when you plan a town centre? All these issues are important, and I think that it is very important that we remember that this applies across the board.

4.15 p.m.

The scheme is also specific in stating that the due regard is for Welsh Ministers only. The Deputy Minister mentioned that in her opening speech, but has also mentioned the important role of the civil servants. It also specifically does not apply to other bodies, in particular local government and LHBs. What I wondered was whether the Minister could tell us how we are going to get those bodies to give due regard to the rights of children and young people, because many of the decisions made by those bodies are very immediate and important to children and young people. I was thinking of Cardiff Council, because it has just announced the names of four parks that, as part of the royal jubilee celebrations, are going to have special royal status and I wondered whether children's views were taken into account when those four parks were put forward. There is so much on a local government level, where the delivery of services takes place, that I wondered if the Deputy Minister could tell us how we are going to address that particular issue.

It is a matter of great pride that this is the first part of the UK that has adopted a scheme. It is the only scheme of its kind in the UK. I think it would be great if other parts of the UK adopted a similar scheme, in particular the UK Government, because that could also change its approach towards certain policy

ifanc, ac mae'r Llywodraeth a'r Dirprwy Weinidog i'w llongyfarch.

Mae gennyf nifer o bwyntiau. Yn gyntaf, mae'n bwysig iawn parhau i bwysleisio bod y Mesur a'r cynllun yn berthnasol i bob Gweinidog ac nid dim ond i'r rhai sydd â chyfrifoldeb dros blant, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg; mae'r un mor bwysig o ran yr amgylchedd, busnes a chynllunio, sy'n feysydd allweddol sy'n effeithio ar hawliau plant. Os meddyliwch am gynllunio canol tref, faint o ystyriaeth sy'n cael ei roi i hawliau plant pan fyddwch yn cynllunio canol tref? Mae'r holl faterion hyn yn bwysig, a chredaf ei bod yn bwysig iawn ein bod yn cofio bod hyn yn berthnasol ym mhob cyd-destun.

Mae'r cynllun hefyd yn dweud yn benodol bod y sylw dyledus ar gyfer Gweinidogion Cymru yn unig. Soniodd y Dirprwy Weinidog am hynny yn ei haraith agoriadol, ond soniodd hefyd am rôl bwysig y gweision sifil. Hefyd, nid yw'n berthnasol yn benodol i gyrrff eraill, yn enwedig llywodraeth leol a byrddau iechyd lleol. Beth all y Gweinidog ei ddweud wrthym am sut yr ydym yn mynd i gael y cyrrff hynny i roi sylw dyledus i hawliau plant a phobl ifanc, gan fod llawer o'r penderfyniadau a wneir gan y cyrrff hynny yn uniongyrchol iawn a phwysig i blant a phobl ifanc? Roeddwn yn meddwl am Gyngor Caerdydd, gan ei fod newydd gyhoeddi enwau'r pedwar parc a fydd, fel rhan o ddatliadau'r jiwibili frenhinol, yn cael statws brenhinol arbennig, felly tybed a gafodd barn plant ei hystyried pan enwebwyd y pedwar parc hynny? Mae cymaint ar lefel llywodraeth leol, lle y mae gwasanaethau yn cael eu darparu, felly a all y Dirprwy Weinidog ddweud wrthym sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r mater penodol hwnnw.

Mae'n destun balchder mawr mai hon yw'r rhan gyntaf o'r DU a fabwysiodd gynllun. Hwn yw'r unig gynllun o'i fath yn y DU. Byddai'n wych pe bai rhannau eraill o'r DU yn mabwysiadu cynllun tebyg, yn arbennig Llywodraeth y DU, oherwydd gallai hynny hefyd newid ei hymagwedd tuag at rai

issues affecting children. The scheme and the Measure will have to bear in mind all the concluding observations of the Committee on the Rights of the Child. The last time they were published was in 2008. That is the most recent date. Those observations make comments on the progress that different countries have made in implementing the United Nations Convention on the Rights of the Child. So, we are saying how far we have got and how much further we need to go. It is important to flag up a few of these now, because by adopting this Measure it means that those issues have to be considered seriously by the Government. One of them concerned respect for the views of the child and the Funky Dragon initiative was specifically mentioned in the reporting document. I wonder if the Deputy Minister could spell out the role Funky Dragon will play in this scheme, because it is vital that Ministers are informed of children's views. The Deputy Minister gave a very interesting account of a meeting that she had attended. It is important that we know what role Funky Dragon will play formally in this scheme. The concluding observations also said that the state party should

'prohibit as a matter of priority all corporal punishment in the family, including through the repeal of all legal defences'.

Therefore, I hope that is something that the Government will continue to keep under review. In conclusion, Deputy Presiding Officer, I think that tremendous progress has been made in developing the rights agenda in Wales. As the Deputy Minister said, we still have a way to go, but I think that this is a day to celebrate this achievement.

Mark Isherwood: My speech in Plenary at Stage 1, as Chair of the legislation committee that scrutinised the then Proposed Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure, noted that the committee agreed there was need for legislation to further the application of the United Nations Convention on the Rights of the Child, strengthening the rights of children and young people in Wales. We also recommended a duty to consult and involve children, young people and relevant stakeholders in developing the children's scheme. Of course, in today's debate, it now

materion polisi sy'n effeithio ar blant. Bydd yn rhaid i'r cynllun a'r Mesur ystyried holl sylwadau terfynol y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn. Cawsant eu cyhoeddi'r tro diwethaf yn 2008. Dyna yw'r dyddiad diweddaraf. Mae'r sylwadau hynny yn sôn am y cynnydd a wnaeth gwahanol wledydd ar weithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Felly, rydym yn dweud pa mor bell yr aethom a faint pellach sydd angen inni fynd. Mae'n bwysig tynnu sylw at rai o'r rhain yn awr, oherwydd drwy fabwysiadu'r Mesur hwn mae'n golygu y bydd yn rhaid i'r Llywodraeth ystyried y materion hynny o ddifrif. Roedd un ohonynt yn ymwneud â pharch at farn y plentyn a soniwyd yn benodol am fenter y Ddraig Ffyncci yn y ddogfen adrodd. A wnaiff y Dirprwy Weinidog amlinellu pa rôl a fydd gan y Ddraig Ffyncci yn y cynllun hwn, gan ei bod yn bwysig bod Gweinidogion yn cael gwybod am farn plant. Rhoddodd y Dirprwy Weinidog ddarlun diddorol iawn o'r cyfarfod a fynychodd. Mae'n bwysig inni wybod pa rôl ffurfiol a fydd gan y Ddraig Ffyncci yn y cynllun hwn. Mae'r sylwadau terfynol hefyd yn dweud y dylai plaid y wladwriaeth

wahardd, fel mater o flaenoriaeth, bob cosb gorfforol yn y teulu, gan gynnwys drwy ddiddymu'r holl amddiffynfeydd cyfreithiol.

Felly, gobeithio y bydd hynny'n rhywbeth y bydd y Llywodraeth yn parhau i gadw golwg arno. I gloi, Ddirprwy Lywydd, credaf fod cynnydd aruthrol wedi ei wneud wrth ddatblygu'r agenda hawliau yng Nghymru. Fel y dywedodd y Dirprwy Weinidog, mae gennym gryn ffordd i fynd, ond credaf fod hwn yn ddiwrnod i ddatlu'r gamp hon.

Mark Isherwood: Nododd fy araith yn y Cyfarfod Llawn yng Nghyfnod 1, fel Cadeirydd y pwyllgor ddeddfwriaeth a oedd yn craffu ar y Mesur Arfaethedig ar Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), fod y pwyllgor wedi cytuno nad oedd angen deddfwriaeth i hybu'r defnydd o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, gan gryfhau hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Gwnaethom hefyd argymhell dyletswydd i ymgynghori a chynnwys plant, pobl ifanc a rhanddeiliaid perthnasol i ddatblygu'r cynllun plant. Wrth gwrs, yn y ddadl heddiw,

falls on us to approve that draft children's rights scheme.

The United Nation's convention states a child's right to be protected from neglect. Children who are neglected are often unable to access their wider rights to education, health and play. Recent research by Action for Children and the University of Stirling asked how good we are at recognising neglect and how well we address it. 'Child neglect in 2011', an annual review, found that more than half of social workers and a third of police officers feel powerless to intervene in cases of child neglect. Child neglect ruins lives, robs young people of the childhood they deserve and stops children from fulfilling their potential. The report makes specific recommendations and calls on the Welsh Government to ensure that agencies work together to fully understand the scale and impact of neglect in every area of Wales and provide early intervention to help families before problems escalate.

The Welsh Government announced yesterday that it was rolling out its programme of integrated family support services across Wales. We welcome this. However, this programme was first evaluated in five third-sector projects under the early parental intervention pilot, which included Barnardo's Cymru in Flintshire. The Welsh Government failed to provide a public response to this evaluation, and I am concerned at reports that local authorities pioneering integrated family support failed to engage with the charities involved in the pilot.

During Stages 2 and 3 of the passage of the Proposed Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure, the Welsh Conservatives tabled an amendment that would have ensured that Welsh Ministers had regard to the transition period children go through on their journey to becoming adults, who, by virtue of their age, cease to benefit from the protection of the convention. There is a need to carefully plan for that transition to adult services when children cease to be protected by the UNCRC. This essential

gofynnir inni gymeradwyo'r cynllun hawliau plant draft hwnnw.

Mae confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn sôn am hawl y plentyn i gael ei ddiogelu rhag esgeulustod. Mae plant sy'n cael eu hesgeuluso yn aml yn methu cael mynediad at eu hawliau ehangach i addysg, iechyd a chwarae. Holodd ymchwil yn ddiweddar gan Gweithredu dros Blant a Phrifysgol Stirling pa mor dda yr ydym yn gallu adnabod esgeulustod a pha mor dda yr ydym am ymdrin ag ef. Canfu 'Child neglect in 2011', adolygiad blynyddol, fod mwy na hanner gweithwyr cymdeithasol a thraean swyddogion yr heddlu yn teimlo'n ddi-rym i ymyrryd mewn achosion o esgeuluso plant. Mae esgeuluso yn dinistrio bywydau, yn amddifadu pobl ifanc o'r plentyndod y maent yn ei haeddu ac yn atal plant rhag gwireddu eu potensial. Mae'r adroddiad yn gwneud argymhellion penodol ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod asiantaethau'n cydweithio i ddeall hyd a lled ac effaith esgeulustod ym mhob ardal o Gymru ac ymyrryd yn gynnar i helpu teuluoedd cyn i broblemau waethygu.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddoe ei bod yn cyflwyno ei rhaglen o wasanaethau integredig cymorth i deuluoedd ar draws Cymru. Rydym yn croesawu hyn. Fodd bynnag, cafodd y rhaglen hon ei gwerthuso gyntaf mewn pum prosiect trydydd sector o dan y cynllun peilot ymyrraeth gynnar â rhieni, a oedd yn cynnwys Barnardo's Cymru yn sir y Fflint. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi ymateb cyhoeddus i'r gwerthusiad hwn, ac rwyf yn bryderus am adroddiadau na lwyddodd awdurdodau lleol a arloesodd gymorth integredig i deuluoedd i ymgysylltu â'r elusennau dan sylw yn y cynllun peilot.

Yn ystod Cyfnod 2 a Chyfnod 3 y Mesur Arfaethedig ar Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), cyflwynodd y Ceidwadwyr Cymreig welliant a fyddai wedi sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn rhoi sylw i'r cyfnod pontio y mae plant yn mynd drwyddo ar eu taith i ddod yn oedolion, a hwythau, oherwydd eu hoed, yn peidio ag elwa o ddiogelwch y confensiwn. Mae angen cynllunio'n ofalus ar gyfer y pontio hwnnw i wasanaethau oedolion pan na fydd plant bellach yn cael eu diogelu gan y confensiwn.

transition phase must therefore be addressed in the rights-based approach for young people aged 18 to 24 that is to be consulted upon by the Welsh Government later this year.

Prompted by cases where councils were unaware of their legal obligations, last week's report by the Children's Commissioner for Wales on advocacy services highlighted the failure of some councils to provide advocacy services for looked-after children. As the commissioner said, young people are having decisions made about them, without them. Further to my involvement in a child abuse case that eventually secured convictions, I recently received a letter from the county council concerned, which said that I had raised a significant point about the opportunity to seek an appropriate advocate for the child. The council could not explain why that was not offered at the time, but intended to follow up on my inquiry. I received that letter last month.

One of the core aims of the Welsh Government's draft scheme is to ensure access to play, leisure, sporting and cultural activities. Defeated Welsh Conservative amendments tabled to the Proposed Children and Families (Wales) Measure questioned the change of the Welsh Government's definition of play, highlighting concerns expressed by several play organisations that the inclusion of the words 'includes any recreational activity' have pulled against playwork principles and was a massive step backwards. Play is a developmental process and an innate human need, not a wide range of recreational activities. Our amendments also called for sufficient play opportunities to be available to children, because a number of consultees had questioned whether there was enough detail in the proposed Measure on what constituted sufficient play opportunities. Children in Wales questioned who would judge the level of sufficiency in an area, and Fields in Trust went on to suggest that sufficiency should be judged against measures of quality, quantity and accessibility.

Rhaid ymdrin â'r cyfnod pontio hanfodol hwn felly yn y dull sy'n seiliedig ar hawliau i bobl ifanc 18 i 24 oed y mae ymgynghori i ddiwydd arno gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddarach eleni.

Wedi ei ysgogi gan achosion lle nad yw cynghorau yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau cyfreithiol, tynnodd yr adroddiad yr wythnos diwethaf gan Gomisiynydd Plant Cymru sylw at fethiant rhai cynghorau i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth i blant sy'n derbyn gofal. Fel y dywedodd y comisiynydd, mae penderfyniadau'n cael eu gwneud am bobl ifanc heb ofyn eu barn. Yn dilyn fy rhan mewn achos cam-drin plant lle y sicrhawyd euogfarnau yn y pen draw, cefais lythyr yn ddiweddar gan y cyngor sir dan sylw, a ddywedodd fy mod wedi codi pwynt arwyddocaol am y cyfle i ofyn am eiriolwr priodol i'r plentyn. Ni allai'r cyngor egluro pam na chynigiwyd hynny ar y pryd, ond roedd yn bwriadu mynd ar drywydd fy ymholiad. Cefais y llythyr hwnnw'r mis diwethaf.

Un o amcanion craidd cynllun drafft Llywodraeth Cymru yw sicrhau mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol. Roedd gwelliannau'r Ceidwadwyr Cymreig a wrthodwyd i'r Mesur Arfaethedig ar Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) yn cwestiynu newid diffiniad Llywodraeth Cymru o chwarae, gan dynnu sylw at bryderon a fynegwyd gan nifer o sefydliadau chwarae fod cynnwys y geiriau 'yn cynnwys unrhyw weithgaredd hamdden' wedi mynd yn groes i egwyddorion gwaith a chwarae ac yn gam enfawr yn ôl. Mae chwarae yn broses ddatblygiadol ac yn angen dynol cynhenid, ac nid yn amrywiaeth eang o weithgareddau hamdden. Roedd ein gwelliannau hefyd yn galw am ddigon o gyfleoedd i chwarae i blant, gan fod nifer o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy wedi cwestiynu a oedd digon o fanylion yn y Mesur arfaethedig am yr hyn yr oedd digon o gyfleoedd i chwarae yn ei olygu. Holodd Plant yng Nghymru pwy fyddai'n barnu lefel ddigonol mewn ardal, ac aeth Meysydd Chwarae Cymru ymlaen i awgrymu y dylid mesur digonolrwydd yn erbyn mesurau o ansawdd, niferoedd a hygrychedd.

I conclude now by reiterating the calls by UNICEF and Save the Children for annual reports by the Welsh Government implementation team setting out compliance with the due regard duty, and for an effective mechanism for children and young people to challenge the Welsh Government on failure to comply with the due regard duty.

Jenny Rathbone: I am proud of the groundbreaking approach to children's rights that we have in Wales, which I believe is recognised by many Governments around the world. Of course, there are always many things that we can do to improve on the scheme, and one of the important things that we have to do is constantly listen to children and young people to ensure that the Measure really does hear the voice of the child and the young person.

It is great that this is conceptualised as a living, breathing document that will be amended as we move towards the new document in 2014. However, like my colleague Julie Morgan, I would like to know how we can extend this Measure to include other bodies like local authorities and health services. I would like to know whether the Government's commissioning role gives us the opportunity to ensure that other bodies are paying due regard to the UN Convention on the Rights of the Child.

As Mark Isherwood has already mentioned, last week's report from the children's commissioner on advocacy services reminds us that there is still a long way to go on training and awareness among professionals on ensuring that the voice of the child and the young person is heard. It must be an independent voice and they must not only rely on the parent or professional who is trying to work with a child. That needs to be at the forefront of their minds. It is not just about ticking a box from a checklist; it is about really ensuring that children's voices are given as much weight as those of adults. The needs of the child must be paramount when making difficult decisions.

Hoffwn gloi yn awr drwy ailadrodd galwadau UNICEF ac Achub y Plant am adroddiadau blynyddol gan dîm gweithredu Llywodraeth Cymru yn nodi cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd sylw dyledus, ac am fecanwaith effeithiol i blant a phobl ifanc herio Llywodraeth Cymru ynghylch methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus.

Jenny Rathbone: Rwyf yn falch o'r ymagwedd arloesol at hawliau plant sydd gennym yng Nghymru, sy'n cael ei chydabod gan Lywodraethau o gwmpas y byd. Wrth gwrs, mae bob amser lawer o bethau y gallwn eu gwneud i wella'r cynllun, ac un o'r pethau pwysig y mae'n rhaid inni ei wneud yw gwrando'n gyson ar blant a phobl ifanc er mwyn sicrhau bod y Mesur yn clywed llais y plentyn a'r person ifanc.

Mae'n wych bod hon yn cael ei hystyried yn ddogfen fyw, a fydd yn cael ei diwygio wrth i ni symud tuag at y ddogfen newydd yn 2014. Fodd bynnag, fel fy nghyd-Aelod Julie Morgan, hoffwn wybod sut y gallwn ymestyn y Mesur hwn i gynnwys cyrff eraill fel awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd. Hoffwn wybod a yw rôl gomisiynu'r Llywodraeth yn rhoi cyfle inni sicrhau bod cyrff eraill yn rhoi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Fel y soniodd Mark Isherwood eisoes, mae adroddiad y comisiynydd plant ar wasanaethau eiriolaeth a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf yn ein hatgoffa bod llawer iawn i'w wneud eto o ran hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol o ran sicrhau bod llais y plentyn a'r person ifanc yn cael ei glywed. Rhaid iddo fod yn llais annibynnol ac ni ddylai ddibynnu'n unig ar y rhiant neu'r gweithiwr proffesiynol sy'n ceisio gweithio gyda phlentyn. Mae angen i hynny fod ar flaen eu meddyliau. Nid yw'n ymwneud yn unig â thicio blwch o restr wirio; mae a wnelo â sicrhau o ddifrif fod cymaint o bwyslais yn cael ei roi ar leisiau plant â rhai oedolion. Rhaid i anghenion y plentyn fod yn hollbwysig wrth wneud penderfyniadau anodd.

Last week, Action for Children, with the University of Stirling, published a review of child neglect across the UK. It demonstrated, yet again, that children's right to freedom from neglect is often compromised under existing safeguarding systems. Understaffed and under-resourced, children's social services are having to raise the bar on what constitutes neglect sufficient to require statutory intervention, under the double-whammy of cuts to services that are hitting children and their families the hardest, as well as the cuts in grants from the UK Government. Happily, the cuts in grants to local authorities, which include statutory social services, have not been as severe in Wales. Although, as the Auditor General for Wales observed in 'A Picture of Public Services', it is vital that, in moving forward and doing more with less money, we redesign services and systems to focus more on the people who use them and, above all, that must be children.

Having children-focused services is not just about resources, it is about an attitude of the mind, and not just for the people who work with children but for everyone. The Action for Children survey points out that information about the children of adults who come to the attention of adult services is neither readily available nor systematically collected. Does the doctor or nurse treating someone who is drunk or has unexplained injuries always ask themselves about the risk to the children around that adult? We do not know, because it is not recorded. However, we need to do that if we are serious about ensuring the rights of the child at every turn.

I strongly support the Deputy Minister for children's joined-up approach to ensuring that initiatives such as Flying Start, Communities First, Families First and integrated family support services are working well with each other and with mainstream statutory services to ensure that the rights of the child in all circumstances are always at the forefront of everybody's mind. The new social services Bill gives us the opportunity to enshrine the expectations in this Measure into law.

Yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd Gweithredu dros Blant, gyda Phrifysgol Stirling, adolygiad am esgeuluso plant ar draws y DU. Dangosodd, unwaith eto, fod hawl plant i ryddid rhag esgeulustod yn cael ei beryglu yn aml gan y systemau diogelu presennol. Gyda phrinder staff ac adnoddau, mae gwasanaethau cymdeithasol i blant yn aml yn gorfod codi'r safon o ran faint o esgeulustod sy'n ddigon i beri bod angen ymyrraeth statudol, ac maent ar yr un pryd yn dioddef ergyd o ran toriadau i wasanaethau sy'n taro plant a'u teuluoedd fwyaf, yn ogystal â'r toriadau mewn grantiau gan Lywodraeth y DU. Yn ffodus, ni fu'r toriadau i grantiau awdurdodau lleol, sy'n cynnwys gwasanaethau cymdeithasol statudol, mor ddifrifol yng Nghymru. Er hynny, fel y dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus', mae'n hanfodol, wrth symud ymlaen a gwneud mwy gyda llai o arian, inni ailgreu gwasanaethau a systemau i ganolbwyntio mwy ar y bobl sy'n eu defnyddio, sef plant, yn bennaf oll.

Nid yw cael gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar blant yn ymwneud ag adnoddau yn unig, mae'n ymwneud ag agwedd meddwl, ac nid yn unig i'r bobl sy'n gweithio gyda phlant, ond i bawb. Mae arolwg Gweithredu dros Blant yn tynnu sylw at y ffaith nad yw gwybodaeth am blant oedolion sy'n dod i sylw gwasanaethau i oedolion ar gael yn hawdd nac yn cael ei chasglu'n systematig. A yw'r meddyg neu nyrs sy'n trin rhywun meddw neu sydd ag anafiadau nad oes esboniad iddynt bob amser yn gofyn iddynt eu hunain am y risg i'r plant ynglŷn â'r oedolyn hwnnw? Ni wyddom, am nad yw'n cael ei gofnodi. Fodd bynnag, mae angen inni wneud hynny os ydym o ddifrif am sicrhau hawliau'r plentyn bob tro.

Rwyf yn gefnogol i ymagwedd gydgyssylltiedig y Dirprwy Weinidog plant at sicrhau bod mentrau fel Dechrau'n Deg, Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a gwasanaethau integredig cymorth i deuluoedd yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac â gwasanaethau statudol prif ffrwd i sicrhau bod hawliau'r plentyn ym mhob achos bob amser ar flaen meddwl pawb. Mae'r Bil gwasanaethau cymdeithasol newydd yn rhoi cyfle inni ymgorffori'r disgwyliadau yn y Mesur hwn mewn cyfraith.

Rhodri Glyn Thomas: Ar ran grŵp Plaid Cymru, rwy'n croesawu'r datganiad ar y cynllun drafft ar gyfer hawliau plant yn fawr iawn. Rwyf hefyd yn llongyfarch y Dirprwy Weinidog am ei gwaith yn y maes hwn. Mae gwaith Llywodraethau Cymru, ers datganoli yn 1999, i ymateb i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn rhywbeth y gallwn fod yn falch iawn ohono. Bydd y Dirprwy Weinidog yn gyfarwydd iawn â'r wireb Gymraeg, 'Nid da lle gellir gwell', felly wrth eich llongyfarch ac wrth groesawu'r cynllun drafft, rwyf am nodi tri maes y mae eraill eisoes wedi cyfeirio atynt, ond mae gwerth i'w hailadrodd. Yn gyntaf, ac rwy'n siŵr y bydd y Dirprwy Weinidog yn cytuno â hyn, mae angen cryfhau eiriolaeth ar ran plant. Cyfeiriodd Aled Roberts yn gynharach at y posibilrwydd o atgyfnerthu rôl y comisiynydd plant. Roedd penodi'r comisiynydd plant a sefydlu'r comisiwn yn gam pwysig tuag at ddiogelu hawliau plant yng Nghymru. Mae'r holl ffordd yr aethpwyd ati i benodi'r comisiynydd plant gan ddefnyddio plant yn y cyfweiliadau yn rhywbeth i'w gydnabod a'i longyfarch. Ond, o ran eiriolaeth, mae lle i gryfhau'r sefyllfa yng Nghymru. Er, fel dywedodd Julie Morgan yn gynharach, mae mwy wedi'i wneud yng Nghymru nag mewn mannau eraill. Dyma'r cynllun drafft cyntaf, ond rwy'n meddwl bod lle i'w gryfhau o ran eiriolaeth.

4.30 p.m.

Yr ail faes y mae angen mwy o waith ynddo yw'r angen i sicrhau bod cyrff cyhoeddus ac unigolion yn ymwybodol o hawliau plant. Mae Achub y Plant wedi cyfeirio at yr angen hwn ac wedi annog mwy o waith ar y mater. Cefais fy synnu yn ddiweddar pan welais arolwg a oedd yn dweud bod 51% o weithwyr cymdeithasol a 36% o'r heddlu yn dweud eu bod yn teimlo'n gwbl ddi-rym mewn sefyllfaoedd lle mae lles plant yn y cwestiwn. Roeddent yn teimlo nad oedd ganddynt unrhyw allu i weithredu er mwyn diogelu lles plant yn y sefyllfaoedd hynny. Gobeithiaf y bydd y Dirprwy Weinidog yn edrych am gyfleoedd i sicrhau bod cyhoeddusrwydd am y materion hyn yn cael

Rhodri Glyn Thomas: On behalf of the Plaid Cymru group, I welcome the statement on the draft scheme on children's rights very warmly. I also congratulate the Deputy Minister for her work in this field. The work undertaken by Welsh Governments, since devolution in 1999, to respond to the United Nations Convention on the Rights of the Child is something that we can all take pride in. The Deputy Minister will be very familiar with the Welsh truism, '*Nid da lle gellir gwell*'—There is always room for improvement', and, therefore, in congratulating you and in welcoming the draft scheme, I will note three areas to which others have already referred, but it is worth reiterating them. First, and I am sure that the Deputy Minister will agree with this, we need to strengthen advocacy for children. Aled Roberts referred earlier to the possibility of strengthening the role of the children's commissioner. The appointment of the children's commissioner and the establishment of the commission was an important step in safeguarding the rights of children in Wales. The whole approach taken to the appointment of the children's commissioner, including the use of children in interview process, is to be recognised and applauded. However, on advocacy, there is room for improvement in Wales. Although, as Julie Morgan said earlier, more has been done in Wales than in other places. This is the first draft scheme, but there is room for improvement when it comes to advocacy.

The second area where there is room for improvement is the need to ensure that public bodies and individuals are aware of children's rights. Save the Children has referred to the need to do this and has encouraged more activity in this area. I was surprised to see that a recent survey stated that 51% of social workers and 36% of police officers feel entirely powerless in situations where children's welfare is concerned. They do not feel that they have any powers to take action to safeguard children in such circumstances. Therefore, I hope that the Deputy Minister will seek opportunities to ensure that publicity is delivered effectively in the name of the Welsh Government.

ei roi yn effeithiol yn enw Llywodraeth Cymru.

Nid wyf am fod yn feirniadol, oherwydd rwy'n falch iawn o weld bod y Dirprwy Weinidog wedi derbyn y gwelliannau. Rwy'n meddwl bod y gwelliannau hynny'n cryfhau'r cynllun drafft, a gobeithiaf fod yr awgrymiadau hyn yn rhai adeiladol; yn sicr, nid ydynt yn rhai beirniadol. Y maes olaf rwy'n gofyn i'r Dirprwy Weinidog edrych arno o ran y posibilrwydd o gryfhau'r cynllun drafft yw atebolrwydd i'r Cynulliad yn ystod y broses graffu, yn y pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn, ac rwy'n siŵr y bydd yn barod i wneud hynny. Rydym yn croesawu'r cynllun drafft hwn yn fawr iawn, ac, wrth ddweud 'nid da lle gellir gwell', rydym yn nodi ei fod yn ddechrau da iawn.

Christine Chapman: Like other Members, I think that this is an excellent scheme. Other Members have called it groundbreaking, and rightly so. I welcome the fact that the Welsh Government is bringing forward for debate this important strand of the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011. It is a positive scheme; we know that children and young people who have a greater awareness of their human rights are more likely to be confident and to fulfil their potential. When they grow up, I believe that they are also more likely to be responsible citizens who will play an active role in their communities. This scheme has long-term benefits, and I pay tribute to the Deputy Minister for it. I also note that this is the first time that any Government in the UK has been under a duty to have regard to children's rights and to ensure that they are respected, promoted and protected. Again, I commend the Welsh Government for this.

As other Members have noted, the scheme refers to the need to produce monitoring reports every five years as a minimum. I agree with other Members that five years is too long between reports. We want to see how this is being delivered before five years have elapsed. I know that Members will be vigilant in scrutinising the Government on this, but for the scheme to work effectively we must ensure that it is to be expected that

I do not wish to criticise, because I am pleased to see that the Deputy Minister has accepted the amendments. I think that the amendments strengthen the draft scheme, and I hope that these suggestions are also constructive rather than critical. The final area I would ask the Deputy Minister to consider when it comes to the possibility of strengthening the draft scheme is accountability to the Assembly during the scrutiny process, in committee and in Plenary, and I am sure that she would be prepared to do that. We very much welcome this scheme, and, in saying that there is room for improvement, we note that it is a very good start.

Christine Chapman: Yn yr un modd ag Aelodau eraill, rwy'n meddwl bod hwn yn gynllun ardderchog. Mae Aelodau eraill wedi dweud ei fod yn torri tir newydd, ac mae hynny'n wir. Croesawaf y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn cynnig cyfle i drafod yr elfen bwysig hon o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'n gynllun cadarnhaol; rydym yn gwybod bod plant a phobl ifanc sydd â gwell ymwybyddiaeth o'u hawliau dynol yn fwy tebygol o fod yn hyderus a chyflawni eu potensial. Pan fyddant yn tyfu i fyny, credaf eu bod hefyd yn fwy tebygol o fod yn ddinasyddion cyfrifol a fydd yn chwarae rhan weithredol yn eu cymunedau. Mae gan y cynllun hwn fuddion hirdymor, a hoffwn dalu teyrnged i'r Dirprwy Weinidog am hynny. Nodaf hefyd mai hwn yw'r tro cyntaf i unrhyw Lywodraeth yn y DU fod o dan ddyletswydd i roi sylw i hawliau plant ac i sicrhau eu bod yn cael eu parchu, eu hyrwyddo a'u diogelu. Unwaith eto, cymeradwyaf Lywodraeth Cymru am hyn.

Fel y mae Aelodau eraill wedi nodi, mae'r cynllun yn cyfeirio at yr angen i baratoi adroddiadau monitro bob pum mlynedd o leiaf. Rwy'n cytuno â'r Aelodau eraill fod pum mlynedd yn gyfnod rhy hir rhwng adroddiadau. Rydym yn awyddus i weld sut mae hyn yn cael ei gyflawni cyn i bum mlynedd fynd heibio. Rwy'n gwybod y bydd Aelodau yn wyliadwrus wrth graffu ar y Llywodraeth ar y mater hwn, ond er mwyn i'r

we will have regular reports. As we have said, this is a groundbreaking piece of work. We need to ensure that it is not something that happens from time to time, but that we make it a mainstream part of policy making in Wales. I am happy to agree with the amendments that other parties have put forward.

We know that article 19 of the United Nations Convention on the Rights of the Child states that,

‘Governments should ensure that children are properly cared for, and protect them from violence, abuse and neglect by their parents, or anyone else who looks after them.’

Does the Deputy Minister have any further updates on what has been done to see how we can genuinely adhere to article 19? As you know, the situation in the UK as it stands is that we are not adhering to this article because we have failed to legislate against the physical punishment of children. We all remember that lively debate that we had last October, where there was a majority vote in favour of the principle of a ban against the physical punishment of children. This is a perfect opportunity to look at this again, because it is about giving children the same rights as adults. That is all this piece of legislation looks at. Some of you will know that Keith Davies, Julie Morgan, I and others went to Finland recently to see how that country has effectively lived with the ban. Finland banned the physical punishment of children in 1984. We learnt an awful lot there: the sky did not fall in because the ban came in, and it has never been an issue. It is a taken-for-granted piece of children’s rights legislation. Again, I just want to put that on record. I look forward in future scrutiny sessions to see what further progress the Government can make on this.

Finally, I want to ask the Deputy Minister how she intends to take steps to promote the knowledge and understanding of the UNCRC

cynllun weithio’n effeithiol, mae’n rhaid inni sicrhau bod disgwyliad y byddwn yn cael adroddiadau rheolaidd. Fel yr ydym wedi ei ddweud, mae hwn yn ddarn o waith arloesol. Mae angen inni sicrhau nad yw’n rhywbeth sy’n digwydd o bryd i’w gilydd, ond ein bod yn ei wneud yn rhan ganolog o’r broses o lunio polisiau yng Nghymru. Rwy’n fodlon cytuno â’r gwelliannau a gyflwynwyd gan y pleidiau eraill.

Rydym yn gwybod bod erthygl 19 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn yn nodi,

Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn cael y gofal priodol, a’u cadw rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni, neu unrhyw un arall sy’n gofalu amdanynt.

A oes gan y Dirprwy Weinidog unrhyw ddiweddariadau pellach ar yr hyn sydd wedi ei wneud i weld sut y gallwn wir gadw at erthygl 19? Fel y gwyddoch, y sefyllfa yn y DU fel y saif yw nad ydym yn cadw at yr erthygl hon oherwydd ein bod wedi methu â deddfu yn erbyn cosbi plant yn gorfforol. Rydym i gyd yn cofio’r ddadl fywiog a gawsom fis Hydref diwethaf, lle cafwyd mwyafrif yn pleidleisio o blaid yr egwyddor o waharddiad yn erbyn cosbi plant yn gorfforol. Mae hwn yn gyfle perffaith i edrych ar hyn eto, gan ei fod yn ymwneud â rhoi’r un hawliau i blant ag oedolion. Dyna oll y mae’r darn hwn o ddeddfwriaeth yn edrych arno. Bydd rhai ohonoch yn gwybod yr aeth Keith Davies, Julie Morgan, minnau ac eraill i’r Ffindir yn ddiweddar i weld sut y mae’r wlad honno wedi byw yn effeithiol gyda’r gwaharddiad. Gwaharddodd y Ffindir gosbi plant yn gorfforol yn 1984. Gwnaethom ddysgu llawer iawn yno: ni ddaeth y byd i ben o ganlyniad i gyflwyno’r gwaharddiad, ac nid yw erioed wedi bod yn broblem. Mae’n ddarn o ddeddfwriaeth hawliau plant a gaiff ei gymryd yn ganiataol. Unwaith eto, rwyf am i hynny gael ei gofnodi. Edrychaf ymlaen at weld pa gynnydd pellach y gall y Llywodraeth ei wneud ar hyn mewn sesiynau craffu yn y dyfodol.

Yn olaf, hoffwn ofyn i’r Dirprwy Weinidog sut y mae’n bwriadu cymryd camau i hybu gwybodaeth am y confensiwn ymysg y

among the public, including children. This is vital if Wales is to effectively move forward. It is about working with the children's commissioner, and I think that we are extremely fortunate that we have a children's commissioner. It is also about working effectively with children, because children's voices must be at the heart of this. There needs to be a shift of attitude, because we do not always bring the general public with us on this. Very often in the media, the instant reaction we get when we talk about children's rights is that children have too many rights. It is seen as a negative thing. We need to shift that and a lot of work needs to be done now to ensure that we move this forward. It is an excellent piece of work, but we now need to publicise it. I was wondering, Deputy Minister, whether you had any thoughts on how we can do more on the publicity side. Again, I want to say that it is groundbreaking, and I am proud that I belong to an Assembly that has adopted this, and all of us should be rightly proud.

Mohammad Ashgar: I am grateful for the opportunity this afternoon to speak on the draft children's rights scheme. The Welsh Conservatives fully support the children's rights scheme and we are proud that this Assembly has led the way on this issue. Indeed, we are the first legislature in the United Kingdom to pass general legislation on children's rights. This landmark Measure recognises the obligation of Governments to take the rights of children and young people seriously in developing policy and decision making.

Our amendments today intend to strengthen and enhance the rights of children and young people in Wales. Amendment 1 calls on the Welsh Government to report annually to the National Assembly on compliance with its duties under the United Nations convention. We believe that a report every five years, as currently proposed, is too long to ensure that proper monitoring and evaluation are undertaken. Five years is too long; it is as long as a full Assembly term. Christine Chapman has already mentioned this. If we

cyhoedd, gan gynnwys plant, a'u dealltwriaeth ohono. Mae hyn yn hanfodol os ydym am i Gymru symud ymlaen yn effeithiol. Mae'n golygu gweithio gyda'r comisiynydd plant, ac rwy'n credu ein bod yn hynod o ffodus fod gennym gomisiynydd plant. Mae hefyd yn ymwneud â gweithio'n effeithiol gyda phlant, oherwydd rhaid i leisiau plant fod wrth wraidd hyn. Mae angen newid agwedd, gan nad ydym bob amser yn llwyddo i gael y cyhoedd i rannu ein syniadau. Yn aml iawn yn y cyfryngau, yr ymateb a gawn yn syth pan fyddwn yn sôn am hawliau plant yw bod gan blant ormod o hawliau. Mae'n cael ei weld fel rhywbeth negyddol. Mae angen inni newid hynny ac mae angen gwneud llawer o waith yn awr i sicrhau ein bod yn symud ymlaen â hyn. Mae'n ddarn rhagorol o waith, ond mae angen inni roi cyhoeddusrwydd iddo yn awr. Roeddwn yn meddwl tybed, Ddirprwy Weinidog, a ydych wedi cael unrhyw syniadau ar sut y gallwn wneud mwy ar yr ochr cyhoeddusrwydd. Unwaith eto, hoffwn ddweud ei fod yn gynllun arloesol, ac rwy'n falch fy mod yn rhan o Gynulliad sydd wedi ei fabwysiadu, a dylai pob un ohonom fod yn falch ohono.

Mohammad Asghar: Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i siarad am y cynllun drafft ar hawliau plant y prynhawn yma. Mae Ceidwadwyr Cymru yn llwyr gefnogi'r cynllun hawliau plant ac rydym yn falch bod y Cynulliad wedi arwain y ffordd ar y mater hwn. Yn wir, ni yw'r ddeddfwrfa gyntaf yn y Deyrnas Unedig i basio deddfwriaeth gyffredinol ar hawliau plant. Mae'r Mesur hwn yn garreg filltir sy'n cydnabod bod gan Lywodraethau gyfrifoldeb i gymryd hawliau plant a phobl ifanc o ddifrif wrth ddatblygu polisi a gwneud penderfyniadau.

Bwriad ein gwelliannau heddiw yw cryfhau a gwella hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae gwelliant 1 yn galw ar Lywodraeth Cymru i adrodd i'r Cynulliad Cenedlaethol yn flynyddol ar gydymffurfio â'i dyletswydd o dan gonfensiwn y Cenedloedd Unedig. Rydym yn credu bod cyflwyno adroddiad bob pum mlynedd, fel y cynigir ar hyn o bryd, yn gyfnod rhy hir i sicrhau bod monitro a gwerthuso priodol yn digwydd. Mae pum mlynedd yn rhy hir; mae cyn hired â thymor Cynulliad llawn. Mae

are serious about scrutiny, transparency and accountability with regard to children's rights, we must have an annual report so that this Assembly can properly judge progress and how the scheme is impacting the lives of children and young people in Wales.

Our second amendment highlights the need for stronger opportunities to be provided for appropriate challenges to Ministers if they are considered not to have complied with their duty. Under the draft scheme, children or their representatives are advised to contact the Welsh Government or their Assembly Member if they believe this to be the case. It is also suggested that they send a petition to the Assembly or apply for a judicial review. The United Nations Committee on the Rights of the Child has already expressed concerns about the difficulties children face in seeking justice around the world. It stresses that remedies should be child sensitive, with child-friendly advice, information and advocacy made available. Welsh children must have access to more effective remedies than are currently proposed in this Measure. The Measure before us does not provide for individual means of redress but monitors the compliance of Welsh Ministers with the due regard duty through judicial review. The Welsh Government must clarify how it will promote opportunities for challenge from children and their representatives so that effective scrutiny of Welsh Ministers can be achieved.

We also need to explore with the Children's Commissioner for Wales whether his role and powers need to be strengthened or expanded to hold Ministers accountable to children for their functions under the new due regard duty. I hope the National Assembly will recognise that our amendments are designed to strengthen and enhance the draft children's rights scheme. I ask all Members to support our amendments and to keep Wales at the forefront of promoting and protecting children's rights.

Deputy Minister, childhood is one of the most important phases of one's life. We have

Christine Chapman wedi sôn am hyn yn barod. Os ydym o ddifrif ynglŷn â chraffu, tryloywder ac atebolrwydd mewn perthynas â hawliau plant, mae'n rhaid inni gael adroddiad blynyddol fel y gall y Cynulliad hwn farnu ar y cynnydd a sut mae'r cynllun yn effeithio ar fywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Mae ein hail welliant yn tynnu sylw at yr angen i ddarparu cyfleoedd cryfach ar gyfer herio Gweinidogion yn briodol os ystyrir nad ydynt wedi cydymffurfio â'u dyletswydd. O dan y cynllun drafft, cynghorir plant neu eu cynrychiolwyr i gysylltu â Llywodraeth Cymru neu Aelod Cynulliad os ydynt yn credu bod hyn yn wir. Awgrymir hefyd eu bod yn anfon deiseb at y Cynulliad neu'n gwneud cais am adolygiad barnwrol. Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn eisoes wedi mynegi pryderon ynghylch yr anawsterau y mae plant yn eu hwynebu wrth geisio cyfiawnder ledled y byd. Mae'n pwysleisio y dylai'r atebion fod yn sensitif i'r plentyn, gan sicrhau bod cyngor, gwybodaeth ac eiriolaeth sy'n ystyriol o blant ar gael. Rhaid i blant Cymru gael mynediad at atebion mwy effeithiol na'r rhai a gynigir yn y Mesur hwn ar hyn o bryd. Nid yw'r Mesur ger ein bron yn darparu ar gyfer dull unigol o wneud iawn ond yn monitro cydymffurfiaeth Gweinidogion Cymru â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus drwy adolygiad barnwrol. Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn hyrwyddo cyfleoedd herio i blant a'u cynrychiolwyr er mwyn sicrhau y gellir craffu'n effeithiol ar Weinidogion Cymru.

Mae angen inni hefyd ystyried ar y cyd â Chomisiynydd Plant Cymru a oes angen cryfhau neu ymestyn ei rôl a'i bwerau er mwyn sicrhau bod Gweinidogion yn atebol i blant o ran eu swyddogaethau o dan y ddyletswydd newydd i roi sylw dyledus. Rwy'n gobeithio y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cydnabod bod ein gwelliannau wedi'u cynllunio i gryfhau a gwella'r cynllun drafft ar hawliau plant. Gofynnaf i'r holl Aelodau gefnogi ein gwelliannau a sicrhau bod Cymru ar flaen y gad o ran hyrwyddo a diogelu hawliau plant.

Ddirprwy Weinidog, mae plentyndod yn un o'r cyfnodau pwysicaf ym mywyd unigolyn.

all been children and we know what is needed. The biggest problem is the gap between fortunate and less fortunate families. We have to put children in a position where one child need not envy another; they should be given full protection. We must fulfil their needs, whether relating to health, education or other areas. Their families, communities and the Government must spend not only time, but money to help them. I am one of six brothers and, fortunately, none of the children was hit or touched by my father. I am the lowest achiever; everyone else is a high-ranking official, as they are top people in the country. My father was 50 years ahead of his time. I am very proud of this. Fifty years later, this nation is learning that children should not be touched. I am very proud that this legislation is before the Assembly so that our children can rule the world, not only this country, and provide an example for everyone in the world.

The Deputy Minister for Children and Social Services (Gwenda Thomas): I would like to say a warm ‘thank you’ for all contributions this afternoon. I cannot pick up every point—I am sure that you would tell me that I was out of time, Deputy Presiding Officer—but I will try to respond to the themes discussed in the Assembly this afternoon. Thank you for the cross-party support and thank you for the clear message that that will send out today to the children of Wales.

I would like to stress that this is the first version of the scheme, and there will be further opportunities to revise and revisit it, and I know that we will all want to do that. I see this scheme as the beginning of a living process. We will continue to work with all of our partners as we move towards the first monitoring report next January, which is not far away. We will work together and develop that monitoring report together, because we will have to move on from there to develop a new scheme, which we will be required to do by May 2014, when the Measure is implemented fully. Therefore, we can be a part of that process. Of course, I recognise that the children’s commissioner is a key

Rydym oll wedi bod yn blant ac rydym yn gwybod beth sydd ei angen. Y broblem fwyaf yw’r bwlch rhwng teuluoedd ffodus a’r rhai llai ffodus. Mae’n rhaid inni roi plant mewn sefyllfa lle nad oes angen i’r un plentyn fod yn genfigennus o blentyn arall; dylid sicrhau eu bod yn cael eu hamddiffyn yn llawn. Mae’n rhaid inni ateb eu hanghenion, pa un ai ydynt yn ymwneud ag iechyd, addysg neu feysydd eraill. Rhaid i’w teuluoedd, eu cymunedau a’r Llywodraeth dreulio amser i’w helpu, ond rhaid iddynt hefyd wario arian i’w helpu. Rwyf yn un o chwe brawd ac, yn ffodus, ni chafodd yr un o’r plant ei daro neu ei gyffwrdd gan fy nhad. Fi yw’r un sydd wedi cyflawni leiaf; mae’r lleill i gyd yn swyddogion uchelradd, ac maent ymysg y bobl bwysicaf yn y wlad. Roedd fy nhad 50 mlynedd cyn ei amser. Rwy’n falch iawn o hyn. Hanner can mlynedd yn ddiweddarach, mae’r genedl hon yn dysgu na ddylid cyffwrdd â phlant. Rwy’n falch iawn bod y ddeddfwriaeth hon gerbron y Cynulliad fel y gall ein plant reoli’r byd, nid y wlad hon yn unig, a chynnig esiampl i bawb yn y byd.

Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas): Hoffwn ddiolch i bawb yn wresog am eu holl gyfraniadau’r prynhawn yma. Ni allaf ymdrin â phob pwynt—rwy’n siŵr y byddech yn dweud nad oes gennyf ddigon o amser, Ddirprwy Lywydd—ond byddaf yn ceisio ymateb i’r themâu a drafodwyd yn y Cynulliad y prynhawn yma. Diolch am y gefnogaeth drawsbleidiol a diolch am y neges glir y bydd hynny’n ei hanfon at blant Cymru heddiw.

Hoffwn bwysleisio mai dyma’r fersiwn gyntaf o’r cynllun, a bydd cyfleoedd pellach i’w adolygu a’i ailystyried, a gwn y byddwn i gyd am wneud hynny. Rwy’n gweld y cynllun hwn fel dechrau proses fyw. Byddwn yn parhau i weithio gyda’r holl bartneriaid wrth inni symud tuag at yr adroddiad monitro cyntaf fis Ionawr nesaf, nad yw’n bell i ffwrdd. Byddwn yn cydweithio ac yn datblygu’r adroddiad monitro hwnnw ar y cyd, oherwydd bydd yn rhaid inni symud ymlaen oddi yno i ddatblygu cynllun newydd. Bydd gofyn inni wneud hynny erbyn mis Mai 2014, pan fydd y Mesur yn cael ei weithredu’n llawn. Felly, gallwn fod yn rhan o’r broses honno. Wrth gwrs, rwy’n

partner in this process. I have met him twice or three times recently with regard to the developing children's agenda in Wales.

A point was made about the neglect of children, along with other issues that they face. The other important consultation process is the social services Bill, which will be the test of integrated working. Therefore, we will feed all of today's responses into that process. The very important point was also made about raising awareness of the convention. It is absolutely crucial that we continue to listen to the voices of children and young people. Some 400 children were involved in this process. I think that it was Mark who mentioned the conference in Swansea a few years ago and 'Nothing About Us Without Us', and we must hold firm to that principle. We will raise awareness. A fantastic idea was put to me by children, who told me that they wanted to develop a UNCRC app. They are dragging me into the twenty-first century. [*Laughter.*] We must be very willing to go that way. If this app can be developed and if children can be involved in its design, that will be a fantastic way of raising awareness of the convention and the scheme.

4.45 p.m.

We are also developing a YouTube film to help children's understanding of what the scheme means to them. The point about the United Nations Committee on the Rights of the Child is very important, and we recognise the role that Funky Dragon has played exceptionally well in that process by representing the views of the children of Wales.

I thank officials, who have worked incredibly hard to support and advise us in getting where we are today. With regard to the points made about other bodies, we can set an example and encourage them. I am sure that we will do that. In response to Christine Chapman, we will continue to develop our positive parenting policies. Rhodri Glyn Thomas took the words right out of my mouth.

cydnabod bod y comisiynydd plant yn bartner allweddol yn y broses hon. Rwyf wedi cwrdd ag ef ddwy neu dair gwaith yn ddiweddar i drafod y broses o ddatblygu'r agenda plant yng Nghymru.

Gwnaethpwyd pwynt am esgeuluso plant, ynghyd â materion eraill sy'n eu hwynebu. Y broses ymgynghori bwysig arall yw'r Bil gwasanaethau cymdeithasol, a fydd yn brawf o weithio integredig. Felly, byddwn yn bwydo'r holl ymatebion a gafwyd heddiw i'r broses honno. Gwnaed pwynt pwysig iawn am godi ymwybyddiaeth o'r confensiwn hefyd. Mae'n gwbl hanfodol ein bod yn parhau i wrando ar leisiau plant a phobl ifanc. Cymerodd tua 400 o blant ran yn y broses hon. Rwy'n meddwl mai Mark a soniodd am y gynhadledd yn Abertawe ychydig flynyddoedd yn ôl a 'Nothing About Us Without Us', a rhaid inni llynu'n gadarn wrth yr egwyddor honno. Byddwn yn codi ymwybyddiaeth. Cynigiwyd syniad gwych imi gan blant, a ddywedodd wrthyf eu bod am ddatblygu app ar gyfer y confensiwn CCUHP. Maent yn fy llusgo i mewn i'r unfed ganrif ar hugain. [*Chwerthin.*] Rhaid inni fod yn barod iawn i fynd y ffordd honno. Os gall yr app hwn gael ei ddatblygu ac os gall y plant fod ynghlwm â'i ddyluniad, bydd hynny'n ffordd wych o godi ymwybyddiaeth o'r confensiwn a'r cynllun.

Rydym hefyd yn datblygu ffilm YouTube i gynorthwyo dealltwriaeth plant o'r hyn y mae'r cynllun yn ei olygu iddynt hwy. Mae'r pwynt am Gofensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn bwysig iawn, ac rydym yn cydnabod y rôl y mae'r Ddraig Ffynici wedi'i chwarae'n arbennig o dda yn y broses honno trwy gynrychioli safbwyntiau plant Cymru.

Diolchaf i'r swyddogion, sydd wedi gweithio'n hynod o galed i'n cefnogi a'n cynghori i gyrraedd lle yr ydym heddiw. O ran y pwyntiau a wnaed am gyrff eraill, gallwn osod esiampl a'u hannog. Rwy'n siŵr y byddwn yn gwneud hynny. Mewn ymateb i Christine Chapman, byddwn yn parhau i ddatblygu ein polisiau rhianta cadarnhaol. Aeth Rhodri Glyn Thomas â'r union eiriau o'm ceg.

Dywedaist ti, 'nid da lle gellir gwell'.

He said '*nid da lle gellir gwell*'.

It is a Welsh proverb that means 'nothing is good if it can be improved'. Rhodri Glyn, there is another one:

Dihareb Gymraeg yw sy'n golygu nad yw unrhyw beth yn dda os gellir ei wella. Mae un arall, Rhodri Glyn:

Gorau arf, arf dysg.

The best tool is the tool of learning.

I know that you will all want to join me on this very important learning curve today. We all want to send a very clear message to the children and young people of Wales this afternoon that this Welsh Government and, indeed, the National Assembly recognise their rights and respect them.

Gwn y byddwch i gyd am ymuno â mi yn y broses ddysgu bwysig hon heddiw. Mae pob un ohonom eisiau anfon neges glir iawn at blant a phobl ifanc Cymru y prynhawn yma bod Llywodraeth Cymru ac, yn wir, y Cynulliad Cenedlaethol yn cydnabod eu hawliau ac yn eu parchu.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, cafodd gwelliant 1 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that there are no objections. Amendment 1 is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 1.
Amendment 1 agreed.*

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw a ddylid derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, cafodd gwelliant 2 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? I see that there are no objections. Amendment 2 is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 2.
Amendment 2 agreed.*

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw a ddylid derbyn gwelliant 3. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, cafodd gwelliant 3 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree amendment 3. Does any Member object? I see that there are no objections. Amendment 3 is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 3.
Amendment 3 agreed.*

Cynnig NDM4950 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM4950 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adran 3(6) o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with section 3(6) of the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011:

Yn cymeradwyo'r Cynllun Hawliau Plant

Approves the draft Children's Rights Scheme

drafft a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 20 Mawrth 2012. *laid before the Assembly on 20 March 2012.*

Yn gresynu nad yw'r cynllun yn mynnu bod Llywodraeth Cymru yn adrodd i'r Cynulliad Cenedlaethol yn flynyddol ar gydymffurfio â'i dyletswydd i roi sylw dyledus i'r CCUHP. *Regrets that the scheme does not require the Welsh Government to report annually to the National Assembly on compliance with its duty to have due regard to the UNCRC.*

Yn gresynu nad yw'r cynllun yn cynnig cyfleoedd cryfach ar gyfer herio'n briodol os ystyri'r nad yw Gweinidogion Cymru wedi cydymffurfio â'u dyletswydd i roi sylw dyledus i'r CCUHP. *Regrets that the scheme does not provide stronger opportunities for appropriate challenge if Welsh Ministers are considered not to have complied with their duty to have due regard to the UNCRC.*

Yn gresynu nad yw'r Cynllun yn darparu ar gyfer mecanwaith adrodd cadarnach sy'n mynnu bod Gweinidogion Cymru'n adrodd yn amlach i'r Cynulliad. *Regrets that the Scheme does not provide for a more robust reporting mechanism that requires Welsh Ministers to report more frequently to the Assembly.*

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw a ddylid derbyn y cynnig fel y'i diwygiwyd. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, derbyniwyd y cynnig, wedi'i ddiwygio, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree the motion as amended. Does any Member object? I see that there are no objections. The motion, as amended, is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Derbyniwyd cynnig NDM4950 fel y'i diwygiwyd.
Motion NDM4950 as amended agreed.

Y Dirprwy Lywydd: Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben.

The Deputy Presiding Officer: That brings today's business to a close.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.48 p.m.
The meeting ended at 4.48 p.m.

Aelodau a'u Pleidiau **Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)

Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
 Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hedges, Mike (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 James, Julie (Llafur – Labour)
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Julie (Llafur – Labour)
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
 Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
 Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
 Rees, David (Llafur – Labour)
 Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
 Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Watson, Joyce (Llafur – Labour)
 Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)